

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG

28 TACHWEDD 2017

TARO'R CYDBWYSEDD IAWN: CYNIGION LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER BIL Y GYMRAEG NEWYDD

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES MEWN TRAFODAETH Â'R AELOD PERTHNASOL SYDD Â CHYFRIFOLDEB, Y CYNGHORYDD G. HOPKINS

Awdur: Wendy Edwards, Pennaeth Addysg yn y Gymuned (01443 744111)
Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg (01443 570002)

1. DIBEN YR ADRODDIAD

- 1.1 Diben yr adroddiad yw rhoi amlinelliad i Grŵp Llywio'r Gymraeg ar faterion y Gymraeg o ddogfen Taro'r cydbwysedd iawn: *Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil y Gymraeg newydd.*

2. ARGYMHELLION

Dyma'r argymhellion i aelodau o Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg:

- 2.1 Nodi cynnwys yr adroddiad;
- 2.2 Pwyso a mesur yr wybodaeth a chynnig sylwadau

3. CEFNDIR

- 3.1 Mae gan bawb yng Nghymru hawliau penodol i gael gwasanaethau cyhoeddus yn Gymraeg. Mae Safonau'r Gymraeg yn ddyletswyddau cyfreithiol ar gyrff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n rhoi gofynion arnynt i ddarparu gwasanaethau penodol yn y Gymraeg. Ar hyn o bryd mae Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am sicrhau bod gyrff yn cydymffurfio â'r Safonau.
- 3.2 Derbyniodd Cyngor Rhondda Cynon Taf ei Hysbysiad Cydymffurfio terfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Roedd yr Hysbysiad yn ymdrin â'r ddyletswydd sydd ar y Cyngor i fodloni 171 o Safonau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

- 3.3 Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru a nifer o gyrff eraill sy'n ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, o'r farn bod gormod o bwyslais ar reoleiddio, a diffyg pwyslais ar hybu. Mae'r Safonau yn gam mawr ymlaen o ran creu hawliau i bobl gael gwasanaethau yn y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r Safonau yn niferus a chymhleth ac mae'r ffordd y gwneir ac y gorfodir y Safonau yn fiwrocraidd ac yn cymryd amser hir.
- 3.4 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod perygl y gall y sefyllfa hon danseilio ewyllys da tuag at yr iaith a dargyfeirio adnoddau a staff oddi wrth y brif dasg o wella gwasanaethau Cymraeg.
- 3.5 Yn ogystal â symleiddio'r ffordd y mae'r system yn gweithio, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella'r trefniadau ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, a gwneud gwelliannau i'r system Safonau'r Gymraeg.

4. SEFYLLFA BRESENNOL

- 4.1 Er bod Safonau'r Gymraeg yn newydd o hyd, mae tystiolaeth (cyf. Hawliau'n Gwreiddio: Adolygiad Sicrwydd 2016-17 Comisiynydd y Gymraeg Atodiad 1) yn awgrymu bod y Safonau yn gwneud gwahaniaeth i ansawdd a chysondeb gwasanaethau Cymraeg.
- 4.2 Ar yr un pryd, mae cyrff sy'n gweithio dan y Safonau, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, yn dweud ei bod yn anodd eu deall, eu gweithredu a'u monitro.
- 4.3. O ganlyniad, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar 9 Awst 2017 ar gynigion ar gyfer Bil y Gymraeg newydd a fyddai'n bennaf yn:
- sefydlu Comisiwn y Gymraeg fel prif gorff i fod yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg ac am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau;
 - diddymu rôl Comisiynydd y Gymraeg;
 - cadw Safonau'r Gymraeg cyfredol ond symleiddio'r prosesau sy'n gysylltiedig â gwneud a gosod y Safonau;
 - trosglwyddo'r gyllideb a'r adnoddau ar gyfer gwaith penodedig arall y mae'n ei wneud ar hyn o bryd i hybu'r Gymraeg i Gomisiwn y Gymraeg;
 - diddymu'r cyfyngiadau presennol yn y ddeddfwriaeth bresennol fel y gellid gosod Safonau ar unrhyw gorff cyn belled â bod gwneud hynny o fewn pŵer y Cynulliad
 - gosod Safonau ychwanegol ar gyrff neu gael gwared ag eithriadau a ganiateir i gyrff ar hyn o bryd, os yn briodol.
- 4.4 I'r perwyl hwn, nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau:
- a. cysondeb ac ansawdd yn y ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg;
 - b. atebolrwydd y cyrff sy'n darparu'r gwasanaethau hynny;

- c. camau gorfodi os na chaiff y Safonau eu bodloni, a
- ch. lleihau biwrocratiaeth a sicrhau gwerth am arian

5. CAMAU NESAF A HOFF OPSIYNAU LLYWODRAETH CYMRU

- 5.1. Yr adran fwyaf arwyddocaol o'r Bil i effeithio ar Gyngor Rhondda Cynon Taf yw'r adran ar Safonau'r Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar bum opsiwn.

Opsiwn 1: dim newid

O dan Opsiwn 1 byddai'r system bresennol yn parhau. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod hyn yn ymarferol.

Opsiwn 2: diwygio'r system bresennol

O dan Opsiwn 2, byddem yn cadw'r system bresennol ond yn gwneud gwelliannau:

- a. Dileu neu ddiwygio Safonau nad ydynt yn cyfrannu'n uniongyrchol at wella gwasanaethau.
- b. Dileu neu ddiwygio Safonau sy'n ddrud i'w gweithredu ond sy'n arwain at ychydig iawn o fudd i'r cyhoedd;
- c. Rhoi mwy o gyfleoedd i gyrff ddefnyddio crebwyll rhesymol heb danseilio yr egwyddor o Safonau gorfodadwy. Mae rhai Safonau yn caniatáu hyn eisoes, er enghraifft, drwy fynnu bod corff yn cynnal asesiad.
- ch. Cyhoeddi canllawiau i helpu gyrff i fodloni'r Safonau.

O bryd i'w gilydd, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn adolygu'r Safonau y mae'n rhaid i gyrff gydymffurfio â nhw, er mwyn gweld a allent ddarparu mwy drwy'r Gymraeg.

Opsiwn 3: set fechan o Safonau mwy cyffredinol yn y ddeddfwriaeth sylfaenol

Byddai Opsiwn 3 yn wahanol i'r system bresennol o Safonau. Yn y system hon, byddai nifer fechan o Safonau mwy cyffredinol ym Mil y Gymraeg Er mwyn i'r system weithio, byddai'n rhaid i'r gyfraith ganiatáu eithriadau i'r Safonau fel eu bod yn rhesymol a chymesur i gyrff gwahanol.

Opsiwn 4: cynlluniau eithrio wedi'u rheoleiddio sy'n seiliedig ar set fechan o Safonau mwy cyffredinol

O dan Opsiwn 4, byddai'r Safonau ym Mil y Gymraeg. Byddai'n rhaid i bob corff baratoi cynllun o eithriadau a ddylai fod yn gymwys iddo. Byddai angen cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i bob cynllun eithriadau.

Opsiw'n 5: nodi hawliau i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg mewn deddfwriaeth sylfaenol

Byddai Opsiw'n 5 yn rhoi hawliau cyfreithiol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg gyda chyrff yng Nghymru. Yn yr achos hwn, oherwydd y cyfyngiadau ar sgiliau Cymraeg y gweithlu, mae Llywodraeth Cymru yn gwybod y byddai'n rhaid iddyn nhw wneud eithriadau i'r hawliau er mwyn i'r system weithio. Byddai'n rhaid teilwra'r eithriadau hyn i bob corff unigol.

- 5.2 Yr opsiwn a ffeirir gan Lywodraeth Cymru yw Opsiw'n 2, sef diwygio'r system bresennol o Safonau. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod Opsiw'n 2 yn cynnig system effeithiol sy'n gorfodi cyrff i wella yn raddol dros amser. Mae Llywodraeth Cymru yn credu hefyd bod yr opsiwn hwn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn barod gan Lywodraeth Cymru, y Comisiynydd a chyrff eraill, gan sicrhau nad ydym yn gwastraffu'r adnoddau yr ydym eisoes wedi eu buddsoddi yn system y Safonau.

6. CONSENSWS AWDURDODAU LLEOL

- 6.1 Yn ystod cyfnod ymgynghori a gynhaliwyd dros yr haf (2017), cyfrannodd Awdurdodau Lleol at 'alwad am dystiolaeth' (Atodiad 2) gan Lywodraeth Cymru, a gasglodd brofiad a barn rhai o'r cyrff sydd eisoes yn gweithredu o dan Safonau'r Gymraeg, cyrff sy'n paratoi i ddod o dan y Safonau, a rhai rhanddeiliaid eraill.
- 6.4 Ar y cyfan, croesawodd rhanddeiliaid yr egwyddor y tu ôl i'r Safonau ond nododd bron pob ymateb sylw ar y broses gwyno, ac roedd barn gref yn gyffredinol ynghylch hyd a chymhlethdod y broses.
- 6.5 Felly, yn gyffredinol, mae swyddogion y cyngor a swyddogion iaith yn croesawu'r adolygiad ar y broses gwyno sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg cyfredol ac maen nhw hefyd yn croesawu'r cynnig i sefydlu corff unigol newydd sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r Gymraeg yn ogystal â sicrhau bod cyrff yn cydymffurfio â Safonau .
- 6.6 Byddai'r corff unigol arfaethedig hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflwyno Cymraeg 2050 a chynorthwyo'r Awdurdodau Lleol â'u dyletswydd statudol i gyfrannu at y strategaeth genedlaethol hon.
- 6.7 Fodd bynnag, mae peth pryder bod diddymu rôl y Comisiynydd yn peryglu colli'r consensws anwleidyddol cyffredinol sy'n ymwneud â'r iaith.

7. GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Ar hyn o bryd, does dim goblygiadau Cydraddoldeb ac Amrywioldeb uniongyrchol oherwydd cyfnod cynnar y broses ddeddfwriaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Asesiad Effaith Cydraddoldeb manwl i fynd gyda'r ymgynghoriad.

8. YMGYNGHORI

Doedd proses ymgynghori ddim yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn.

9. GOBLYGIAD(AU) ARIANNOL

Ar hyn o bryd, does dim goblygiadau ariannol uniongyrchol oherwydd cyfnod cynnar y broses ddeddfwriaethol, ond os mabwysiadir Opsiwn 2 fel y nodwyd uchod, efallai y bydd angen ailedrych ar adnoddau ar gyfer gweithredu'r Safonau. Pa opsiwn bynnag sy'n cael ei fabwysiadu, bydd y Comisiwn arfaethedig newydd yn parhau i fedru codi dirwy (hyd at £5,000 ar hyn o bryd) ar ben gofyn i'r llysoedd weithredu mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio.

10. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL NEU DDEDDFWRIAETH BERTHNASOL

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 sy'n rheoleiddio'r gwaith yma.

11. CYSYLLTIADAU Â CHYNLLUN CORFFORAETHOL / BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL ERAILL Y CYNGOR

Mae'r Gymraeg yn thema drawsdiriadol yn y Cynllun Corfforaethol ac yn effeithio ar yr holl flaenoriaethau corfforaethol gan fod angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig a gafodd ei gyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym Medi 2016.

12. CASGLIAD

12.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn croesawu rhai o'r newidiadau arfaethedig o ran symleiddio'r broses o weithredu'r Safonau. Mae hefyd yn croesawu'r cynnig y dylai fod yn ofynnol i bobl gwyno'n uniongyrchol i'r corff nad yw'n cydymffurfio yn y lle cyntaf cyn mynd â'u cwyn i'r Comisiwn.

12.2 Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn parhau i gefnogi a gweithredu'r Safonau yn eu ffurf ddeddfwriaethol bresennol ac yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth newydd.

12.2 Bydd papurau pellach yn cael eu cyflwyno pan fydd y broses ddeddfwriaethol yn aeddfedu.

Atodiad 1: Hawliau'n Gwreiddio: Adolygiad Sicrwydd 2016-17 Comisiynydd y Gymraeg

Atodiad 2: Paratoi ar gyfer Bil y Gymraeg - Galwad am dystiolaeth: crynodeb o'r ymatebion

Hawliau'n gwreiddio

Adroddiad Sicrwydd 2016-17

Comisiynydd y Gymraeg



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Rights taking root

The Welsh Language Commissioner's
Assurance Report 2016-17



Cyhoeddwyd yn unol ag Adran 4
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Published in accordance with section 4
of the Welsh Language (Wales) Measure 2011

Cynnwys

Rhagair	4
Cefndir	6
Adroddiad cryno	10
Rhan 1: Mae gwasanaethau Cymraeg yn gwella	12
Rhan 2: Er bod pethau'n gwella mae gwaith pellach i'w wneud	52
Rhan 3: Rhaid newid ymddygiad er mwyn hybu a hwyluso'r Gymraeg	80
Atodiad 1: Methodolegau arolygon	112
Atodiad 2: Sefydliadau cyhoeddus a arolygwyd	130

Comisiynydd y Gymraeg

Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygydraeg.cymru
comisiynyddygydraeg.cymru

Cyhoeddwyd Hydref 2017

Contents

Foreword	5
Background	7
Summary report	11
Part 1: Welsh language services are improving	13
Part 2: Despite improvements further work is needed	53
Part 3: Behavioural change is required in order to promote and facilitate the Welsh language	81
Appendix 1: Survey methodologies	113
Appendix 2: Public organisations surveyed	131

Welsh Language Commissioner

Market Chambers
5-7 St Mary St
Cardiff
CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
welshlanguagecommissioner.wales

Published October 2017

Rhagair



Wrth i'r 26 sefydliad cyntaf ddechrau gweithredu safonau'r Gymraeg y llynedd fe grëwyd hawliau newydd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Ers hynny, mae safonau wedi eu cyflwyno i ragor o sefydliadau, ac mae'r broses o'u cyflwyno a'u gosod yn parhau. Ond beth yw ystyr yr hawliau hyn ac effaith y safonau ar fywydau a phrofiadau pobl?

Yn ystod 2016-17, bûm yn casglu gwybodaeth a rhoi'r dinesydd yn ganolog i'm gwaith wrth asesu'r sefyllfa. Gwnaed hyn drwy sefyll yn esgidiau'r defnyddiwr wrth gynnal arolygon siopwr cudd, wrth dderbyn a delio â chwynion, a thrwy gynnal grwpiau trafod mewn cymunedau ledled Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn casglu bod arwyddion cynnar bod profiadau pobl yn gwella, a bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig yn rhagweithiol yn gynyddol. Daeth yn amlwg hefyd fod sefydliadau'n mynd ati i gyflwyno newidiadau i'w galluogi i weithredu gofynion y safonau'n well.

Serch hynny, nid yw pawb yn gallu defnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau pan ddymunant wneud hynny, ac nid yw sefydliadau bob amser yn glynu wrth yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Er mwyn ysgogi gwelliant a sicrhau'r hawliau, mae'r adroddiad hwn yn dangos ble mae angen canolbwyntio fwyaf o ran cynyddu'r ddarpariaeth. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd hyrwyddo gwasanaethau'n rhagweithiol er mwyn cynnal a chreu defnydd.

Eleni gwelwyd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ei strategaeth uchelgeisiol o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.¹ Mae'r gwaith o sicrhau hawliau i wasanaethau cyhoeddus yn Gymraeg yn allweddol i sicrhau y gellir defnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd.

Er bod cryn ffordd i fynd eto, mae'r dystiolaeth yn dangos bod y gyfundrefn safonau'n golygu ein bod yn camu i'r cyfeiriad cywir. Mae'r her ar gyfer y cyfnod nesaf yn glir, sef adeiladu ar y sylfeini a osodwyd eleni ac arloesi er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu cynnig a bod pobl yn hyderus i'w defnyddio.

Rwy'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio â sefydliadau a gwrando ar y cyhoedd wrth sicrhau y caiff yr her hon ei hateb.

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg

¹ Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2017.

Foreword



When the first 26 organisations started implementing Welsh language standards last year, new rights were created for people to use the Welsh language. Since then, standards have been introduced to more organisations, and the process for their introduction and imposition continues. But what do these rights mean, and what impact are standards having on people's lives and experiences?

During 2016-17 I have been gathering information and have placed the citizen at the heart of my work when assessing the situation. I did this by putting myself in the shoes of the service user during mystery shopper surveys, by receiving and dealing with complaints, and by conducting discussion groups in communities throughout Wales.

This report shows early indications that people's experiences are improving and that Welsh language services are being actively offered on an increasing scale. It also became apparent that organisations are introducing changes to enable them to better implement the requirements of the standards.

However, not everyone is able to use the Welsh language with organisations when they wish to do so, and organisations do not always adhere to the principle of treating the Welsh language no less favourably than the English language. In order to encourage improvement and ensure rights, this report highlights where the focus needs to be in terms of increasing provision. It also underlines the importance of actively promoting services in order to maintain and increase the use of the language.

This year the Welsh Government published its ambitious strategy to create a million Welsh speakers by 2050.¹ The work of ensuring people's rights to public services in Welsh is vital in ensuring that the language can be used in all aspects of life.

Although there is a considerable way to go yet, the evidence shows that the introduction of Welsh language standards means that we are going in the right direction. The challenge for the next period is clear, that is to build on the foundations established this year, and to be innovative in order to ensure that services are offered and that people are confident to use them.

I look forward to continued cooperation with organisations and to listening to the public in ensuring that this challenge is met.

Meri Huws
Welsh Language Commissioner

¹ Cymraeg 2050 - A million Welsh speakers, Welsh Government, July 2017.

Cefndir

- 1 Ers blwyddyn a mwy, mae sefydliadau wedi bod yn gweithredu safonau'r Gymraeg, sy'n darparu hawliau i ddinasyddion sy'n defnyddio'r iaith. Mae'r adroddiad hwn yn gofyn a yw profiad siaradwyr Cymraeg o wasanaethau cyhoeddus yn gwella. Mae'n ystyried a yw dyfodiad y gyfundrefn newydd wedi cymell gwelliannau sefydliadol ac, yn sgil hynny, a oes tystiolaeth fod siaradwyr Cymraeg yn cael eu galluogi a'u hannog i ddefnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau.
- 2 Mae un o bob pum person yng Nghymru yn siarad Cymraeg - dros hanner miliwn o'i dinasyddion. Mae niferoedd sylweddol o bobl sy'n siarad Cymraeg yn byw ym mhob cwr o Gymru. Dangosodd Cyfrifiad 2011 fod dros 36,000 yn siarad yr iaith yng Nghaerdydd a dros 27,000 yn y Rhondda - ardaloedd dinesig a phoblog y de ddwyrain. Ceir hefyd dros 24,000 o siaradwyr Cymraeg ym Mhowys, a 34,000 yng Ngheredigion - ardaloedd gwledig y gorllewin a'r canolbarth.²
- 3 Mae deddfwriaeth iaith sy'n cymell sefydliadau cyhoeddus i gynllunio i ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn bodoli ers bron i chwarter canrif. Roedd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau cyhoeddus lunio cynlluniau iaith Gymraeg.³ Cyflwynwyd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 [Mesur y Gymraeg] i ddisodli'r drefn honno dros amser. Gosodwyd cyfeiriad strategol clir gan Lywodraeth Cymru yn y Mesur: rhoddwyd statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru am y tro cyntaf, a chyflwynwyd cyfundrefn safonau'r Gymraeg, sy'n rhoi hawliau i ddinasyddion o ran derbyn gwasanaethau Cymraeg.
- 4 Mae Mesur y Gymraeg yn galluogi Llywodraeth Cymru i lunio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg i'w cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyfrifoldeb Comisiynydd y Gymraeg [y Comisiynydd] wedi hynny yw gweinyddu'r broses o gydlynio a gosod y dyletswyddau hynny ar sefydliadau trwy roi hysbysiad cydymffurfio iddynt. Hyd yn hyn, mae'r Comisiynydd wedi rhoi hysbysiad cydymffurfio i 107 sefydliad cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i bobl yng Nghymru.⁴

² Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol.

³ Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

⁴ Cyhoeddir hysbysiadau cydymffurfio ar wefan y Comisiynydd.

Background

- 1 For the past year and more, organisations have been implementing Welsh language standards, providing rights for Welsh language users. This report asks whether Welsh speakers' experience of public services is improving. It considers whether the advent of a new regime has prompted organisational improvement, and in light of that, whether there is evidence that Welsh speakers are enabled and encouraged to use the Welsh language with organisations.
- 2 One in every five person in Wales speaks the Welsh language - over half a million of its citizens. There are significant numbers of Welsh speakers living in all areas of Wales. The 2011 Census revealed that over 36,000 people speak Welsh in Cardiff, and over 27,000 in the Rhondda - the populated urban areas of the south east. Over 24,000 Welsh speakers live in Powys, and 34,000 in Ceredigion - the rural areas of mid and west Wales.²
- 3 Language legislation requiring public organisations to plan their Welsh language service provision has been in existence for almost a quarter of a century. The Welsh Language Act 1993 requires public organisations to produce Welsh language schemes.³ The Welsh Language (Wales) Measure 2011 [the Welsh Language Measure] was introduced to replace that system over time. The Welsh Government established a clear strategic direction in the Measure: official status was given to the Welsh language in Wales for the first time, and Welsh language standards were introduced, giving rights to citizens in relation to Welsh language services.
- 4 The Welsh Language Measure enables the Welsh Government to prepare Welsh Language Standards Regulations to be approved by the National Assembly for Wales. Thereafter, the Welsh Language Commissioner [the Commissioner] is responsible for administering the process of agreeing and imposing those duties on organisations by giving them a compliance notice. To date, the Commissioner has given compliance notices to 107 public organisations that provide services to people in Wales.⁴

² The Census 2011, Office for National Statistics.

³ Welsh Language Act 1993.

⁴ Compliance notices are published on the Commissioner's website.

Cefndir

- 5 Mae Mesur y Gymraeg yn nodi bod rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i ddwy egwyddor wrth sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn Gymraeg:
 - ni ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru; a
 - dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.⁵
- 6 Mae Fframwaith Rheoleiddio'r Comisiynydd yn egluro sut y bydd yn gweithredu mewn modd rhagataliol er mwyn cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.⁶ Defnyddir dulliau amrywiol i gasglu gwybodaeth er mwyn cael gwell dealltwriaeth o pam fod pethau fel y maent, ac er mwyn sicrhau bod sefydliadau yn rhoi sylw i welliannau fydd yn gwneud y mwyaf o wahaniaeth i bobl.
- 7 Yn ystod 2016-17 cynhaliwyd cyfres o arolygon gan y Comisiynydd er mwyn gweld beth oedd profiad pobl o ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Rhoddodd y Comisiynydd ei hun yn esgidiau defnyddwyr drwy gynnal arolygon siopwr cudd i brofi'r gwasanaeth a dderbyniwyd. Ymwelwyd â derbynfeydd a gwnaed galwadau ffôn, ymwelwyd â gwefannau ac anfonwyd gohebiaeth drwy lythyr, e-bost a neges ar rwydweithiau cymdeithasol. Cynhaliwyd cyfres o grwpiau trafod mewn lleoliadau ledled Cymru er mwyn cael gwybod yn uniongyrchol gan bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg beth yw eu profiadau. Er mai cipolwg o'r sefyllfa a geir yng nghanfyddiadau'r arolygon hyn, maent yn adrodd am brofiadau go iawn. Yn ogystal, cynhaliwyd astudiaethau thematig oedd yn canolbwyntio ar strategaethau hybu'r Gymraeg, ac ar godi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg - cynhaliwyd ymchwil pen desg a chyfweiliadau ffôn â swyddogion sefydliadau er mwyn asesu i ba raddau y maent yn llwyddo.⁷ Pan fo modd gwneud, mae'r adroddiad hwn yn cymharu canlyniadau 2016-17 â chanlyniadau arolygon 2015-16.
- 8 Mae pob sefydliad cyhoeddus arolygwyd gan y Comisiynydd yn darparu gwasanaethau i bobl yng Nghymru. Maent unai'n gweithredu safonau'r Gymraeg neu gynllun iaith Gymraeg. Dylid cadw mewn cof nad oedd yn ofynnol i bob sefydliad fod yn gweithredu gofynion y safonau perthnasol yn ystod y cyfnod arolygu: efallai fod rhai ohonynt wedi herio gosod safon oedd yn berthnasol i arolwg penodol, neu efallai nad oedd diwrnod gosod y safon wedi pasio.⁸

⁵ Fframwaith Rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg, 2017.

⁶ Rhan 2 (3) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

⁷ Ceir rhagor o fanylion am y methodolegau a ddefnyddiwyd a rhestr o'r sefydliadau fu'n destun i'r arolygon yn Atodiadau 1 a 2.

⁸ Ceir rhagor o fanylion am y methodolegau a ddefnyddiwyd a rhestr o'r sefydliadau fu'n destun i'r arolygon yn Atodiadau 1 a 2.

Background

- 5 The Welsh Language Measure states that the Commissioner must give regard to two principles in ensuring that services are provided in Welsh:
 - the Welsh language should be treated no less favourably than the English language in Wales; and
 - persons in Wales should be able to live their lives through the medium of the Welsh language if they choose to do so.⁵
- 6 The Commissioner's Regulatory Framework explains how the Commissioner will act proactively to increase opportunities for people to use the Welsh language in their everyday lives.⁶ Several methods are used to gather information in order to gain a better understanding of why things are as they are and to ensure that organisations give regard to improvements that will make the most difference to people.
- 7 During 2016-17, a series of surveys were conducted by the Commissioner in order to gain an insight into people's experience in using Welsh when accessing public services. The Commissioner placed herself in the shoes of service users by conducting mystery shopper surveys to test the service provided - visits were undertaken to reception areas and telephone calls made; websites were visited and correspondence was sent via letter, e-mail and social media. A series of discussion groups were held in locations across Wales in order to gather information directly from Welsh speakers regarding their experiences. Although the results of these surveys only provide a snapshot of the situation, they provide an account of real life experiences. In addition, a number of thematic studies were undertaken, focussing on Welsh language promotional strategies and on raising awareness of Welsh language services - desktop research and phone interviews were conducted with officers from organisations in order to assess the extent of their success.⁷ When it is possible to do so, this report compares the 2016-17 results with the results of the 2015-16 surveys.
- 8 Every public organisation surveyed by the Commissioner provides services to people in Wales. They either implement Welsh language standards or a Welsh language scheme. It should be noted that not every organisation was required to implement the requirements of the relevant standards during the survey period: it could be that some of them had challenged the imposition of a standard relevant to a particular survey, or the imposition day of the standard may not have passed.⁸

⁵ The Welsh Language Commissioner's Regulatory Framework, 2016.

⁶ Section 2 (3) Welsh Language (Wales) Measure 2011.

⁷ Further details on methodologies used and a list of the organisations that were included in the surveys are available in Appendices 1 and 2.

⁸ Further details on methodologies used and a list of the organisations that were included in the surveys are available in Appendices 1 and 2.

Adroddiad cryno

Prif ganfyddiadau'r adroddiad hwn:

Mae gwasanaethau Cymraeg yn gwella

Mae gan siaradwyr Cymraeg hyder fod pethau'n gwella ac mae mwy ohonynt yn ymwybodol bod ganddynt hawliau i ddefnyddio'r iaith

Mae cynnydd yn y cyfleoedd sydd ar gael i dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg

Caiff gwasanaethau Cymraeg eu cynnig yn rhagweithiol yn gynyddol

Mae sefydliadau'n cyflwyno gweithdrefnau newydd i'w galluogi i weithredu gofynion safonau'r Gymraeg

Er bod pethau'n gwella mae gwaith pellach i'w wneud

Er bod cynnydd i'w weld o ran darpariaeth rhai gwasanaethau Cymraeg, mae rhagor eto i'w wneud i sicrhau eu bod ar gael fel y dylent

Mae angen gwella ansawdd gwasanaethau Cymraeg

Mae angen i sefydliadau wella eu trefniadau hunan reoleiddio, a gweithredu ar eu canfyddiadau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg

Rhaid newid ymddygiad er mwyn hybu a hwyluso'r Gymraeg

Cyn gallu hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg mae angen i sefydliadau wella'u dealltwriaeth o'r rhesymau pam y mae cyfran sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn dewis peidio â defnyddio'r iaith wrth ymwneud â hwy

Er mwyn creu cwsmeriaid ar gyfer gwasanaethau Cymraeg rhaid i sefydliadau wneud mwy na hysbysu pobl eu bod ar gael - rhaid iddynt eu marchnata'n ddeallus ac argyhoeddi pobl eu bod am lwyddo i ddiwallu eu hanghenion

Mae'n allweddol fod strategaethau hybu'n cael eu paratoi a'u gweithredu er mwyn sicrhau y caiff nifer y siaradwyr Cymraeg ei gynnal neu ei gynyddu

Summary

This report's main findings:

Welsh language services are improving

Welsh speakers have confidence that the situation is improving and more of them are aware that they have rights to use the language

There has been an increase in the opportunities available to receive services through the medium of Welsh

Increasingly, Welsh language services are actively offered

Organisations are introducing new procedures to enable them to implement the Welsh language standards requirements

Despite improvements further work is needed

Although there has been progress in terms of the level of provision of some Welsh language services, there is still more to do to ensure that they are as accessible as they should be

The quality of Welsh language services needs to improve

Organisations need to improve their self-regulatory arrangements and act on their findings, in order to ensure that they are complying with the Welsh language standards.

Behavioural change is required in order to promote and facilitate the Welsh language

Before being able to promote the use of the Welsh language, organisations must improve their understanding of the reasons why a significant proportion of Welsh speakers choose not to use the language in their dealings with them

In order to create customers for Welsh language services, organisations must do more than simply telling people they exist - they must market them intelligently and persuade people that their needs will be met

It is vital that effective promotion strategies are prepared and implemented in order to ensure that the number of Welsh speakers is maintained or increased

Rhan 1: Mae gwasanaethau Cymraeg yn gwella

Barn y Comisiynydd

Mae'r ffaith bod pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn datgan bod eu profiadau o wasanaethau cyhoeddus yn gwella a bod ganddynt hyder cynyddol yn y gyfundrefn safonau newydd yn arwydd bod hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg yn dechrau gwreiddio.

Mae amlygrwydd cynyddol y cynnig rhagweithiol yn debyg o gynyddu ymwybyddiaeth siaradwyr Cymraeg o'r cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd.

Gan fy mod wedi hwyluso gweithdai a darparu cyngor i sefydliadau am gynllunio gweithlu dwyieithog yn ystod 2016-17, mae'n gadarnhaol gweld ystadegau sy'n awgrymu bod y sefydliadau cyntaf i ddod o dan y ddyletswydd i asesu sgiliau ieithyddol swyddi yn adnabod niferoedd cynyddol o swyddi lle mae gwerth ar y Gymraeg fel sgil hanfodol.

Part 1: Welsh language services are improving

The Commissioner's opinion

The fact that people who use the Welsh language state that their experiences of public services are improving and that they have increasing confidence in the new standards regime, is an indication that people's rights to use the Welsh language are starting to take root.


The increasing prominence of the active offer is likely to increase Welsh speakers' awareness of the opportunities available to use the language in their everyday lives.

As I facilitated workshops and provided advice to organisations on bilingual workforce planning during 2016-17, it is encouraging to see statistics that suggest that the first organisations to have a duty to assess the language skills of posts are identifying an increasing number of jobs where value is placed on the Welsh language as an essential skill.

Mae gan siaradwyr Cymraeg hyder fod pethau'n gwella ac mae mwy ohonynt yn ymwybodol bod ganddynt hawliau i ddefnyddio'r iaith

Dwi wedi gweld newid mawr ers y safonau... Maen nhw [y cynghorau] yn sylwi bod rhaid iddyn nhw wneud mwy. Mae 'na newid agwedd a newid o ran cyfrifoldeb - mae pobl ar lefel uwch yn cymryd diddordeb.

Dwi'n meddwl bod pethau'n gwella, yn ara deg. Mae 'na symudiad.



Ffynhonnell: Grwpiau trafod Comisiynydd y Gymraeg 2016


- 1.1 Yn ystod 2016-17 mae pobl ledled Cymru wedi adrodd i'r Comisiynydd am brofiadau cadarnhaol o ddefnyddio'r Gymraeg wrth geisio gwasanaethau cyhoeddus. Yn ystod sgysiau gyda phobl a fynychodd grwpiau trafod y Comisiynydd, dysgwyd bod nifer o'r farn fod y sefyllfa gyffredinol o ran darparu gwasanaethau Cymraeg yn gwella, a bod agweddau'r sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau'n newid er gwell.
- 1.2 Roedd 57% o'r siaradwyr Cymraeg oedd yn rhan o Arolwg Omnibws Siaradwyr Cymraeg Beaufort Research [yr Arolwg Omnibws] yn credu bod cynnydd yn y cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus. 41% ohonynt oedd o'r farn fod rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda busnesau, a 24% gydag elusennau.⁹

⁹ Ceir rhagor o fanylion am yr arolwg yn Atodiad 1.

Welsh speakers have confidence that the situation is improving and more of them are aware that they have rights to use the language

I've seen a huge change since the standards... They [councils] realise that they must do more. There has been a change in attitude and a change in terms of responsibility - people on a higher level are taking an interest.

I think things are improving gradually. There is movement.



Source: The Welsh Language Commissioner's discussion groups 2016

- 1.1 During 2016-17 people across Wales have reported positive experiences to the Commissioner about their use of the Welsh language when using public services. In conversations with people who attended the discussion groups, it was found that a number were of the opinion that the general situation regarding the provision of Welsh language services is improving and that the attitudes of the organisations providing these services are changing for the better.
- 1.2 57% of the Welsh speakers surveyed as part of the Beaufort Research Welsh Speakers Omnibus Survey [the Omnibus Survey] believed that opportunities to use the Welsh language with public organisations were increasing. 41% of them were of the opinion that there were more opportunities to use the Welsh language with businesses and 24% with charities.⁹

⁹ Further information about the survey is available in Appendix 1.

-
- 1.3 Yn ôl yr un arolwg, roedd 91% o siaradwyr Cymraeg yn credu eu bod yn gallu delio â sefydliadau cyhoeddus yn Gymraeg os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Mae'r ganran hon 8% yn uwch na'r un arolwg flwyddyn ynghynt.¹⁰
- 1.4 Cadarnhaodd 98% o'r siaradwyr Cymraeg oedd yn rhan o'r Arolwg Omnibws eu bod yn ymwybodol bod ganddynt hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd cefnogaeth lethol i fodolaeth yr hawliau, gyda 97% yn cytuno ei bod yn bwysig cael hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus.¹¹
- 1.5 Mynegwyd barn bendant hefyd am yr hawl i gwyno am wasanaethau Cymraeg anfoddhaol, gyda 97% yn cytuno ei bod yn bwysig bod pobl yn gallu cwyno.

¹⁰ Dim ond i bobl oedd yn nodi eu bod yn dymuno delio â chyrrff cyhoeddus yn Gymraeg y gofynnwyd y cwestiwn.

¹¹ Ceir rhagor o fanylion am yr arolwg yn Atodiad 1.


-
- 1.3 According to the same survey, 91% of Welsh speakers believed that they were able to deal with public organisations in Welsh if they wished to do so. The percentage is 8% higher than in the previous year's survey.¹⁰
- 1.4 98% of the Welsh speakers surveyed in the Omnibus Survey confirmed that they were aware that they have rights to use the Welsh language. There was overwhelming support to the existence of rights, with 97% agreeing that it was important to have rights to use the Welsh language with public organisations.¹¹
- 1.5 A firm opinion was also expressed regarding the right to complain about unsatisfactory Welsh language services, with 97% agreeing that it is important that people are able to complain.

¹⁰ The question was asked only of those who noted that they wished to deal with public organisations in Welsh.

¹¹ Further information about the survey is available in Appendix 1.

Mae cynnydd yn y cyfleoedd sydd ar gael i dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg

2.1 Wrth drafod eu profiadau o geisio defnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â sefydliadau cyhoeddus yn 2016-17, roedd nifer o siaradwyr Cymraeg yn cadarnhau eu bod wedi llwyddo i dderbyn y gwasanaeth yr oeddent yn ei geisio. Dywedodd pobl yn ystod grwpiau trafod y Comisiynydd eu bod wedi derbyn gwasanaeth Cymraeg mewn sefyllfaoedd ac ardaloedd lle nad oedd hynny'n bosib yn y gorffennol.



Ffynhonnell: Grwpiau trafod Comisiynydd y Gymraeg 2016

There has been an increase in the opportunities available to receive services through the medium of Welsh


2.1 When discussing their experiences of trying to use the Welsh language when dealing with public organisations during 2016-17, many Welsh speakers confirmed that they had successfully received the service sought. People taking part in the Commissioner's discussion groups said that they had received Welsh language services in situations and areas where it had not been possible to do so in the past.



Source: The Welsh Language Commissioner's discussion groups 2016

- 2.2 Adroddodd 76% o'r siaradwyr Cymraeg oedd yn rhan o'r Arolwg Omnibws eu bod yn credu bod gwasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus yn gwella. Dim ond 10% oedd yn anghytuno a 13% ddim yn gwybod.¹²
- 2.3 Yn ei strategaeth ar gyfer cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae Llywodraeth Cymru yn datgan ei bod am weld cynnydd yn yr ystod o wasanaethau a gynigir yn y Gymraeg a'r defnydd a wneir o'r gwasanaethau hynny. Nodir y caiff rhai sefydliadau eu rheoleiddio drwy safonau'r Gymraeg er mwyn cynyddu'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn Gymraeg
- 2.4 Mae canfyddiadau arolygon profi gwasanaethau'r Comisiynydd yn ystod 2016-17 hefyd yn cadarnhau bod gwasanaethau i bobl sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg ar gael fwyfwy, a gwelwyd cynnydd yn y cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith wrth ymwneud â sefydliadau cyhoeddus sy'n gweithredu safonau'r Gymraeg.
- 2.5 Gwelwyd bod y ganran o alwadau ffôn i gynghorau sir, lle llwyddwyd i ateb yr alwad yn Gymraeg a chynnal sgwrs er mwyn deall natur yr ymholiad, 20% yn uwch nac yn ystod 2015-16.¹⁴

Defnyddio gwasanaethau ffôn: derbynnydd yn gallu cynnal y sgwrs yn Gymraeg a deall natur yr ymholiad




Canran y galwadau i gynghorau sir a atebwyd gan berson oedd yn gallu cynnal sgwrs yn Gymraeg a deall natur yr ymholiad

¹² Ceir rhagor o fanylion am yr arolwg yn Atodiad 1.
¹³ Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Llywodraeth Cymru, 2017 (t.52).
¹⁴ Yn cynnwys y galwadau lle trosglwyddwyd yr alwad ymlaen i'r derbynnydd o'r gwasanaeth awtomatig cychwynnol oedd yn galluogi dewis iaith.

- 2.2 76% of Welsh speakers surveyed in the Omnibus Survey believe that public organisations' Welsh language services are improving. Only 10% disagreed, and 13% didn't know.¹²
- 2.3 In its strategy to reach a million Welsh speakers by 2050, the Welsh Government states that it wants to see an increase in the range of services offered to Welsh speakers and an increase in the use of Welsh language services. It is noted that some organisations are subject to regulatory oversight through the Welsh Language Standards to increase provision of their Welsh language services¹³
- 2.4 The findings of the Commissioner's service experience surveys during 2016-17 have also confirmed an increase in the availability of services for people who choose to use the Welsh language, together with an increase in opportunities to use the language when dealing with public organisations that are implementing the Welsh language standards.
- 2.5 It was shown that the percentage of phone calls to county councils where the call was answered in Welsh and the nature of the enquiry was understood during the conversation, was 20% higher than in 2015-16.¹⁴

Using telephone services: operator able to conduct the conversation in Welsh and understand the nature of the enquiry




The percentage of calls to county councils answered by a person able to conduct the conversation in Welsh and understand the nature of the enquiry

¹² Further information about the survey is available in Appendix 1
¹³ Cymraeg 2050: A million Welsh speakers, Welsh Government, 2017, (p.52).
¹⁴ Data include the calls that were transferred to an operator from an initial automated service that offered a language choice.


2.6 Roedd canran derbynfeydd cynghorau sir oedd yn gallu darparu ymateb i ymholiad Cymraeg yn 2016-17 21% yn uwch nag yn ystod 2015-16.

Defnyddio gwasanaethau derbynfa: darparu ymateb i ymholiad yn Gymraeg



Canran y derbynfeydd cynghorau sir oedd yn gallu darparu ymateb i ymholiad yn Gymraeg


2.7 Yn ystod ymweliadau â derbynfeydd holl gynghorau sir Cymru, pob awdurdod parc cenedlaethol a Llywodraeth Cymru, canfu'r Comisiynydd fod aelod o staff ar gael i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg yn 67% ohonynt.¹⁵



¹⁵ Ymwelwyd â'r derbynfeydd yn ystod arolwg codi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg, gan laith Cyf. ar ran Comisiynydd y Gymraeg, 2017.


2.6 The percentage of county council receptions able to provide a response to a Welsh language enquiry in 2016-17 was 21% higher than in 2015-16.

Using reception services: providing a response to an enquiry in Welsh



The percentage of county council receptions able to provide a response to an enquiry in Welsh


2.7 During visits to the receptions of all county councils and national park authorities and the Welsh Government, the Commissioner found that a member of staff was available to provide a service through the medium of Welsh in 67% of them.¹⁵



¹⁵ Receptions were visited during the Raising awareness of Welsh language services survey by laith Cyf. on behalf of the Welsh Language Commissioner.

2.8 Llwyddwyd i dderbyn ymateb cyflawn i 74% o'r ymholiadau ffôn Cymraeg a gyflwynwyd i'r holl sefydliadau cyhoeddus yn yr arolwg ffôn, sef 160 o'r 216 galwad. Atebwyd yr ymholiad unai gan y derbynnydd a atebodd yr alwad neu gan swyddog arall yn sgil derbyn cynnig i drosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg.

Defnyddio gwasanaethau ffôn: derbyn ymateb Cymraeg i ymholiad Cymraeg




- Atebwyd yr ymholiad yn gyflawn yn Gymraeg
- Atebwyd yr alwad yn Gymraeg ond ni fu modd derbyn ymateb cyflawn
- Dim gwasanaeth Cymraeg ar gael o gwbl
- Trosglwyddwyd yr ymholiad i beiriant ateb

2.9 Mae dyletswydd ar ddeg sefydliad cyhoeddus sy'n gweithredu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 i ddelio â galwadau ffôn yn Gymraeg yn eu cyfanrwydd os yw'r galwr yn dewis hynny. Llwyddodd y deg i wneud hynny yn achos 93% o'r holl alwadau atebwyd ganddynt yn ystod arolwg ffôn y Comisiynydd.¹⁶

¹⁶ Wyth cyngor sir, un awdurdod parc cenedlaethol a Gweinidogion Cymru sy'n gweithredu safon 10, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Ceir rhagor o fanylion am yr arolwg yn Atodiad 1.

2.8 A full response was received in 74% of the Welsh language telephone enquiries presented to all the public organisations in the telephone survey, 160 of the 216 calls. The enquiry was answered either by the operator answering the call or another officer after accepting an offer to transfer the call to a Welsh speaker.

Using telephone services: receiving a Welsh language response to a Welsh language enquiry




- The enquiry was answered fully in Welsh
- The call was answered in Welsh but it was not possible to receive a full response
- No Welsh service available at all
- The enquiry was transferred to an answering machine

2.9 Ten public organisations implementing the Welsh Language Standards (No.1) Regulations 2015 are required to deal with telephone calls in Welsh in their entirety if the caller so wishes. All ten organisations managed to do so for 93% of the calls answered during the Commissioner's telephone survey.¹⁶

¹⁶ Eight county councils, one national park authority and Welsh Ministers implement standard 10, Welsh Language Standards (No.1) Regulations 2015. Further information about the survey is available in Appendix 1.

2.10 Er nad yw'n ofynnol i'r holl sefydliadau cyhoeddus sy'n gweithredu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ddarparu ymateb cyflawn yn Gymraeg i ymholiad ffôn, dylid nodi bod y ganran o'r galwadau ffôn lle llwyddwyd i wneud hynny 32% yn uwch nag yn 2015-16.¹⁷

Defnyddio gwasanaethau ffôn: derbyn ymateb Cymraeg i ymholiad Cymraeg




Canran yr ymholiadau ffôn atebwyd yn gyflawn yn Gymraeg gan gynghorau sir, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru

2.11 Mae canfyddiadau arolwg gwefannau'r Comisiynydd yn 2016-17 hefyd yn rhoi sicrwydd bod sefydliadau, wrth gynllunio eu darpariaeth ar-lein, yn rhoi ystyriaeth gynyddol i anghenion pobl sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg. Roedd 93% o dudalennau gwefannau'r sefydliadau cyhoeddus a arolygwyd ar gael yn Gymraeg, sef 3,042 o'r 3,285 tudalen. Roedd 53% o'r 104 sefydliad yn llwyddo i ddarparu pob un o'u tudalennau gwefan, o'r detholiad yr ymwelwyd â hwy, yn Gymraeg.¹⁸

¹⁷ Galwadau a atebwyd gan sefydliadau sy'n gweithredu safon 11a, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Ceir rhagor o fanylion am yr arolwg yn Atodiad 1.
¹⁸ Ceir rhagor o fanylion am yr arolwg yn Atodiad 1.

2.10 Although not all public organisations implementing the Welsh Language Standards (No.1) Regulations 2015 are required to respond fully in Welsh to telephone enquiries, it should be noted that the percentage of calls where this was achieved was 32% higher than in 2015-16.¹⁷

Using telephone services: receiving a response in Welsh to a Welsh language enquiry




The percentage of telephone enquiries answered fully in Welsh by county councils, national park authorities and Welsh Ministers

2.11 The findings of the Commissioner's websites survey in 2016-17 also gives assurance that organisations, when planning their online provision, are giving increasing consideration to the needs of people who choose to use the Welsh language. 93% of the pages surveyed on the websites of public organisations were available in Welsh - 3,042 of the 3,285 pages. 53% of the 104 organisations successfully provided 100% of the web pages surveyed in Welsh.¹⁸


¹⁶ Calls answered by organisations implementing standard 11a of the Welsh Language Standards (No.1) Regulations 2015. Further information about the survey is available in Appendix 1.
¹⁷ Further information about the survey is available in Appendix 1.

Defnyddio gwasanaethau gwefannau: argaeledd tudalennau Cymraeg



2.12 Yn arolwg gwefannau 2015-16, saith o'r 22 cyngor sir oedd yn darparu pob un o'r tudalennau gwefan yr ymwelwyd â hwy yn Gymraeg. Yn 2016-17, roedd 10 o'r cynghorau sir yn darparu pob un o'r tudalennau yn Gymraeg, canran sydd 13% yn uwch. Un cyngor sir oedd â llai na 50% o'r tudalennau ar gael yn Gymraeg.¹⁹


Defnyddio gwasanaethau gwefannau: argaeledd tudalennau Cymraeg gwefannau cynghorau sir



Canran y cynghorau sir yn darparu pob un o'r tudalennau gwefan yr ymwelwyd â hwy yn Gymraeg


¹⁹ Ceir rhagor o fanylion am yr arolwg yn Atodiad 1.

Using website services: the availability of Welsh language web pages



2.12 In the 2015-16 websites survey, seven of the 22 county councils provided each web page visited in Welsh. In 2016-17, 10 of the county councils provided each web page visited in Welsh, a percentage increase of 13%. One county council had less than 50% of its web pages available in Welsh.¹⁹

Using website services: availability of Welsh pages on county council websites



The percentage of county councils providing all web pages visited in Welsh

¹⁹ Further information about the survey is available in Appendix 1.

Caiff gwasanaethau Cymraeg eu cynnig yn rhagweithiol yn gynyddol

Mae'r dewis rhagweithiol yn bwysig, yn enwedig gyda cynghorau sir ... Mae angen i'r cyhoedd wybod pa wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg fel bo nhw'n gallu manteisio arnyn nhw, yn lle bo ni'n gorfod mynd i'r drafferth o ofyn amdany'n nhw.



Ffynhonnell: Grwpiau trafod Comisiynydd y Gymraeg 2016

- 3.1 Yn syml, ystyr cynnig gwasanaeth yn rhagweithiol yw darparu'r gwasanaeth heb i rywun orfod gofyn amdano. Yng nghyswllt gwasanaeth Cymraeg, mae hynny'n golygu cynnig i rywun ddefnyddio'r Gymraeg, neu ddarparu'r gwasanaeth yn Gymraeg yn ddiofyn.
- 3.2 Ar yr wyneb, mae arddangos yn glir fod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg yn ymddangos yn syml. Er enghraifft gellir cynnig dewis ar dudalen sblass gwefan, arddangos arwydd gweledol fel bathodyn neu boster, neu ofyn i dderbynnydd gyfarch yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Ond, er mwyn i sefydliad fod yn llwyddiannus wrth weithredu'r cynnig rhagweithiol, mae angen newid creiddiol i ddiwylliant y sefydliad. Rhaid i'r newid sicrhau bod gweithlu'r sefydliad yn cynnig gwasanaeth Cymraeg yn gyson a digymell, a'i fod yn peidio â chymryd yn ganiataol fod pobl sy'n siarad Cymraeg yn gallu mynegi eu hunain yn hyderus yn Saesneg neu eu bod yn fodlon derbyn eu gwasanaeth yn Saesneg.
- 3.3 Cytunodd 77% o'r bobl a oedd yn rhan o'r Arolwg Omnibws fod sefydliadau yn gofyn iddynt ym mha iaith yr oeddent yn dymuno delio â hwy ac yn cynnig gwasanaethau Cymraeg iddynt yn rhagweithiol, canran 3% yn uwch nag yn arolwg 2016.²⁰
- 3.4 Gwnaed sylwadau hefyd yn ystod y sgysiau yng ngrwpiau trafod y Comisiynydd ynghylch pwysigrwydd derbyn cynnig rhagweithiol i ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd nifer yn cytuno ei fod yn rhoi hyder iddynt ddefnyddio'r iaith wrth ymwneud â sefydliadau cyhoeddus.

²⁰ Ceir rhagor o fanylion am yr arolwg yn Atodiad 1 (t.53).

Increasingly, Welsh language services are actively offered

The active offer is important, especially with county councils... The public need to know which services are available in Welsh so that they can benefit from them instead of having to go to the trouble of asking for them.



Source: The Welsh Language Commissioner's discussion groups 2016

- 3.1 Simply put, actively offering a service means that the service is provided without someone having to ask for it. In relation to Welsh language services, this means offering someone the opportunity to use the Welsh language, or providing the service in Welsh as a default.
- 3.2 On the face of it, clearly displaying the availability of Welsh language services appears straightforward. For example, a website splash page can offer a choice, a visual sign such as a badge or poster can be displayed, or a receptionist can greet people in Welsh or bilingually. However, successfully implementing the active offer requires that a fundamental change to organisational culture must be ensured. The change must ensure that the workforce offers a Welsh language service consistently and proactively, and that it does not take it for granted that people who speak Welsh can express themselves confidently through the medium of English or that they are happy to receive their service in English.
- 3.3 77% of those surveyed in the Omnibus Survey agreed that organisations asked in which language they wished to deal with them and actively offered Welsh language services to them - 3% higher than in the a 3% percentage increase compared to the 2016 survey.²⁰
- 3.4 Comments were also made during conversations in the Commissioner's discussion groups regarding the importance of receiving an active offer to use the Welsh language. A number agreed that it gave them the confidence to use the language in their dealings with public bodies.

²⁰ Further information about the survey is available in Appendix 1 (t.53).

Mae clywed Cymraeg yn gyntaf yn rhoi hyder i fi siarad Cymraeg o'r dechrau.

Mae yn help i weld y bathodyn laith Gwaith... Dwi'n teimlo 'Gwych, dwi am allu siarad Cymraeg' yn lle 'Co ni'n mynd 'to'.



Ffynhonnell: Grwpiau trafod Comisiynydd y Gymraeg 2016

- 3.5 Yn ei strategaeth ar gyfer cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae Llywodraeth Cymru'n datgan y gellir newid y ffordd y cynigir gwasanaethau Cymraeg yn gyflym drwy helpu darparwyr gwasanaethau i fod mor rhagweithiol â phosibl wrth gynnig y Gymraeg.²¹
- 3.6 Tystia arolygon siopwr cudd y Comisiynydd yn 2016-17 fod nifer o sefydliadau cyhoeddus eisoes yn gweithredu'r egwyddor o gynnig rhagweithiol. Gwelwyd sefydliadau'n mabwysiadu dulliau i roi arwydd clir i bobl bod eu gwasanaethau ar gael yn Gymraeg, er enghraifft drwy arddangos arwydd ar gownter neu wal neu ofyn i aelodau staff mewn derbynfa wisgo bathodyn.
- 3.7 Yn ystod yr arolwg o wasanaethau derbynfa, gwelwyd bod 54% o dderbynfeydd yr holl gynghorau sir yr ymwelwyd â hwy'n arddangos arwydd oedd yn datgan bod croeso i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r ganran 28% yn uwch nac yn 2015-16. Ymwelwyd â lleoliadau yn cynnwys pob prif swyddfa, llyfrgelloedd, lleoliadau hamdden a lleoliadau addysg cymunedol.²² Deunydd laith Gwaith a ddefnyddid yn y mwyafrif o'r derbynfeydd, ond roedd arwyddion gwahanol i'w gweld, megis 'Hapus i siarad Cymraeg', 'Dechreuwch bob sgwrs yn Gymraeg' a 'Mae gwasanaeth Cymraeg ar gael yma'.²³

²¹ Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Llywodraeth Cymru 2017 (t.53).

²² Ymwelwyd â'r derbynfeydd yn ystod yr Arolwg codi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg gan laith Cyf. ar ran Comisiynydd y Gymraeg. Yn 2015-16 roedd deunyddiau laith Gwaith i'w gweld yn 26% o'r derbynfeydd ymwelwyd â hwy.

²³ Mae Comisiynydd y Gymraeg yn darparu nwyddau laith Gwaith yn rhad ac am ddim er mwyn cynorthwyo sefydliadau i hybu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, megis bathodynau, cortynnau gwddf a phosteri.

Hearing Welsh first gives me confidence to speak Welsh from the start.

It helps to see the laith Gwaith badge... I feel, 'Great, I'm able to speak Welsh' instead of 'Here we go again'.



Source: The Welsh Language Commissioner's discussion groups 2016


- 3.5 In its strategy to reach a million Welsh speakers by 2050 the Welsh Government states that changing the way in which a Welsh language service is offered can be addressed quickly by assisting service providers to offer their services in the most proactive manner.²¹
- 3.6 The Commissioner's mystery shopper exercises in 2016-17 testify that a number of public organisations already implement the active offer principle. Organisations are shown to be adopting methods of indicating clearly to people that their services are available in Welsh, for example, displaying a sign on a counter or wall, or asking members of staff at receptions to wear badges.
- 3.7 During the survey of reception services, 54% of county council receptions visited were shown to be displaying a sign that stated that people were welcome to use the Welsh language, a 28% percentage increase since 2015-16. Locations visited included all main offices, libraries, leisure centres and community education sites.²² In the majority of receptions laith Gwaith materials were used, but other signage was also seen, such as 'Happy to speak Welsh', 'Start each conversation in Welsh' and 'A Welsh language service available here'.²³

²¹ Cymraeg 2050: A million Welsh speakers, Welsh Government, 2017 (p.53).

²² Receptions were visited during the Raising awareness of Welsh language services survey by laith Cyf. on behalf of the Welsh Language Commissioner. In 2015-16, laith Gwaith materials were observed in 26% of receptions.

²³ The Welsh Language Commissioner provides free laith Gwaith resources in order to help organisations promote opportunities to use Welsh when delivering services to the public in Wales, such as badges, lanyards and posters.


Defnyddio gwasanaethau derbynfa: arwydd gweledol bod gwasanaeth Cymraeg ar gael



Canran y derbynfydd oedd yn arddangos arwydd yn nodi bod croeso i ddefnyddio'r Gymraeg


3.8 Gwelwyd bod canran y galwadau ffôn i gynghorau sir a atebwyd gan berson gyda chyfarchiad Cymraeg neu ddwyieithog 33% yn uwch nac yn 2015-16 - llwyddwyd i gyflawni hynny yn achos 92% o'r galwadau i brif rif ffôn neu ganolfan alwadau'r cynghorau.

Defnyddio gwasanaethau ffôn: cyfarchiad Cymraeg neu ddwyieithog



Canran y galwadau ffôn i gynghorau sir lle cafwyd cyfarchiad Cymraeg neu ddwyieithog gan berson


Using reception services: visible sign that a Welsh language service is available



The percentage of receptions displaying a sign indicating that people were welcome to use Welsh

3.8 The percentage of telephone calls to county councils answered by a person with a Welsh or bilingual greeting was 33% higher than in 2015-16 - this was achieved in the case of 92% of calls to councils' main telephone numbers or call centres.

Using telephone services: Welsh or bilingual greeting



The percentage of telephone calls to county councils where a Welsh or bilingual greeting was given by a person

3.9 Gwneir defnydd cynyddol gan sefydliadau cyhoeddus o wasanaeth awtomatig i ateb galwadau ffôn lle gofynnir i'r galwr ddewis pa iaith y mae'n dymuno ei defnyddio. Atebwyd dros hanner y galwadau gan wasanaeth awtomatig ac erbyn diwedd y cyfnod arolygu roedd 55% o'r 73 sefydliad cyhoeddus oedd yn rhan o'r arolwg ffôn yn defnyddio gwasanaeth o'r math hwn. Cafwyd cyfarchiad Cymraeg neu ddwyieithog yn achos 90% o'r galwadau a atebwyd gan wasanaeth awtomatig.²⁴

Defnyddio gwasanaethau ffôn: derbyn cyfarchiad Cymraeg neu ddwyieithog gan wasanaeth awtomatig



Cafwyd cyfarchiad Cymraeg neu ddwyieithog yn ystod 90% o'r galwadau i sefydliadau cyhoeddus a atebwyd gan wasanaeth ffôn awtomatig

²⁴ Ceir rhagor o wybodaeth am yr arolwg yn Atodiad 1 a 2.

3.9 Public organisations are making increasing use of automated services to answer telephone calls where the caller is asked to choose which language they wish to use. Over half the calls were answered by an automated service and by the end of the survey period 55% of the 73 public organisations included in the telephone survey were using such a service. A Welsh or bilingual greeting was given in the case of 90% of the calls answered by an automated service.²⁴

Using telephone services: receiving a Welsh or bilingual greeting from an automated service




A Welsh or bilingual greeting was given during 90% of the calls to public organisations answered by an automated service

²⁴ Further information about the survey is available in Appendix 1 and 2.

3.10 Defnyddir gwefannau sefydliadau fwyfwy er mwyn chwilio am wybodaeth am wasanaethau. Mae defnyddio tudalen sblash (hynny yw, tudalen flaen sydd wedi ei chyhoeddi'n bwrpasol i gynnig dewisiadau cyn cael mynediad i brif wasanaethau gwefan) yn un ffordd o alluogi sefydliad i gynnig dewis iaith yn rhagweithiol i unigolion sy'n defnyddio'u gwefan. Roedd canran y cynghorau sir a oedd yn cyhoeddi tudalen sblash i gynnig dewis iaith ar eu gwefan 14% yn uwch nag yn 2015-16. Roedd 13 o'r 22 cyngor, sef 59%, bellach yn darparu'r cyfleuster i ddewis iaith ar gychwyn yr ymweliad â'u gwefan. Dylid nodi bod gwefannau rhai sefydliadau yn mynd i'r fersiwn Gymraeg yn ddiofyn, sydd yn ddull arall o gynnig y gwasanaeth Cymraeg yn rhagweithiol.

Defnyddio gwasanaethau gwefannau: tudalen sblash yn cynnig dewis iaith




Canran gwefannau cynghorau sirol oedd â thudalen sblash i alluogi pobl i wneud dewis iaith cyn mynd i'r hafan

3.11 Canfu'r arolwg gwasanaethau ffôn fod sefydliadau'n rhoi gwybod yn syth fod gwasanaeth Cymraeg ar gael yn achos 88% o'r galwadau iddynt, ac felly nad oedd angen gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg. Cafodd gwasanaeth Cymraeg ei gynnig naill ai gan neges Gymraeg neu ddwyieithog ar wasanaeth awtomatig, gan berson oedd yn gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg, neu gan berson oedd yn gwneud cynnig rhagweithiol i drosglwyddo'r alwad i swyddog a allai ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg.

3.12 Gwelwyd bod canran y galwadau ffôn i gynghorau sir pan nad oedd angen gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg pan atebwyd yr alwad 46% yn uwch nac yn 2015-16. Cafwyd cynnig defnyddio'r Gymraeg yn syth yn achos 96% o'r galwadau.

3.10 Organisations' websites are used more and more in order to search for information about services. A splash page (i.e. a front page published specifically to provide options before accessing the website's main services) is one way of enabling organisations to actively offer a language choice to individuals using their websites. The percentage of county councils publishing a splash page offering language choice on their websites was 14% higher than in 2015-16. 13 of the 22 councils, 59% now provide an initial language option on their websites. It should be noted that the websites of some organisations default to the Welsh language version, which is another way of actively offering the Welsh language service.

Using website services: splash page offering language choice




The percentage of county council websites with a splash page enabling people to make a language choice before going to the homepage

3.11 The survey of telephone services found that in 88% of calls made, organisations informed people at the outset that a Welsh language service was available, and therefore there was no need to ask to be able to use the Welsh language. A Welsh language service was offered in Welsh or bilingually either by an automated service or a person who could provide a Welsh language service, or a person actively offering to transfer the call to an officer who could provide the service in Welsh.

3.12 It was shown that the percentage of telephone calls to county councils where it was not necessary to request the use of Welsh when the call was answered was 46% higher than in 2015-16. The offer to use the Welsh language was given immediately in the case of 96% of calls.

3.13 Mae'r data'n adlewyrchu bod nifer sylweddol o gynghorau wedi cyflwyno gwasanaeth awtomatig i ateb y ffôn: mae hyn yn rhannol gyfrifol am y cynnydd yn y ganran o alwadau lle ceir cynnig dewis iaith ar y pwynt cyswllt cyntaf.

Defnyddio gwasanaethau ffôn: cynnig dewis iaith i'r galwr yn syth




Canran y galwadau i'r cynghorau sir oedd yn cynnig dewis iaith yn syth

3.14 Mae'r profiadau a gafwyd yn ystod arolygon profi gwasanaethau'r Comisiynydd felly'n cyd-fynd â barn siaradwyr Cymraeg fu'n rhan o'r Arolwg Omnibws a safbwyntiau mynychwyr grwpiau trafod y Comisiynydd. Mae nifer o'r prif sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru wedi mabwysiadu ymddygiad rhagweithiol wrth ddarparu gwasanaethau i bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg ac mae staff rheng flaen yn llwyddo i roi arwyddion clir i ddinasyddion bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, ac yn sgil hynny yn hybu defnydd o'r Gymraeg.

3.13 The data reflects that a significant number of councils have introduced an automated telephone answering service: this is partly responsible for the increase in the percentage of calls where language choice is offered at the first point of contact.

Use of telephone services: immediately offering language choice to the caller



Percentage of calls to county councils immediately offering a language choice

3.14 The experiences during the Commissioner's survey of services therefore correspond to the opinion of Welsh speakers that took part in the Omnibus Survey and the views of those attending the Commissioner's discussion groups. A number of the main public organisations in Wales have adopted a proactive approach in providing services to people who want to use the Welsh language and frontline staff are giving clear indications to citizens that they are welcome to use the Welsh language, therefore promoting the use of Welsh.

Mae sefydliadau'n cyflwyno gweithdrefnau newydd i'w galluogi i weithredu gofynion safonau'r Gymraeg

- 4.1 Mae ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau Cymraeg yn dibynnu'n helaeth ar allu sefydliadau i sicrhau bod nifer digonol o staff sydd â'r sgiliau iaith priodol yn y swyddi iawn. Un o brif negeseuon adroddiad sicrwydd y Comisiynydd yn 2015-16 oedd bod angen i sefydliadau cyhoeddus gynllunio'u gweithluoedd yn effeithiol i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau Cymraeg.²⁵
- 4.2 Rhwng mis Hydref 2016 a mis Ionawr 2017, trefnodd y Comisiynydd gyfres o weithdai gyda'r nod o ysgogi sefydliadau i ymateb i ganfyddiadau'r Comisiynydd yn adroddiad sicrwydd 2015-16 a gweithredu arferion cadarn o ofyn am sgiliau Cymraeg wrth recriwtio. Mynychwyd y gweithdai gan uwch swyddogion adnoddau dynol a chynllunio'r gweithlu 81 o sefydliadau cyhoeddus.
- 4.3 Mae gweithdrefn recriwtio newydd fabwysiadwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ystod 2016 -17 yn dangos sut y gall sefydliad ymateb i'r angen i gynyddu sgiliau Cymraeg ei weithlu er mwyn cyflenwi gwasanaethau yn Gymraeg:

Trin y Gymraeg fel sgil wrth recriwtio

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen o fewn yr Adran Gwaith a Phensiynau i ystyried a thrafod sut y byddent yn goresgyn y problemau maent wedi eu cael wrth geisio recriwtio siaradwyr Cymraeg ac i adnabod y cyfleoedd gorau i ddenu cynifer o ymgeiswyr addas â phosibl i ymgeisio am swyddi.

Yn sgil hynny penderfynwyd defnyddio safleoedd swyddi ar-lein Cymraeg i hysbysebu swyddi gwag, defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel Twitter a Facebook, a marchnata'r swyddi gwag i gwsmeriaid, sef pobl oedd wedi defnyddio gwasanaethau'r Canolfannau Gwaith i geisio cyflogaeth, sydd â sgiliau iaith Gymraeg, ac amlinellu'n glir y gofynion a'r disgwyliadau o'r rôl yn y swydd ddisgrifiad.

²⁵ Amser gosod y safon: Portread o brofiadau pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg, Adroddiad Sicrwydd 2015-16 Comisiynydd y Gymraeg.

Organisations are introducing new procedures to enable them to implement the Welsh language standards requirements

- 4.1 The quality and effectiveness of Welsh language services depend greatly on the ability of organisations to ensure that a sufficient number of staff with the appropriate skills are in the right jobs. One of the Commissioner's key messages in the 2015-16 assurance report was that public organisations needed to plan their workforces effectively in order to deliver Welsh language services.²⁵
- 4.2 Between October 2016 and January 2017, the Commissioner arranged a series of workshops aimed at encouraging organisations to respond to the Commissioner's 2015-16 assurance report and to implement sound practices in relation to asking for Welsh language skills when recruiting. The workshops were attended by senior human resources officers and workforce planning officers from 81 public organisations.
- 4.3 A new recruitment procedure adopted by the Department for Work and Pensions during 2016-17 shows how an organisation can respond to the need to increase its workforce's Welsh language skills in order to deliver Welsh language services:

Treating the Welsh language as a skill when recruiting

A Task and Finish Group was set up within the Department for Work and Pensions to explore how they would overcome the difficulties they had experienced in recruiting Welsh speakers and to identify the best opportunities to attract as many suitable candidates as possible to apply for posts.

As a result, a decision was made to use Welsh language job websites to advertise vacant posts, to use social media such as Twitter and Facebook, to highlight the vacant posts to customers, i.e. people who had used the services of the jobcentres to seek employment, who had Welsh language skills, and to clearly outline the requirements and expectations of the role in the job description.

²⁵ Time to set the standard: A portrayal of Welsh language users' experiences, The Welsh Language Commissioner's Assurance Report 2015-16.

Cynhaliwyd ymgyrch i recriwtio Anogwyr Gwaith oedd yn siaradwyr Cymraeg i'r Canolfannau Gwaith ledled Cymru yn gynnar yn 2017. Profodd yr ymgyrch yn llwyddiannus gan iddi ddenu 245 o geisiadau gan siaradwyr Cymraeg. Gwahoddwyd 122 o ymgeiswyr i gyfweiliad ac roedd 53 o ymgeiswyr yn cwrdd â'r safon ofynnol. Mae'r unigolion naill ai wedi dechrau, yn aros am ddyddiad dechrau neu'n cael eu cadw ar restr wrth gefn ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol yn y lleoliadau y maent wedi mynegi diddordeb ynddynt.

Oherwydd llwyddiant y weithdrefn newydd, o hyn ymlaen bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn hysbysebu am Anogwyr Gwaith sy'n siarad Cymraeg yn gyntaf, cyn cynnal ymarfer recriwtio cyffredinol.

- 4.4 Yn unol â gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg, rhaid i sefydliadau gadw cofnod o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag sydd, yn sgil cynnal asesiad, yn cael eu categorio fel swyddi sy'n gofyn bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol, dymunol, bod angen dysgu Cymraeg neu nad yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol.²⁶
- 4.5 Yn ystod arolwg swyddi'r Comisiynydd yn 2016-17, cofnodwyd gwybodaeth am dros bedair mil o swyddi a hysbysebwyd yn y sector cyhoeddus.²⁷ Cafodd gofynion sgiliau hanfodol eu cynnwys wrth hysbysebu 15% ohonynt, sef 615 swydd. Hysbysebwyd 52% o swyddi gyda sgiliau Cymraeg yn ofyniad dymunol, sef 2,076 swydd.
- 4.6 Roedd canran y swyddi a hysbysebwyd gan y 26 sefydliad sy'n gweithredu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 a oedd yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol 9% yn uwch nac yn 2015-16.²⁸ Hysbysebwyd 25% ohonynt, sef 543 swydd, gyda gofynion sgiliau hanfodol yn 2016-17, o gymharu â 16% o swyddi yn 2015-16. Mae'n debygol felly bod cynnydd wedi bod yn nifer yr asesiadau a wnaed lle casglwyd bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol er mwyn cyflawni swydd.

²⁶ Safon 136, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

²⁷ Ceir rhagor o wybodaeth am yr arolwg yn Atodiad 1.

²⁸ 22 cyngor sir, Gweinidogion Cymru a 3 awdurdod parc cenedlaethol.

A campaign to recruit Welsh speaking Work Coaches to Jobcentres across Wales was held early in 2017. The campaign proved a success and attracted 245 applications from Welsh speakers. A total of 122 applicants were invited for interview and 53 applicants met the required standard. These individuals have either started, are waiting for a start date, or are on a reserve list for future opportunities in locations in which they have expressed an interest.

Due to the success of this new approach, from now on the department intends to advertise for Work Coaches with Welsh language skills in the first instance, before conducting its general recruitment exercise.

- 4.4 In accordance with the requirements of Welsh Language Standards, organisations must keep a record of the number of new and vacant posts categorised as posts where Welsh language skills are essential, desirable, where there is a need to learn Welsh or where Welsh skills are not necessary.²⁶
- 4.5 During the Commissioner's 2016-17 jobs survey, information on over four thousand posts advertised in the public sector was recorded.²⁷ 15% of posts were advertised with essential skills requirements, a total of 615 posts. 52% of posts were advertised with Welsh language skills as a desirable requirement, a total of 2,076 posts.
- 4.6 The percentage of posts advertised by the 26 organisations implementing the Welsh Language Standards (No.1) Regulations 2015 noting that Welsh language skills were essential was 9% higher than in 2015-16.²⁸ 25%, 543 posts, were advertised with essential skills requirements in 2016-17, compared with 16% of posts in 2015-16. It is therefore likely that more assessments have been undertaken by organisations that concluded that Welsh language skills would be essential in order to perform a particular job.


²⁶ In accordance with standard 136 of the Welsh Language Standards (No. 1) Regulations 2015.

²⁷ Further information about the survey is available in Appendix 1.

²⁸ 22 county councils, Welsh Ministers and 3 national park authorities.

4.7 Gwelwyd hefyd fod canran y swyddi a hysbysebwyd gan gynghorau sir gyda sgiliau Cymraeg yn ofyniad dymunol 9% yn uwch nac yn 2015-16. Roedd hyn yn wir am 755 swydd, sef 35% o'r swyddi a gofnodwyd.

Gofynion sgiliau Cymraeg swyddi a hysbysebwyd gan gynghorau sir




Canran y swyddi a hysbysebwyd gan gynghorau sir gyda gofynion sgiliau Cymraeg yn 2016-17

- hanfodol
- dymunol
- disgrifiad arall
- dim sgiliau

4.7 It was also shown that the percentage of posts advertised by county councils with Welsh language skills as a desirable requirement was 9% higher than in 2015-16. This was the case for 755 posts, 35% of the posts recorded.

The Welsh language skills requirements of posts advertised




Percentage of county council posts advertised with Welsh language skills requirements in 2016-17

- essential
- desirable
- other description
- no skills

4.8 Yn 2016-17, llwyddodd pob un o'r cyngorau sir i hysbysebu swyddi gyda rhywfaint o ofynion sgiliau Cymraeg - cam allweddol ymlaen o ystyried bod arolwg 2015-16 wedi dangos na chafodd unrhyw ofynion sgiliau Cymraeg eu cynnwys yn hysbysebion swyddi, manylebau person a disgrifiadau swydd 11 o'r 22 cyngor sir. Mae hyn yn awgrymu bod asesiadau o anghenion sgiliau Cymraeg yn cael eu cynnal gan y cyngorau sir yn sgil gosod safonau'r Gymraeg.²⁹

Cyngorau sir yn pennu gofynion sgiliau Cymraeg wrth hysbysebu swyddi




Canran y cyngorau sir yn hysbysebu swyddi gyda gofynion sgiliau Cymraeg 2016-17

²⁹ Yn unol â safonau 136 a 136A Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

4.8 In 2016-17 every county council advertised posts with some Welsh language skills requirements - a significant step forward considering that the 2015-16 survey showed that no Welsh language skills requirements were included in the job advertisements, person specifications and job descriptions of 11 of the 22 county councils. This suggests that county councils are conducting assessments of Welsh language skills requirements following the imposition of the Welsh language standards.²⁹

County councils specifying Welsh language skills requirements in job advertisements



The percentage of county councils advertising posts with Welsh language skills requirements in 2016-17

²⁹ in accordance with standards 136 and 136A WELsh Language Regulations (No.1) 2015.

- 4.9 Mae sylwadau arweinydd un o gynghorau sir mwyaf Cymru wrth iddo gyhoeddi adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg yn arwydd o'r awydd ymysg sefydliadau i ymateb yn gadarnhaol i heriau'r gyfundrefn newydd:

'Dros y 25 mlynedd ddiwethaf mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd wedi mwy na dyblu ac rydym eisiau adeiladu ar hynny a chwarae ein rhan yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae safonau'r Gymraeg, yn ogystal â'n strategaeth Caerdydd Ddwieithog, yn mynd i fod yn allweddol er mwyn cyflawni hyn.

Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd ar y daith i ddod yn brifddinas wirioneddol ddwyeithog, fel sefydliad yn ogystal â thrwy'r ddinas. Fodd bynnag, mae heriau yn bodoli o hyd ac rydym yn gweithio'n galed ar draws yr awdurdod, a chyda'n partneriaid hefyd, i hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.'

**Y Cynghorydd Huw Thomas,
Arweinydd Cyngor Dinas Caerdydd**

- 4.9 Comments made by the leader of one of the largest county councils in Wales when it published its Welsh language standards annual report reflect the desire of organisations to respond positively to the challenges of the new system:

'Over the last 25 years, the number of Welsh speakers in Cardiff has more than doubled and we want to build on that to play our part in supporting the Welsh Government's vision for a million Welsh speakers by 2050. The standards, as well as the Bilingual Cardiff strategy, will play a significant role in achieving this.

We've already made progress on the journey to becoming a truly bilingual capital, both as an organisation and throughout the city. However, some challenges still remain and we are working hard across the authority, and essentially with partners too, to promote and facilitate the use of Welsh.'

**Councillor Huw Thomas,
Leader Cardiff City Council**

Rhan 2: Er bod pethau'n gwella mae gwaith pellach i'w wneud

Barn y Comisiynydd

Mae lle i wella mewn rhai sectorau a rhai ardaloedd a lle mae dyletswyddau newydd wedi eu gosod. Trwy ddyfalbarhau y bydd sefydliadau'n llwyddo i gydymffurfio â'r safonau ac, yn sgil hynny, sicrhau bod ansawdd profiadau dinasyddion sy'n defnyddio'r Gymraeg yn gwella.

Yn gyson, rwyf yn clywed pobl yn sôn am ddiffygion gwasanaethau'r sector iechyd sy'n cadarnhau pwysigrwydd cyflwyno Rheoliadau Safonau'r Gymraeg ar gyfer y sector hwnnw.

Dylai sefydliadau cyhoeddus ei gwneud hi'n amlwg i bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg pa hawliau i wasanaeth sydd ganddynt a sut gellir cysylltu â'r sefydliad i gwyno os nad ydynt ar gael fel y dylent. Yn achos nifer o sefydliadau, nid yw'r pethau sylfaenol hyn yn amlwg i'r dinesydd ac mae pobl yn troi ataf am gymorth ac i geisio datrysiaid. Ar brydiau, mae'n cymryd hyder a dyfalbarhad i gwyno yn uniongyrchol wrth sefydliad ac mae'n bwysig i'r llwybr fod yn un hwylus i'r dinesydd sy'n ceisio gwasanaeth Cymraeg. Dyna pam fod fy ngallu i weithredu ar ran y cyhoedd trwy ymchwilio i gwynion mor bwysig.

Part 2: Despite improvements further work is needed

The Commissioner's opinion

There is room for improvement in some sectors and some areas and where new duties have been imposed. It is through perseverance that organisations will succeed in complying with the standards and, as a result, ensure that the quality of the experience of Welsh language users improves.

I regularly hear people referring to failures in services delivered by the health sector, which underlines the importance of introducing Welsh Language Standards Regulations for this sector.

Public organisations should make it clear to people who use the Welsh language what rights they have to services and how to complain to the organisation if they are not available as they should be. In the case of many organisations, these fundamental elements are not clear to citizens and people turn to me for help and to seek a solution. At times, it takes confidence and perseverance to complain directly to an organisation and it is important that the route is easily accessible to the citizen seeking a service in Welsh. That is why my ability to investigate complaints on behalf of the public is so important.

Er bod cynnydd i'w weld o ran darpariaeth rhai gwasanaethau Cymraeg, mae rhagor eto i'w wneud i sicrhau eu bod ar gael fel y dylent

5.1 Er bod tystiolaeth o sawl ffynhonnell yn cadarnhau bod cynnydd o ran darpariaeth gwasanaethau Cymraeg, adroddodd aelodau grwpiau trafod y Comisiynydd fod eu profiadau hwy wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn parhau'n llai ffafriol na phe baent yn defnyddio'r Saesneg.



O'n i ffonio'r Swyddfa Gofrestru ddoe. Wnaethon nhw ddeud 'Does 'na neb Cymraeg yma rŵan' - dwn i ddim os oedd yr un person Cymraeg wedi mynd allan i gael cinio.

Mi ddaeth boi acw efo ffurflen cais cynllunio - wnes i ofyn 'Ga i'r un Gymraeg os gwelwch yn dda?'. 'O na, ma hwnnw yn y swyddfa,' medda fo.

Does ganddyn nhw neb ar gael i siarad Cymraeg ar y pryd, a dwi 'di bod ar ffôn yn hir iawn yn disgwl.

Ddoe oedd rhaid i fi fynd i swyddfa'r cyngor lleol i ofyn am fagiau ailgylchu... Wnes i ofyn i'r derbynnydd yn Gymraeg ac roedd yn rhaid aros, gadael rhif ffôn ac yn y blaen.

Ffynhonnell: Grwpiau trafod Comisiynydd y Gymraeg 2016

Although there has been progress in terms of the level of provision of some Welsh language services, there is still more to do to ensure that they are as accessible as they should be

5.1 Even though evidence from a number of sources confirms that there has been an increase in the level of Welsh language service provision, the Commissioner's discussion group members report that their experiences when using the Welsh language continue to be less favourable than if they were to use English.



I phoned the Registry Office yesterday. They said 'There's nobody here who can speak Welsh right now' - I don't know whether the Welsh speaking person had gone to lunch.

A chap came here with a planning application form - I asked him 'May I have the Welsh one please?'. 'Oh, no, that one's in the office he said.

They don't have anyone available to speak Welsh and I've had to wait on the phone for ages.

Yesterday I had to go to the local council office to ask for recycling bags... I asked the receptionist in Welsh, and I had to wait, leave a phone number etc.

Source: The Welsh Language Commissioner's discussion groups 2016

5.2 Mae'r ystadegau canlynol sy'n deillio o arolygon y Comisiynydd yn rhoi enghreifftiau o ble y mae angen gwella:

Gwefannau 53% o'r holl sefydliadau cyhoeddus a arolygwyd oedd yn darparu pob un o'r tudalennau gwefan yr ymwelwyd â hwy yn Gymraeg fel y dylent. Tri chyngor sir yn unig oedd yn cynnal pob un o'r tudalennau gwefan yr ymwelwyd â hwy yn gyflawn yn Gymraeg a Saesneg.³⁰

Ffôn 40% o'r galwadau i 16 cyngor sir a atebwyd gan dderbynydd oedd yn allu cynnal sgwrs ddigonol yn Gymraeg er mwyn deall natur yr ymholiad a throsglwyddo'r alwad yn llwyddiannus i swyddog arall priodol, fel sy'n ofynnol.³¹

Cafodd 8% o'r galwadau i brif rif ffôn neu ganolfan alwadau sefydliadau cyhoeddus eu hateb gan berson yn Saesneg yn unig.

Gohebiaeth Ni dderbyniwyd ymateb i 31% o'r ohebiaeth a anfonwyd yn Gymraeg yn ystod yr arolwg gohebiaeth. Roedd pobl ychydig yn llai tebygol o dderbyn ymateb i e-byst, llythyron a negeseuon ar Facebook wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Defnyddio gwasanaethau gohebiaeth: derbyn ymateb i ohebiaeth Gymraeg o gymharu â'r Saesneg



Mae sefydliadau'n llai tebygol o ymateb i ohebiaeth Gymraeg mewn sawl cyfrwng:

E-bost ● **74% Cymraeg** yn derbyn ateb ● **78% Saesneg**
 Llythyr ● **60% Cymraeg** yn derbyn ateb ● **65% Saesneg**
 Facebook ● **73% Cymraeg** yn derbyn ateb ● **74% Saesneg**

³⁰Ceir rhagor o fanylion am yr arolwg yn Atodiad 1.
³¹ 16 o'r 22 cyngor sir sy'n gweithredu Safon 11a, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

5.2 The following statistics from the Commissioner's surveys give examples of where improvements are needed:

Websites 53% of all public organisations surveyed provided every webpage visited in Welsh as required to do so. Only three county councils provided every web page visited fully in Welsh and English.³⁰

Telephone 40% of calls to 16 county councils were answered by an operator who was able to conduct a conversation in Welsh to a sufficient standard in order to understand the nature of the enquiry and to transfer the call successfully to another appropriate officer as required.³¹

8% of calls to public organisations' main telephone number or call centres were answered by a person in English only.

Correspondence No response was received to 31% of the Welsh language correspondence sent in Welsh during the correspondence survey.

Using correspondence services: receiving a response to Welsh language correspondence



Organisations are less likely to respond to Welsh language correspondence in a number of media:

E-mail ● **74% Welsh** receive a response ● **78% English**
 Letter ● **60% Welsh** receive a response ● **65% English**
 Facebook ● **73% Welsh** receive a response ● **74% English**

³⁰Further information about the survey is available in Appendix 1.
³¹ 16 of the 22 county councils implement standard 11 Welsh Language Standards (No. 1) Regulations 2015.

Cyfringau Cymdeithasol

23% o gyfrifon Twitter sefydliadau cyhoeddus oedd yn darparu gwasanaeth cyfatebol yn Gymraeg ac yn Saesneg, naill ai mewn un cyfrif dwyieithog neu gyfrifon Gymraeg a Saesneg ar wahân. Defnyddir y cyfrifon gan amlaf ar gyfer rhannu gwybodaeth, newyddion, digwyddiadau ac ail-drydar negeseuon sefydliadau eraill.

15% o'r 26 sefydliad sy'n gweithredu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 oedd yn cydymffurfio â gofynion y safonau perthnasol a osodwyd arnynt yng nghyswllt eu cyfrifon Twitter.³²

Roedd darpariaeth cyfrifon Facebook sefydliadau, sy'n cael eu defnyddio'n llai aml ganddynt na'u cyfrifon Twitter, ychydig yn well. 29% o gyfrifon Facebook oedd yn darparu gwasanaeth Gymraeg cyfatebol.

32% o'r sefydliadau sy'n gweithredu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 oedd yn cydymffurfio â gofynion y safonau perthnasol a osodwyd arnynt yng nghyswllt eu cyfrifon Facebook.³³

- 5.3 Canfu'r arolwg i wasanaethau cyfryngau cymdeithasol fod pob un o'r 26 sefydliad sy'n gweithredu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 wedi dangos bod y gallu ganddynt i osod negeseuon yn Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol ond nad oeddent yn gwneud hynny'n gyson. Mae enghreifftiau o gynghorau'n llwyddo i gynnal cyfrifon sy'n darparu gwasanaeth cyfartal gyda chyfrif dwyieithog a chyfrifon Gymraeg a Saesneg ar wahân, sy'n dangos bod modd cynnal gwasanaeth llwyddiannus y naill ffordd neu'r llall.
- 5.4 O safbwynt y sector iechyd, mae egwyddor y cynnig rhagweithiol wedi ei mabwysiadu ers 2012 pan gyhoeddwyd y fframwaith strategol 'Mwy na geiriau' gan Lywodraeth Cymru. Er hyn, nid yw sylwadau aelodau grwpiau trafod y Comisiynydd yn rhoi sicrwydd bod y cysyniad wedi'i wreiddio eto yn niwylliant sefydliadau'r sector.

³² Ceir rhagor o fanylion am yr arolwg yn Atodiad 1.

³³ Mwy na geiriau ... , Llywodraeth Cymru, 2012.

Social Media

23% of public organisations' Twitter accounts provided a corresponding service in Welsh and English, either as a bilingual account or separate Welsh and English accounts. Accounts are mostly used to share information, news, events and to retweet messages from other organisations.

15% of the 26 organisations implementing the Welsh Language Standards (No.1) Regulations 2015 complied with the requirements of the relevant standards imposed on them in relation to their Twitter accounts.³²

The provision of organisations' Facebook accounts, used less frequently than their Twitter accounts, was slightly better. 29% of Facebook accounts provided a corresponding Welsh language service. 32% of the organisations implementing the Welsh language Standards (No.1) Regulations 2015 complied with the requirements of the relevant standards imposed on them in relation to their Facebook accounts.³³

- 5.3 The survey of social media services found that each of the 26 organisations implementing the Welsh Language Standards (No.1) Regulations 2015 showed that they have the ability to post Welsh language messages on social media but that they do not do so consistently. There are examples of councils that manage to maintain accounts that provide an equal service with bilingual accounts and separate Welsh and English accounts, demonstrating that it is possible to maintain a successful service either way.
- 5.4 With regards to the health sector, the principle of the active offer has been adopted since 2012, when the Welsh Government published the More than just words ... framework. Despite this, comments from the Commissioner's discussion group members do not give assurance that the active offer concept has become embedded into organisational culture within the sector.

³² Further information about the survey is available in Appendix 1

³³ More than just words... , Welsh Government, 2012

Yn yr ysbyty mae'n amhosibl defnyddio'r Gymraeg. Pan dwi'n mynd i'r apwyntiad, dwi'n dweud 'Bore da, mae gen i apwyntiad'; mae popeth yn Saesneg ar ôl hynny. Mae'n digwydd bob tro. Os wyt ti'n mynd i apwyntiad meddygol, dwyt ti ddim eisiau cwyno...

Roeddwn i yn yr ysbyty, a'r nyrsys yn dod i mewn a dweud 'Bore da', yn gwisgo lanyards, ond wedyn yn troi i'r Saesneg, gan ddweud 'I went to a Welsh school but I don't use it'. Mae angen cefnogaeth arnyn nhw i godi eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

Fe dreuliais i bum awr yng nghanolfan ddamweiniau yn yr ysbyty y dydd o'r blaen... Roedd un o'r nyrsys â bathodyn Cymraeg, a wedes i 'O, chi'n siarad Cymraeg?' ac mi atebodd 'Oh, no - this is the only uniform they could give me.'

Ar ôl symud tŷ mi wnes i drïo cofrestru hefo'r bwrdd iechyd a chymryd wythnosau i ffeindio allan pa feddygfeydd oedd gan feddyg Cymraeg. Roedd y meddyg Cymraeg tu allan i'r dalgylch - sôn am broblemau cofrestru ges i - ond mae o wedi 'nerbyn i achos 'mod i wedi mynnu rhywun sy'n siarad Cymraeg.

Mae pobl hŷn yn eu wythdegau, nawdegau, yn mynd i mewn i ysbytai a chartrefi preswyl a does 'na ddim modd iddyn nhw gal sgwrs yn Gymraeg. Ro'n i ar y Cyngor Iechyd Cymuned am 8 mlynedd, ac roedden ni'n derbyn cwynion byth a beunydd.



Ffynhonnell: Grwpiau trafod Comisiynydd y Gymraeg 2016

It's impossible to use Welsh in the hospital. When I go to my appointment, I say 'Good morning, I have an appointment'; and everything is in English from then on. It happens every time. If you go to a medical appointment, you don't want to complain...

I was at the hospital and the nurses came in and said 'Bore da', they were wearing lanyards, but then turned to English saying 'I went to a Welsh school but I don't use it'. They need support to increase their confidence to use Welsh at work.

I spent five hours at A&E the other day... One of the nurses had a Welsh speakers badge, and I said 'Oh, do you speak Welsh?' and they answered, 'Oh, no - this is the only uniform they could give me.'

After moving house I tried to register with the health board and it took me weeks to find out which surgeries had a Welsh speaking GP. The Welsh speaking GP was outside the catchment area - but he has accepted me as I insisted on someone who spoke Welsh.

Older people in their eighties and nineties are going into hospital and residential homes and there's no way for them to have a conversation in Welsh. I was on the Community Health Council for 8 years, and we were constantly getting complaints.



Source: The Welsh Language Commissioner's discussion groups 2016

5.5 Fel sy'n cael ei nodi yn strategaeth Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, gallai newid arferion yn y sector iechyd a gwasanaethau cymdeithasol wneud cyfraniad gwerthfawr i nod y strategaeth o gynyddu defnydd o'r Gymraeg gan fod bron i 200,000 o staff yn darparu gwasanaethau yn y sector yng Nghymru a chleifion yn dod i gyswllt â'r gwasanaeth 20 miliwn o weithiau'r flwyddyn.³⁴

5.6 Mae'r data canlynol sy'n deillio o arolygon y Comisiynydd yn rhoi enghreifftiau o ble mae angen gwella:

Gohebiaeth 30% o'r ohebiaeth Gymraeg anfonwyd at Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru dderbyniodd ymateb, o gymharu â 40% o'r ohebiaeth anfonwyd yn Saesneg. Derbyniwyd ymateb Saesneg i 17% o'r darnau o ohebiaeth a anfonwyd yn Gymraeg.

Gwefannau Nid oedd 55% o dudalennau Cymraeg gwefannau Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru yn cyfateb â'r Saesneg neu mi roeddent yn cynnwys gwallau. Mae hyn yn ganran sylweddol uwch na'r 18% ar gyfer tudalennau gwefannau'r holl sefydliadau a arolygwyd.

5.7 Mae safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswydd ar sefydliadau cyhoeddus i asesu anghenion sgiliau Cymraeg swyddi newydd a swyddi gwag a nodi hynny wrth eu hysbysebu. Adroddwyd eisoes bod arolyg swyddi'r Comisiynydd yn awgrymu bod arferion cynghorau sir yn newid yn sgil cyflwyno safonau'r Gymraeg gan fod cynnydd i'w gael yn nifer y swyddi hysbysebwyd gyda gofynion sgiliau hanfodol.

5.8 Fodd bynnag, ni welwyd yr un math o gynnydd gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru, nad ydynt eto yn gweithredu safonau'r Gymraeg. Mae'r ganran o swyddi a hysbysebwyd gyda sgiliau Cymraeg yn ofyniad hanfodol yn parhau'n isel ar 1%, sef 13 o'r 1,492 o swyddi a gofnodwyd. Mae'n ganran sylweddol is nag unrhyw sector arall a arolygwyd, ac nid yw'n arddangos unrhyw newid ers 2015-16. Awgryma hyn nad yw'r sector iechyd wedi mabwysiadu arferion newydd o ran asesu gofynion swyddi.

5.9 Gan droi sylw at un o amcanion safonau'r Gymraeg, sef sicrhau mwy o gysondeb o ran y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael i bobl ledled Cymru, mynegwyd barn gan fynychwyr grwpiau trafod y Comisiynydd, er bod profiadau cadarnhaol i'w cael mewn rhai

³⁴ *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, Llywodraeth Cymru, 2017.

5.5 As noted in the Welsh Government strategy, *Cymraeg 2050: A million Welsh speakers*, a shift in health and social care sector practices could make a valuable contribution to the strategy's aim of increasing the use of the Welsh language as almost 200,000 members of staff deliver services in the sector in Wales and patients interact with the service 20 million times a year.³⁴

5.6 The following data from the Commissioner's surveys give examples of where improvements are needed:

Correspondence Of the correspondence sent in Welsh to Health Boards and NHS Trusts in Wales, 30% received a response, compared with 40% of the correspondence sent in English. 17% of the correspondence sent in Welsh received a response in English.

Gwefannau 55% of the Welsh language pages surveyed on NHS Wales Health Boards and Trusts' websites did not correspond to the English pages, or they contained errors. This is a significantly higher percentage than the 18% for the webpages of all organisations surveyed.

5.7 Welsh Language Standards place a duty on public organisations to assess the Welsh language skills requirements of new and vacant posts and to note these when advertising. As reported previously the Commissioner's jobs survey suggests that county council practices are changing following the introduction of Welsh language standards as there has been an increase in the number of posts advertised with essential Welsh language skills required.

5.8 However, a similar increase has not been seen by Health Boards and NHS Wales Trusts who are yet to implement Welsh language standards. The percentage of posts advertised with Welsh language skills as an essential requirement remains low at 1% or 13 of the 1,492 posts recorded. This is a significantly lower percentage than any other sector surveyed and does not reflect any change since 2015-16. This suggests that the health sector has not adopted any new practices in terms of assessing job requirements.

5.9 Turning to one of the aims of the Welsh language standards - ensuring more consistency in terms of the Welsh language services available to people across Wales - the Commissioner's discussion group members expressed the opinion that although some

³⁵ *Cymraeg 2050: A million Welsh speakers*, Welsh Government, 2017.

mannau, nad ydynt i'w cael ymhob rhan o Gymru. Maent o'r farn fod lle mae person yn byw'n parhau i ddylanwadu ar y cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg.

O'dd gofyn i fi fynd ar gwrs ymwybyddiaeth cyflymder, ond i gael y cwrs yn Gymraeg byddai'n rhaid i mi fynd i'r gogledd. Dwi'n derbyn na fydd ar gael yn Aberdâr, ond mae gogledd Cymru'n afresymol.

Os dwi'n gwasgu'r botwm Cymraeg ar y ffôn, dwi'n gorfod aros 15 munud. Fyddai hynny ddim yn digwydd yn Saesneg. Pam ddylen i fodloni dim ond am fy mod i'n byw yn y de-ddwyrain? Dylai'r safonau fod yn gyson reit drwy Gymru ... Ddylia lle dan ni'n byw ddim bod yn ffactor; dylia gwasanaethau Cymraeg gael eu cynnig ym mhob sir.

Ar ôl profiad o symud i fyw dwi wedi gweld gwahaniaeth, er 'mod i'n byw yn yr un sir o hyd a'r un bwrdd iechyd yn gyfrifol am y gwasanaethau... Yn yr hen feddygfa ro'n nhw'n gofyn drwy ba iaith o'ch chi moyn iddyn nhw gysylltu; dyw'r feddygfa newydd ddim cystal. Dyn nhw ddim yn defnyddio'r un systemau felly doedd cofnod o ddewis iaith rhywun ddim yn cael ei drosglwyddo... Mae 'na le i wella.

Mae profiadau yn y cyngor sir drws nesaf yn hollol wahanol. Hyd yn oed pan dach chi'n pwysu i siarad hefo rhywun yn Gymraeg dach chi'n dueddol o gael rhywun yn Saesneg. Rydach chi'n gofyn a dach chi'n cael 'Wnawn ni ffeindio rhywun i ffonio chi'n ôl'... Mae 'na oedi bob tro. Dyn nhw ddim yn ateb e-byst, dyn nhw ddim yn ateb tweets - ma' nhw'n siomedig.

Fynhonnell: Grwpiau trafod Comisiynydd y Gymraeg 2016

positive experiences are seen in some areas, this isn't true for every part of Wales. They believe that where a person lives continues to affect the opportunities available to use the Welsh language.

I had to go on a speed awareness course but to attend a Welsh language course, I would have to go to North Wales. I accept that one might not be available in Aberdare, but North Wales is unreasonable.

If I press the Welsh option on the phone, I have to wait 15 minutes. This wouldn't happen in English. Why should I be satisfied just because I live in the south east? Standards should be consistent across Wales... Where we live shouldn't be a factor; Welsh services should be offered in every county.

After moving house I have seen a difference, although I live in the same county with the same health board responsible for the services... In the old GP surgery, they asked in which language you wanted correspondence; the new surgery isn't as good. They don't use the same systems so the record of one's language choice isn't transferred... There is room for improvement.

The experience in the neighbouring county council is totally different. Even when you select the option to speak with someone in Welsh, you tend to get someone in English. You have to ask and you get 'We'll find someone to call you back..!' There are always delays. They don't answer e-mails, they don't answer tweets - they're disappointing.

Source: The Welsh Language Commissioner's discussion groups 2016

Mae angen gwella ansawdd gwasanaethau Cymraeg

- 6.1 Wrth geisio ennyn hyder dinasyddion a'u hannog i ddefnyddio'r Gymraeg, rhaid ystyried ansawdd y gwasanaeth yn ogystal â'i argaeledd. Mae ansawdd yn greiddiol i'r profiad, ac ni ddylai'r ffaith fod y dinesydd yn dewis defnyddio'r Gymraeg arwain at dderbyn gwasanaeth o ansawdd eilradd.
- 6.2 Gall ansawdd olygu pethau gwahanol i wahanol bobl - mae'n dibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn a'r math o wasanaeth y mae'n ei ddefnyddio. Mae natur y gwasanaeth weithiau'n golygu bod iaith yn greiddiol i'w ansawdd, megis yn achos gwasanaethau gofal. Dro arall mae ansawdd gwasanaeth yn ddibynnol ar ymddygiad ac ymagwedd y darparwr; gall hefyd ymwneud â sicrhau cywirdeb.

Dach chi'n ffonio'r cyngor ac ma 'na neges pwyswch 2 am Gymraeg. Dach chi'n pwyso 2 ac ma'r person yn siarad Saesneg hefo chi ac erbyn dach chi drwadd i rywun sydd yn siarad Cymraeg, mae'r amser wedi costio.

Mae'n nhw'n rhoi arwyddion parhaol i fyny yn ddwyieithog fel maen nhw fod i, ond unrhyw arwydd dros dro mae o'n uniaith Saesneg yn aml iawn.

Dwi'n gwybod bod yna ffurflen ar gael yn ddwyieithog a pan dach chi'n gofyn am un Gymraeg, maen nhw'n dweud 'O sori, maen nhw gyd wedi mynd - wnewch chi ddod nôl mewn pythefnos?'

The quality of Welsh language services needs to improve

- 6.1 To increase citizens' confidence and encourage them to use the Welsh language the quality of a service has to be considered in addition to its availability. Quality is a core part of the experience, and the fact that a citizen chooses to use the Welsh language should not lead to a second class service.
- 6.2 Quality can mean different things to different people - it depends on the individual's circumstances and the type of service they are using. The nature of the service sometimes means that language is central to its quality, such as in the case of care services. Other times, the quality of the service is dependent on the behaviour and attitude of the provider; it can also be related to accuracy.

You phone the council and there's a message asking you to press 2 for Welsh. You press 2 and the person speaks to you in English and by the time you've been put through to someone who speaks Welsh the time taken has cost money.

They put bilingual permanent signs up as they should, but any temporary sign is very often in English only.

I know that there is a bilingual form available and when you ask for a Welsh version, they say 'Oh sorry, they've all gone - can you come back in two weeks?'

Pan wnes i ffonio'r cyngor, wnes i wasgu'r botwm Cymraeg am 'mod i wedi cael y dewis, ond gorfod i mi roi ffôn lawr ar ôl dal am yn hir.

Google Translate mae'r cyngor yn ddefnyddio i drydar yn Gymraeg.



Ffynhonnell: Grwpiau trafod Comisiynydd y Gymraeg 2016

- 6.3 Mae arolygon siopwr cudd y Comisiynydd yn ystod 2016-17 yn ategu sylwadau aelodau grwpiau trafod y Comisiynydd ac yn tystio nad yw ansawdd y gwasanaeth Cymraeg a gynigir bob amser fel y dylai fod.
- 6.4 Canfu'r arolwg gwefannau fod 96% o'r sefydliadau cyhoeddus yn yr arolwg yn cynnwys botwm dewis iaith ar y tudalennau ymwelwyd â hwy, y ganran 15% yn uwch nac yn 2015-16. Ond nid yw'r botwm bob amser yn gweithio nac yn gwireddu ei bwrpas o hwyluso defnyddio'r naill iaith a'r llall, sy'n golygu y caiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol.
- 6.5 Yn achos un cyngor sir, roedd clicio'r botwm dewis iaith yn arwain at gyfieithiad gan Google Translate o'r dudalen Saesneg; roedd enghreifftiau niferus hefyd o wefannau lle'r oedd clicio'r botwm dewis iaith yn arwain y defnyddiwr at dudalen hafan y wefan yn yr iaith arall yn hytrach nag i'r dudalen gyfatebol. Roedd gwefan arall yn cynnwys botwm dewis iaith ar dudalennau Cymraeg y wefan, ac felly'n caniatáu i'r defnyddiwr newid iaith i'r Saesneg, ond nid oedd botwm ar y tudalennau Saesneg yn rhoi dewis i newid o'r Saesneg i'r Gymraeg.

When I phoned the council, I pressed for the Welsh option because I was given the choice, but I had to put the phone down after hanging on for ages.

The council uses Google Translate to tweet in Welsh.



Source: The Welsh Language Commissioner's discussion groups 2016

- 6.3 The Commissioner's mystery shopper surveys during 2016-17 support comments made by members of the Commissioner's discussion groups and are evidence that the quality of the Welsh language service offered isn't always as it should be.
- 6.4 The website survey found that 96% of public organisations included in the survey provided a language selector button on the pages visited, this percentage was 15% higher than in 2015-16. But the button does not always work or achieve its aim of facilitating the use of either language, and so the Welsh language is treated less favourably.
- 6.5 In the case of one county council, clicking on the language selector button led to a page that was a Google Translate translation of the English page; there were also numerous examples of websites where clicking on the language choice button led the user to the homepage in the other language instead of the corresponding page. Another website included a language choice button on the Welsh language web pages, therefore allowing the user to change to the English version, but there was no button on the English pages giving the option to change from English to Welsh.

-
- 6.6 Roedd tudalennau sydd angen eu diweddarau'n gyson - megis rhestrau neu gofrestrau - yn llai tueddol o fod ar gael yn Gymraeg. Sylwyd bod gwybodaeth megis dyddiadau a phrisiau heb eu diweddarau mewn sawl achos. Canfu'r arolwg fod tudalennau ag elfennau technegol - megis teclynnau chwilio, neu offer ar-lein megis adnodd talu neu ffurflenni cyfeirio - yn llai tueddol o fod ar gael yn Gymraeg. Roedd dolenni ar goll ar dudalennau Cymraeg a chynnwys heb ei ddiweddarau, nid oedd hynny'n wir yn achos y tudalennau Saesneg cyfatebol. Nid oedd atodiadau ar ffurf PDF ar gael yn Gymraeg bob amser er bod rhywun yn eu cyrchu o ochr Gymraeg y wefan.
- 6.7 Yn achos rhai gwefannau, dim ond trwy fynd i'r dudalen gyfatebol ar y wefan Saesneg yn gyntaf ac yna pwyso'r botwm dewis iaith yr oedd modd cael mynediad at y tudalennau Cymraeg.
- 6.8 Nodwyd gan aelodau o grwpiau trafod, ac mi ganfuwyd yn ystod arolwg codi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg y Comisiynydd hefyd, fod staff sefydliadau yn gwisgo bathodyn a oedd yn rhoi'r argraff eu bod yn medru darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg ond nad oedd y sgiliau ganddynt i wneud hynny.
- 6.9 Ychydig dros hanner derbynfydd cynghorau sir oedd yn arddangos arwydd eu bod yn medru darparu gwasanaeth yn Gymraeg, er bod y safonau'n ei gwneud yn ofynnol i bob un ohonynt wneud hynny a bod deunyddiau parod ar gael yn hwylus ac am ddim.³⁵
- 6.10 Wrth fesur ansawdd gwasanaeth mae'r ymddygiad a ddangosir tuag at y dinesydd sy'n derbyn y gwasanaeth yn elfen hanfodol ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu yn y safonau proffesiynol sy'n cael eu gosod ar weithwyr y sector cyhoeddus mewn sawl maes trwy rhoi pwyslais ar ddangos parch. Gwnaed sylwadau gan nifer o aelodau'r grwpiau trafod ynghylch y modd yr oedd eu dewis i ddefnyddio'r Gymraeg yn arwain at ymddygiad gan y sefydliad oedd yn gwneud iddynt deimlo yn israddol.


³⁵ Mae Comisiynydd y Gymraeg yn darparu nwyddau iaith Gwaith yn rhad ac am ddim er mwyn cynorthwyo sefydliadau i hybu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, megis bathodynnau, cortynnau gwddf a phosteri.

-
- 6.6 Pages that need updating regularly - such as lists or registers - were less likely to be available in Welsh. In a number of cases, it was noted that information such as dates and prices had not been updated. The survey found that pages with technical elements - such as search engines, or online tools such as payment options or referral forms - were less likely to be available in Welsh. There were links missing on Welsh pages and outdated content, this was not true in the case of the corresponding English pages. PDF attachments were not always available in Welsh although they were accessed from the Welsh version of the website.
- 6.7 In the case of some websites, the only way of accessing the Welsh pages was to go to the corresponding page in English first, then selecting the language choice option.
- 6.8 Comments by members of the discussion groups as well as the results of the Commissioner's Rising awareness of Welsh language services survey found that staff in organisations wore a badge giving the impression that they were able to provide services in Welsh despite the fact that they did not have the skills to do so.
- 6.9 Slightly over half of county council receptions displayed a sign showing that they were able to provide a service in Welsh, despite the fact that the standards require each one of them to do so and that there are materials available easily and free of charge.³⁵
- 6.10 When measuring the quality of services the attitude shown towards the citizen receiving the service is an essential element, reflected in the professional standards required of public sector workers in a number of sectors that emphasise the need to show respect. A number of discussion group members commented how their choice to use the Welsh language led to an attitude displayed by the organisation that made them feel inferior.

³⁵ The Welsh Language Commissioner provides free iaith Gwaith resources in order to help organisations promote opportunities to use Welsh when delivering services to the public in Wales, such as badges, lanyards and posters.



6.11 Nodwyd yn adroddiad sicrwydd y Comisiynydd yn 2015-16 fod angen i sefydliadau cyhoeddus ddylanwadu ar agweddau ac ymddygiad ieithyddol eu staff fel eu bod yn ymwybodol o'u hymrwymadau i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Mae cwrteisi ieithyddol sylfaenol yn greiddiol i'w gallu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da.



6.11 In the Commissioner's 2015-16 assurance report it was noted that public organisations need to influence their staff's attitudes and behaviours towards the language so that they are aware of their duties to provide Welsh language services. Basic linguistic courtesy is central to their ability to provide a good quality service.

Mae angen i sefydliadau wella eu trefniadau hunan reoleiddio, a gweithredu ar eu canfyddiadau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg

- 7.1 Mae Fframwaith Rheoleiddio'r Comisiynydd yn pwysleisio bod angen i sefydliadau gymryd cyfrifoldeb eu hunain dros sicrhau eu bod yn cydymffurfio fel y dylent â safonau'r Gymraeg neu gynlluniau iaith Gymraeg. Hynny yw, mae'n rhaid iddynt hunanreoleiddio'n effeithiol.³⁶
- 7.2 Amlygodd arolwg y Comisiynydd nad oedd argraffiadau swyddogion sefydliadau o lefel eu cydymffurfedd bob amser yn cyd-fynd â realiti profiadau pobl oedd yn defnyddio'u gwasanaethau, er enghraifft:³⁷
- o nododd swyddogion y 26 o'r sefydliadau a gyfwelwyd fod pob un ohonynt yn arddangos deunyddiau ym mhob pwynt gwasanaeth er mwyn rhoi gwybod i'r cyhoedd fod modd defnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, roedd realiti profiadau go iawn yn wahanol: 54% o sefydliadau oedd yn arddangos deunyddiau o'r fath yn eu derbynfydd;
 - o nododd 22 o'r 26 sefydliad fod brawddeg yn cael ei chynnwys mewn gwahoddiadau i gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd fod croeso i ddefnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, wrth wirio gwefannau'r un sefydliadau, dim ond ar un wefan y gwelwyd tystiolaeth fod yr arfer hwnnw'n cael ei weithredu.
- 7.3 Canfu'r un arolwg nad oedd cyfran o sefydliadau'n cydymffurfio â dyletswyddau cymharol syml i'w gweithredu, megis cyhoeddi hysbysiad cydymffurfio ar wefan, rhoi cyfarchiad dwyieithog ar beiriant ateb, neu sicrhau bod staff derbynfydd sy'n medru siarad Cymraeg yn gwisgo bathodyn i gyfleu hynny, er enghraifft:
- o yn nerbynfydd 25% o'r sefydliadau lle'r oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael, nid oedd aelodau staff yn gwisgo bathodyn i arddangos hynny;
 - o nid oedd 29% o'r sefydliadau wedi cyhoeddi dogfen ar eu gwefan yn egluro pa safonau y mae angen iddynt fod yn eu gweithredu, er y byddai'r weithred syml o gyhoeddi hysbysiad cydymffurfio'r sefydliad yn ddigonol.

³⁶ Fframwaith Rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg, 2016.

³⁷ Fel rhan o arolwg codi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg gan Iaith Cyf. ar ran y Comisiynydd casglwyd argraffiadau swyddogion 26 o sefydliadau sy'n gweithredu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 trwy gyfweiliadau ffôn ac ymwelwyd â derbynfydd y sefydliadau hefyd. Ceir rhagor o fanylion am yr arolwg a'r sefydliadau fu'n rhan ohoni yn Atodiadau 1 a 2.

Organisations need to improve their self-regulatory arrangements and act on their findings in order to ensure that they are complying with the Welsh language standards


- 7.1 The Commissioner's Regulatory Framework emphasises that organisations need to take responsibility for ensuring that they are complying as they should with the Welsh language standards or their Welsh language schemes. In other words, they need to conduct effective self-regulation.³⁶
- 7.2 The Commissioner's survey highlighted that the impressions of officers within organisations regarding the level of their compliance do not always correspond with the reality of people's experience when using their services, for instance:³⁷
- o officers from the 26 organisations interviewed noted that they all displayed materials at every service point in order to inform the public that they may use Welsh. However, the reality of people's experiences differs: only 54% organisations displayed such materials in their receptions
 - o 22 of the 26 organisations noted that invitations to meetings open to the public state that people are welcome to use the Welsh language. However, during a survey of the websites of the 26 organisations, evidence of the practice was only found on one website.
- 7.3 The survey found that a proportion of organisations did not comply with duties that are fairly simple to implement, such as publishing compliance notices on websites, having a bilingual greeting on an answering machine, or ensuring that reception staff who are able to speak Welsh wear a badge to communicate this, for instance:
- o in the receptions of 25% of those organisations where a Welsh language service was available, no members of staff wore a badge to indicate this;
 - o 29% of the organisations had not published a document on their website explaining which standards they are required to implement, despite the fact that simply publishing the organisations' compliance notice would suffice.

³⁶ The Welsh Language Commissioner's Regulatory Framework, 2016.

³⁷ As part of the Raising awareness of Welsh language services survey by Iaith Cyf. on behalf of the Commissioner, a series of telephone interviews were conducted with officers from 26 of the organisations implementing the Welsh Language Standards (No.1) Regulations and reception areas were visited also. Further details of the survey and the organisations included as part of the survey are available in appendices 1 and 2.

- 7.4 Mae safonau'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gyhoeddi gweithdrefn gwyno i egluro sut y byddant yn delio â chwynion ynghylch eu cydymffurfedd â safonau'r Gymraeg. Pwrpas hynny yw sicrhau bod gan bobl hyder i gwyno'n uniongyrchol i'r sefydliadau. Dangosodd arolwg y Comisiynydd mai 37% o sefydliadau oedd wedi cyhoeddi gwybodaeth am sut y byddent yn delio â chwynion o'r fath gan y cyhoedd.³⁸

Cyhoeddi gweithdrefn gwyno



- 7.5 Mae dyletswydd ar sefydliadau i gyhoeddi adroddiadau blynyddol safonau'r Gymraeg. Rhaid i'r 26 sefydliad sy'n gweithredu Rheoliadau (Rhif 1) 2015 sef y cynghorau sir, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru, gyhoeddi adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi. Rhaid i'r adroddiad gynnwys ystadegau penodol a bennwyd yn y Rheoliadau. Y dyddiad ar gyfer cyhoeddi adroddiadau blynyddol safonau'r Gymraeg y sefydliadau sy'n gweithredu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2), (Rhif 4) a (Rhif 5) yw 30 Medi, felly nid oes modd cynnwys dadansoddiad ohonynt yn yr adroddiad hwn.
- 7.6 Cynhaliwyd arolwg o wefannau'r 26 sefydliad sy'n gweithredu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 - 22 ohonynt oedd wedi cyhoeddi adroddiad.³⁹

³⁸ Sefydliadau sy'n gweithredu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) a (Rhif 2) 2015, a (Rhif 4) a (Rhif 5) 2016.
³⁹ Ceir rhagor o wybodaeth am yr arolwg yn Atodiad 1.

- 7.4 The standards require organisations to publish a complaints procedure explaining how they will deal with complaints regarding their compliance with Welsh Language Standards. This is aimed at ensuring that people can be confident in complaining directly to the organisations. The Commissioner's survey showed that 37% of the organisations had published information on how they would deal with such complaints from the public.³⁸

Publishing a complaint procedure



- 7.5 Organisations have a duty to publish Welsh language standards annual reports. The 26 organisations implementing Regulations (No. 1) 2015, county councils, national park authorities and Welsh Ministers, are required to publish an annual report no later than 30 June after the financial year to which the report relates. The report must contain specific statistics as set out in the regulations. The publication date for the Welsh language standards annual reports of the organisations implementing Regulations (No. 2) (No. 4) and (No. 5) 2016 is 30 September, and as such it is not possible to include an analysis of them in this report.
- 7.6 A survey of the websites of the organisations operating the Welsh Language Standards Regulations (No. 1) 2015 found that 22 of them had published a report.³⁹

³⁸ Organisations implementing the Welsh Language Standards Regulations (No.1), (No. 2), (No. 4) and (No. 5).
³⁹ Further information about the survey can be found in Appendix 1.

- 7.7 Llwyddodd 21 sefydliad i adrodd ar nifer y cwynion. O'r rhain roedd 3 yn nodi nad oeddent wedi derbyn unrhyw gwynion am y safonau cyflenwi gwasanaethau. Nodwyd gan 10 sefydliad arall iddynt dderbyn 5 cwyn neu lai; 17 cwyn oedd yr uchafswm i sefydliad adrodd ei fod wedi eu derbyn. Ni adroddwyd gan unrhyw sefydliad iddo dderbyn cwynion yn ymwneud â'r safonau llunio polisi; un sefydliad yn unig adroddodd iddo dderbyn cwynion ynghylch y safonau gweithredu. Roedd mwyafrif y cwynion, sef 109 ohonynt, felly yn ymwneud â'r safonau cyflenwi gwasanaethau a nifer fach (2) yn ymwneud â'r safonau gweithredu.
- 7.8 O safbwynt sgiliau cyflogeion, adroddwyd bod 20,386 o aelodau o staff y sefydliadau dan sylw (sydd gyfystyr â 42%) yn meddu ar sgiliau ar lefelau rhuglder 1-5. Dylid nodi, fodd bynnag, fod lefelau 1 a 2 yn gyfystyr â sgiliau sylfaenol yn unig.
- 7.9 Gwelwyd diffygion wrth adrodd ar ofynion newydd, penodol. Er enghraifft, mae'n ofynnol i sefydliadau adrodd ar nifer y staff fynychodd gyrsiau hyfforddi yn Gymraeg ynghylch recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, gweithdrefnau cwyno a disgyblu, ymsefydlu, ac iechyd a diogelwch. O'r 22 sefydliad oedd wedi llunio adroddiad blynyddol, naw ohonynt lwyddodd i adrodd yn gywir, gyda 12 naill ai heb adrodd neu heb adrodd yn gywir.⁴⁰
- 7.10 Disgwylir i sefydliadau gynnwys data am asesiadau ieithyddol swyddi gwag a hysbysebwyd ganddynt. Adroddwyd bod gofynion ieithyddol 8,204 o swyddi wedi cael eu hasesu ac yn sgil hynny bod 1,425 swydd (17%) wedi eu categorio fel rhai â'r Gymraeg yn sgil hanfodol; 33 swydd (0.4%) yn gofyn am angen dysgu sgiliau Cymraeg pan benodir a 3,337 swydd (40%) wedi eu categorio fel rhai â'r Gymraeg yn sgil dymunol. Nid oedd angen unrhyw sgiliau Cymraeg ar gyfer 3,409 swydd (41.5%).

⁴⁰ Ar adeg ystyried yr adroddiadau, roedd un o'r 22 sefydliad wedi herio'r safon berthnasol.

- 7.7 21 organisations were able to report on the number of complaints. Of these, 3 noted that they had not received any complaints about the service delivery standards. Ten other institutions noted that they had received five or less complaints; 17 was the maximum number of complaints reported to have been received. No organisation reported that it received any complaints relating to the policy making standards; only one organisation reported that it received complaints about the operational standards. The majority of complaints, 109 of them, related to the service delivery standards and a small number (2) related to the operational standards.
- 7.8 In terms of employee skills, it was reported that a total of 20,386 members of staff of the organisations in question (amounting to 42%) have Welsh language skills fluency levels 1-5. It should be noted that levels 1 and 2 constitute basic skills only.
- 7.9 There were shortcomings in terms of reporting on new, specific requirements. For example, organisations must report on the number of staff attending training courses in Welsh on recruitment and interviewing, performance management, complaints and disciplinary procedures, induction and health and safety. Of the 22 organisations that published an annual report, nine of them reported correctly, 12 either did not report or not doing so accurately.⁴⁰
- 7.10 Organisations are expected to include data on the number of post advertised where an assessment of language skills needed was undertaken. It was reported that 8,204 posts were assessed and that 1,425 posts (17%) were consequently categorised as posts where Welsh language skills were essential; 33 posts (0.4%) required the need to learn Welsh skills on appointment and 3,337 posts (40%) were categorised as posts where the Welsh language was a desirable skill. Welsh language skills were not required for 3,409 posts (41.5%).

⁴⁰ At the time of considering the reports, one of the 22 organisations had challenged the relevant standard.

Rhan 3: Rhaid newid ymddygiad er mwyn hybu a hwyluso'r Gymraeg

Barn y Comisiynydd

Mae'r canfyddiad nad yw siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r iaith wrth ymwneud â sefydliadau cyhoeddus yn hysbys ers blynyddoedd. Un o gryfderau Mesur y Gymraeg yw bod y ddyletswydd i sefydliadau hybu a hyrwyddo defnydd yn mynd law yn llaw â'r angen i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.

Ond, er mwyn gweithredu'r ddyletswydd hon, rhaid i sefydliadau drawsnewid eu hagweddau a'u diwylliant ac mae nifer wedi cychwyn eisoes. Rwy'n cydnabod na fydd modd gwneud hynny dros nos - mae'n golygu gwaith caled er mwyn ennyn hyder siaradwyr Cymraeg a'u cymell i gynyddu defnydd o'r iaith yn eu bywydau bob dydd.

Bwriadaf ddarparu cyngor a hwyluso trafodaeth rhwng sefydliadau er mwyn eu hysgogi i fynd ati'n rhagweithiol i ystyried pa amgylchiadau fyddai'n eu galluogi i argyhoeddi pobl fod modd defnyddio'r Gymraeg, ac na fydd eu profiadau'n llai ffafriol os byddant yn gwneud hynny.

Mae'n gwbl allweddol fod strategaethau hybu effeithiol yn cael eu paratoi a'u gweithredu er mwyn sicrhau y caiff nifer y siaradwyr Cymraeg ei gynnal neu ei gynyddu.

Part 3: Behavioural change is required in order to promote and facilitate the Welsh language

The Commissioner's opinion

The finding that Welsh speakers do not use the language when they deal with public organisations has been known for years. A strength of the Welsh Language Measure is that the duty to promote and facilitate use of the language use goes hand in hand with the need to deliver Welsh language services.

However, in order to put this duty into practice, organisations must transform their attitudes and culture, and a number of them have started to do so. I acknowledge that this is not possible overnight - it will involve hard work in order to build the confidence of Welsh speakers and encourage them to make increasing use of the language in their everyday lives.

It is my intention to provide advice and to facilitate dialogue between organisations in order to encourage them to proactively consider what circumstances will enable them to persuade people that they can use the Welsh language, and that their experiences will be no less favourable should they do so.

It is vital that effective language promotion strategies are prepared and implemented in order to ensure that the number of Welsh speakers is maintained or increased.

- 8.1 Yn ôl ymchwil Cyngor ar Bopeth yn 2015 mae siaradwyr Cymraeg yn awyddus i dderbyn gwasanaethau Cymraeg, ac mae'r awydd hwnnw yn cynyddu.⁴¹ Wedi dweud hynny, mae Llywodraeth Cymru fodd bynnag, yn cydnabod nad yw bodolaeth gwasanaethau Cymraeg ynddo'i hun yn gwarantu y bydd pobl yn eu defnyddio.⁴² Yn y cyd-destun hwn felly mae Mesur y Gymraeg yn gosod dyletswydd ar sefydliadau cyhoeddus i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae'n gosod disgwyliad ar sefydliadau cyhoeddus, nad oedd yn bodoli o angenrheidrwydd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, i'w gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'u hannog i wneud hynny yn eu bywydau bob dydd.
- 8.2 Amlygir pa mor ganolog yw hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg wrth weithredu'r safonau yn y diffiniadau canlynol ym Mesur y Gymraeg:

... ystyr "safon cyflenwi gwasanaethau" yw safon sy'n ymwneud â gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau, ac y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg, neu weithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, pan gyflawnir y gweithgaredd hwnnw.

... ystyr "safon gweithredu" yw safon sy'n ymwneud â swyddogaethau, neu fusnes neu ymgymeriad arall [sefydliad] [...] y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg.⁴³

⁴¹ Hefyd ar gael yn Gymraeg: deall y defnydd a'r diffyg defnydd o wasanaethau Cymraeg, Cyngor ar Bopeth, 2015.

⁴² Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Llywodraeth Cymru, 2017.

⁴³ Adran 28, 30 a 31 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Llywodraeth Cymru.

- 8.1 According to research conducted by Citizens Advice in 2015 Welsh speakers are eager to receive services through the medium of Welsh and their desire is increasing.⁴¹ Having said that, the Welsh Government acknowledges that the existence of Welsh language services does not guarantee that people will use them and the Welsh Language Measure⁴², in this context, imposes a duty on public organisations to promote and facilitate the use of the Welsh language. It places an expectation on public organisations that did not necessarily exist under the Welsh Language Act 1993, to make it easier for people to use Welsh and to encourage them to do so in their everyday lives.
- 8.2 The following definitions in the Welsh Language Measure highlight how central the promotion and facilitation of the use of the Welsh language is in implementing the standards:

... "service delivery standard" means a standard that relates to a service delivery activity, and is intended to promote or facilitate the use of the Welsh language, or to work towards ensuring that the Welsh language is treated no less favourably than the English language when that activity is carried out.

... "operational standard" means a standard that relates to the functions, or business or other undertaking [of an organisation] [...] intended to promote or facilitate the use of the Welsh language.⁴³

⁴¹ English by default: understanding the use and non-use of Welsh language Services, Citizens Advice 2015.

⁴² Cymraeg 2050: A million Welsh speakers, Welsh Government, 2017.

⁴³ Section 28, 30 and 31 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011, Welsh Government.

Cyn gallu hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg, mae angen i sefydliadau wella'u dealltwriaeth o'r rhesymau pam y mae cyfran sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn dewis peidio â defnyddio'r iaith wrth ymwneud â hwy

Mi faswn i wrth fy modd tasa fo'n llai o ymdrech.

Yn y swyddfa bost, maen nhw'n gofyn 'Dach chi isho fo'n Gymraeg neu'n Saesneg' ac mae pobl yn deud 'Saesneg' oherwydd mae'r Gymraeg yn ormod o waith, dydi pobl ddim yn ei ddallt o.

Ma'n hynod o ddiddorol fod 'na siaradwyr Cymraeg yn fodlon derbyn tystysgrifau Saesneg. Un o'r pethau sy'n hanfodol ydi bod plant yn cael eu dysgu yn yr ysgol sut i ddefnyddio'r Gymraeg - sut i ddefnyddio twll yn y wal; sut i lenwi ffurflenni - trio dangos ei fod o yn rw bath sydd yn ddi-rwystr.

Nid ni sydd i fod yma heddiw naci, ond y bobl sydd yn gwasgu'r botwm Saesneg yn y twll yn wal, sydd yn llenwi'r ffurflen yn Saesneg - ac i fi y broblem sydd ganddon ni ydi sut ydan ni'n perswadio'r Cymry yna ddyla fod yn defnyddio gwasanaethau yn Gymraeg.

Bydde fe'n rili neis os bydde Cymry i gyd yn mynd mewn i siop ac yn dechre sgwrs yn Gymraeg, wedyn os nad y'n nhw'n siarad Cymraeg, troi i'r Saesneg. Ond na beth mae'r bathodyn laith Gwaith 'na ambyti ondife, mae angen e am bod pobl ddim yn neud hwnna.



Ffynhonnell: Grwpiau trafod Comisiynydd y Gymraeg 2016

Before being able to promote the use of the Welsh language, organisations must improve their understanding of the reasons why a significant proportion of Welsh speakers choose not to use the language in their dealings with them

I would love to if it was less of an effort.

In the post office, they ask 'Do you want it in Welsh or English' and people say 'English' because the Welsh is too much work, people don't understand it.

It's very interesting that Welsh speakers are willing to accept English language certificates. One of the most important things is that children are taught in school how to use their Welsh - how to use the cashpoint; how to fill in a form - try and show that it's something hassle-free.

It shouldn't be us here today, but those people who select the English option at the cashpoint, those who fill in the form in English - for me the problem we have is how do we persuade those Welsh speakers of why they should be using Welsh language services.

It would be really nice if all the Welsh speakers went into the shop and started their conversations in Welsh, and then if they didn't speak Welsh there, turn to English. But that's what that laith Gwaith badge is all about isn't it, we need it because people don't do that.



Source: The Welsh Language Commissioner's discussion groups 2016

- 8.3 Mae sawl arolwg diweddar wedi dangos bod cyfran sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn dewis peidio â defnyddio'r iaith wrth ymwneud â sefydliadau cyhoeddus, ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod nifer o ffactorau'n dylanwadu ar eu dewis iaith wrth ddefnyddio gwasanaethau. Mae'r sylwadau a wnaed yn ystod sgysiau yng ngrwpiau trafod y Comisiynydd yn datgelu cymaint o wahanol ffactorau sy'n dylanwadu ar arferion siaradwyr Cymraeg a bod eu newid yn mynd i fod yn broses hir a heriol.⁴⁴
- 8.4 34% o'r siaradwyr Cymraeg a holwyd fel rhan o'r Arolwg Omnibws oedd yn dymuno delio â sefydliadau cyhoeddus yn Gymraeg mewn sefyllfaoedd megis ffonio'r cyngor sir, derbyn gwasanaethau iechyd neu dderbyn gwybodaeth gan asiantaethau'r llywodraeth. Er hynny, roedd 97% ohonynt yn datgan eu bod yn meddwl ei bod yn bwysig cael hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg. Maent felly'n cefnogi bodolaeth gwasanaethau Cymraeg mewn egwyddor, ac yn falch eu bod ar gael, ond nid ydynt o reidwydd yn barod i'w defnyddio. Mae'r gyfran yn gyson â chanfyddiadau arolwg 2015-16 pan nododd 32% o siaradwyr Cymraeg mai'r Gymraeg fyddai'n well ganddynt ei defnyddio wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus.
- 8.5 Yn 2014-15 gofynnodd Arolwg Cenedlaethol Llywodraeth Cymru a fyddai'n well gan bobl gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg ynteu'r Saesneg â staff iechyd a gofal cymdeithasol. O'r 1,600 o siaradwyr Cymraeg a oedd yn rhan o'r arolwg, 17% ohonynt a nododd mai'r Gymraeg oedd eu dewis iaith wrth ymwneud â'r gwasanaeth, a nododd 19% y byddent yn dewis y naill iaith neu'r llall. Saesneg oedd dewis iaith 64% o siaradwyr Cymraeg wrth ymwneud gyda staff y sector iechyd neu ofal cymdeithasol.⁴⁵
- 8.6 Gofynnwyd i ymatebwyr hefyd a oeddent wedi defnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu â staff iechyd neu staff gofal cymdeithasol yn ystod y 12 mis diwethaf. Canfu'r arolwg mai 31% oedd wedi gwneud hynny yn ystod y 12 mis diwethaf.
- 8.7 Mae sylwadau aelodau grwpiau trafod y Comisiynydd yn 2016-17 yn rhoi cipolwg o ba mor niferus yw'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis siaradwyr Cymraeg wrth benderfynu ar ddewis iaith wrth ymwneud â sefydliadau cyhoeddus. Mae'r sylwadau'n amlygu bod angen i sefydliadau gymryd camau ymarferol i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg os ydynt am gynyddu defnydd o'r iaith.

⁴⁴ Arolwg Omnibws Siaradwyr Cymraeg Beaufort Research 2017; Arolwg Defnydd Iaith Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru 2013-14; Arolwg Cenedlaethol Llywodraeth Cymru 2014-15

⁴⁵ Arolwg Cenedlaethol Llywodraeth Cymru 2014-15

- 8.3 A number of recent surveys have shown that a significant proportion of Welsh speakers choose not to use the language in their dealings with public organisations and evidence suggests that there are a number of factors that influence their language choice when using services. The comments made during conversations in the Commissioner's discussion groups reveal that the different factors influencing the habits of Welsh speakers are numerous, and that changing habits is going to be a long and challenging process.⁴⁴
- 8.4 34% of Welsh speakers surveyed as part of the Omnibus Survey said that they wished to deal with public organisations through the medium of Welsh in situations such as telephoning the county council, receiving health services or receiving information from government agencies. However, 97% stated that they thought rights to use the Welsh language were important. They therefore support the existence of Welsh language services in principle and are glad that they are available, but they aren't prepared to use them. This proportion is consistent with the findings of the 2015-16 survey when 32% of Welsh speakers said that they prefer using Welsh when dealing with public organisations.
- 8.5 In 2014-15, the Welsh Government's National Survey for Wales asked whether people preferred to communicate with health and social care staff through the medium of Welsh or English. Of the 1,600 Welsh speakers surveyed, 17% of them stated that their chosen language when dealing with the service is Welsh, and 19% noted that they would choose either language. English was the chosen language of 64% of Welsh speakers when dealing with health or social care sector staff.⁴⁵
- 8.6 Respondents were also asked whether they had used Welsh to communicate with health or social care staff during the past 12 months. The survey found that 31% had done so during the past 12 months.
- 8.7 Comments from members of the Commissioner's discussion groups in 2016-17 provide an insight to the many factors that influence the choice of Welsh speakers when deciding on language choice in their dealings with public organisations. The comments highlight that there is a need for organisations to take practical steps to promote and facilitate the use of Welsh if they are to increase people's use of the Welsh language.

⁴⁴ Beaufort Research Omnibus Survey of Welsh Speakers 2017; Welsh Language Use Survey, Welsh Language Commissioner and the Welsh Government, 2013-15; National Survey for Wales, Welsh Government 2014-15.

⁴⁵ 2014-15 National Survey for Wales, Welsh Government.

Ma rhywun yn meddwl 'O dwi'n bod chydig bach o niwsans yn fan hyn... nai neud o'n Saesneg...'

Rhaid i rywun fynd allan o'i ffordd i gael gwasanaeth Gymraeg.

Pan ydych chi'n ffonio am rhywbeth, chi eisiau ateb i'r cwestiwn ar unwaith heb oedi.

Weithiau rydych chi'n ffonio'r llinell Gymraeg, ac mae'r person sy'n ateb yn siarad Cymraeg, ond hanner munud i mewn i'r sgwrs maen nhw'n deud 'Dwi ddim yn ddigon hyderus i ddelio efo'r alwad yn Gymraeg'. Dydi'r staff ddim i weld yn cael digon o hyfforddiant a chefnogaeth i allu gweithio yn Gymraeg.

Mae fel petai popeth yn frwydr. Dwi'n gwybod cyn codi'r ffôn 'mod i'n mynd i gael trafferth.

Mae plant yn siarad Saesneg yn gyntaf i ofyn am rywbeth yn y siop... a fi o hyd yn gofyn iddyn nhw pam wnaethon nhw hynny.

Fi'n trial darllen cyhoeddiadau'r corff yn Gymraeg, ond mae'r iaith yn rhy ffurfiol.



Fynhonnell: Grwpiau trafod Comisiynydd y Gymraeg 2016

One tends to think 'Oh I'm being a bit of a nuisance here... I'll do it in English...'

One has to go out of one's way to get a Welsh language service.

When you phone up for something, you want an answer to the question straight away without delay.

Sometimes you phone the Welsh language line, and the person who answers speaks Welsh, but thirty seconds into the conversation they say 'I'm not confident enough to deal with the call in Welsh'. Staff don't seem to be getting enough training and support to work through the medium of Welsh.

It's as if everything is a battle. I know before picking up the phone that I'm going to have trouble.

Children speak English first to ask for something in the shop... and I always ask them why they do that.

I try to read the organisation's publications in Welsh, but the language is too formal.



Source: The Welsh Language Commissioner's discussion groups 2016

8.8 Cadarnhaodd gwaith ymchwil Cyngor ar Bopeth yn 2015 fod amrywiaeth gymhleth o resymau sy'n effeithio ar y defnydd presennol o wasanaethau Cymraeg:

- 'Byddem yn dadlau bod yna rwystrau strwythurol i sut mae sefydliadau yn cynllunio, yn darparu ac yn hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg, sy'n golygu yn aml ei bod yn anoddach defnyddio'r gwasanaethau hyn a'u bod yn llai amlwg na'r ddarpariaeth Saesneg.
- 'Fodd bynnag, mae rhwystrau ymddygiad yn effeithio ar pam y mae siaradwyr Cymraeg yn defnyddio, neu'n peidio â defnyddio, gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli. Mae'r rhwystrau hyn yn seiliedig ar sut y mae siaradwyr Cymraeg yn defnyddio ac yn ystyried eu Cymraeg, eu canfyddiadau o wasanaethau Cymraeg, a'u profiadau blaenorol o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg.
- 'Mae'n bwysig nodi bod rhwystrau strwythurol a rhwystrau ymddygiad yn ategu ac yn dylanwadu ar ei gilydd yn aml.⁴⁶

8.9 Gofynnodd Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru i 5,500 o siaradwyr Cymraeg a oeddent yn ceisio defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus. 27% o'r siaradwyr Cymraeg rhugl oedd bob amser yn ceisio defnyddio'r Gymraeg, 26% yn ceisio ei defnyddio fel arfer a 26% yn defnyddio'r iaith weithiau. Pan ofynnwyd i'r rhai a oedd yn ceisio defnyddio'r Gymraeg (i ba bynnag raddau) pa mor aml yr oeddent yn llwyddo i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus, 64% ohonynt oedd yn llwyddo unai bob amser, bron bob amser, neu fel arfer.⁴⁷

8.10 Fel y tystia'r adroddiad hwn, mae cynnydd o safbwynt argaeledd ac ansawdd gwasanaethau cyhoeddus Cymraeg ers i sefydliadau fabwysiadu cynlluniau iaith Gymraeg ac ers iddynt ddechrau gweithredu safonau'r Gymraeg. Beth felly sydd i gyfrif, y tu hwnt i ddiffyg darpariaeth, am y gyfran isel o siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg? Oes gan sefydliadau ddealltwriaeth o natur y rhwystrau sy'n golygu nad yw pobl yn defnyddio'r gwasanaethau sydd eisoes yn cael eu darparu ganddynt yn Gymraeg?

⁴⁶ Hefyd ar gael yn Gymraeg: deall y defnydd a'r diffyg defnydd o wasanaethau Cymraeg, Cyngor ar Bopeth, 2015
⁴⁷ Arolwg Defnydd Iaith Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg 2013-15

8.8 The research by Citizens Advice in 2015 confirmed that there is a complex variety of reasons that influence the current use of Welsh language services:

- 'We would argue there are structural barriers in the way organisations design, deliver and promote their Welsh language services, often meaning that these services can be more difficult to access and less visible than English language provision.
- 'However there are also behavioural barriers, in the way Welsh speakers use and view their Welsh, their perceptions of Welsh language services, and their past experiences of using Welsh language services that impact on why they use or do not use existing services'
- Importantly, both structural and behavioural barriers often exist together and influence one another⁴⁶

8.9 The Welsh Language Commissioner and the Welsh Government's Language Use Survey 2013-15 asked 5,500 Welsh speakers whether they tried to use the Welsh language when dealing with public organisations. 27% of fluent Welsh speakers said they always tried to use the Welsh language, 26% said they tried using the Welsh language usually and 26% sometimes tried to use the language. When asked how often they were successful in using Welsh with public organisations, 64% of those who said they tried to use Welsh (to any extent) said that they were successful either every time, almost every time or usually.⁴⁷

8.10 As this report shows, there has been an increase in the availability and quality of Welsh language public services since organisations adopted Welsh language schemes and since implementing the Welsh language standards. So, beyond lack of provision, what is the reason for the low take-up of Welsh language services by fluent Welsh speakers? Do organisations understand the nature of the barriers that prevent people from using services that are already available in Welsh?

⁴⁶ English by default: Understanding the use and non-use of Welsh language services, Citizens Advice 2015.
⁴⁷ The Welsh Language Use Survey, The Welsh Language Commissioner and the Welsh Government 2013-15.

8.11 Adroddwyd yn helaeth yn adroddiad sicrwydd y Comisiynydd yn 2015-16 am brofiadau pobl o orfod gwneud mwy o ymdrech, neu ddwyn perswâd ar sefydliadau i gyflenwi gwasanaethau, neu orfod aros yn hirach wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Mae sylwadau aelodau o grwpiau trafod y Comisiynydd yn 2016 yn cadarnhau bod profiadau felly yn parhau - mae'r sylwadau'n ategu'r ddamcaniaeth fod siaradwyr Cymraeg, er eu bod yn dymuno derbyn gwasanaeth yn Gymraeg, ac mai dyna fyddai orau ganddynt, yn penderfynu defnyddio'r gwasanaeth yn Saesneg.

8.12 Mae'r Arolwg Omnibws yn cadarnhau bod profiadau blaenorol o dderbyn gwasanaethau diffygiol yn rhwystr. Rhestrwyd y ffactorau canlynol pan ofynnwyd i siaradwyr Cymraeg nodi pa newidiadau fyddai'n eu gwneud yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus yn y dyfodol:

Byddwn yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau yn Gymraeg ...

- pe bawn i'n gwybod bod y gwasanaethau Cymraeg ar gael bob tro
- pe bawn i'n gwybod eu bod ar gael
- pe bawn i'n cael dewis
- pe bai'r dewis yn cael ei wneud yn glir i mi
- pe baen nhw'n cychwyn y sgwrs yn Gymraeg
- ar ôl gwella fy hyder i siarad Cymraeg gan nad ydw i'n ddigon rhugl
- pe bai'r iaith yn llai ffurfiol a mwy naturiol
- pe na bawn i'n cael trafferth deall acen ogleddol/deheuol weithiau
- pe bai'n haws
- pe bai'r gwasanaeth ar gael yn gynt
- pe baent yn cael eu hysbysebu
- pe baent o safon well - dydi gwasanaethau Cymraeg sy'n cael eu cynnig ddim o safon uchel

8.11 The Welsh Language Commissioner's 2015-16 assurance report reported in detail on the experience of people having to make more of an effort, or trying to persuade organisations to provide services, or having to wait longer when using the Welsh language. Comments made by members of the Commissioner's discussion groups in 2016 confirm that such experiences continue - comments underline the idea that Welsh speakers, although they wish to receive services through the medium of Welsh, and that this is their preferred option, still decide to use the English language service.

8.12 The Omnibus Survey confirms that previous experiences of receiving deficient services are a barrier. When asked which changes would make them more likely to use public organisations' Welsh language services in future, Welsh speakers noted the following factors:

I would be more likely to use Welsh language services...

- if I knew that Welsh language services were going to be available every time
- if I knew they were available
- if I was given a choice
- if the choice was made clear to me
- if they started the conversation in Welsh
- after I improve my confidence in speaking Welsh as I'm not fluent enough
- if the language was less formal and more natural
- if I didn't have trouble understanding a northern/southern accent sometimes
- if it was easier
- if the service was available quicker
- if they were advertised
- if they were of better quality - the Welsh language services offered are not of a high quality

Er mwyn creu cwsmeriaid ar gyfer gwasanaethau Cymraeg rhaid i sefydliadau wneud mwy na hysbysu pobl eu bod ar gael - rhaid iddynt eu marchnata'n ddeallus ac argyhoeddi pobl eu bod am lwyddo i ddiwallu eu hanghenion

- 9.1 Un peth yw hysbysu dinasyddion bod modd defnyddio'r Gymraeg, peth arall yw gwneud iddynt deimlo'n ddigon hyderus i wneud hynny.
- 9.2 Mae sylwadau gan siaradwyr Cymraeg yn ystod grwpiau trafod y Comisiynydd yn cadarnhau eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio'r iaith os yw'r sefydliad yn ymddwyn yn rhagweithiol. Awgryma'r sylwadau hefyd fod angen o hyd i rai o'r prif sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru ddeall pwysigrwydd cynnig gwasanaethau'n rhagweithiol gan eu bod ar hyn o bryd yn colli cyfle i hybu defnydd o'r Gymraeg.

Mae clywed Cymraeg yn gyntaf yn rhoi hyder i fi siarad Cymraeg o'r dechrau.

Mae gweld bathodyn yn gwneud chi'n fwy hyderus i ddechrau sgwrs yn Gymraeg neu i fod isio gwasanaeth Cymraeg. Os dydi'r gwasanaeth Cymraeg ddim yn eich wyneba chi, wnewch chi ddim mynd amdano fo.

I fi gael tocyn parcio i staff lle fi'n gweithio, roedd ffurflen i lenwi ac mewn llinell fach ar y gwaelod, roedd e'n gwneud, os o'ch chi am gael y ffurflen yn Gymraeg, o'dd rhaid gwneud cais arbennig - yn lle bo nhw'n rhoi ffurflen ddwyieithog i ni. Trafferth yw, roedd nifer o'r staff yn siarad Cymraeg ond doedd neb yn mynd i fynd i'r drafferth o gysylltu. Es i i'r drafferth, ac yn y diwedd ges i daflen Gymraeg.

In order to create customers for Welsh language services, organisations must do more than simply telling people they exist - they must market them intelligently and persuade people that their needs will be met

- 9.1 It is one thing to inform citizens that they can use the Welsh language, building their confidence to do so is another matter.
- 9.2 Comments from Welsh speakers during the Commissioner's discussion groups confirm that they are more likely to use the language if organisations are more proactive. The comments also suggest that some of the main public organisations in Wales are yet to understand the importance of the active offer of services because at the moment they are missing an opportunity to promote the use of Welsh.

Hearing Welsh first gives me confidence to speak Welsh from the start.


Seeing a badge makes you more confident to start the conversation in Welsh or to want to use the Welsh language service. If the Welsh language service isn't there in your face, you won't go for it.

For me to get a staff parking permit where I work, I had to fill in the form and in the small print at the bottom, it said, if you want the form in Welsh, you had to make a special request - instead of them giving us a bilingual form. The problem is, a number of staff speak Welsh, but nobody wanted to go to the trouble of asking. I went to the trouble, and in the end, got a Welsh form.



Ffynhonnell: Grwpiau trafod Comisiynydd y Gymraeg 2016

- 9.3 Yn ogystal â buddsoddi mewn gwasanaethau Cymraeg a bod yn barod i'w cynnig, mae Llywodraeth Cymru o'r farn:
- fod angen i ddarparwyr wybod sut i helpu i gynyddu'r defnydd a wneir ohonynt;
 - bod gofyn cael marchnata deallus;
 - bod angen i ddarparwyr gymryd cyfrifoldeb i gynllunio gwasanaethau mewn ffordd sy'n diwallu anghenion y cwsmer.



Source: The Welsh Language Commissioner's discussion groups 2016

- 9.3 As well as investing in Welsh language services and being ready to offer them, the Welsh Government is of the view that:
- providers need to know how to facilitate their increased use;
 - this demands intelligent marketing;
 - the onus is on the provider to design services in a way which is geared to the needs of the customer.

Mae o'r farn y bydd dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y cwsmer yn gofyn am ffyrdd newydd a gwahanol o weithio ynghyd â newid mewn agwedd, er mwyn denu a meithrin sylfaen gynyddol o gwsmeriaid ar gyfer gwasanaethau Cymraeg.⁴⁸

- 9.4 Mae aelodau o grwpiau trafod y Comisiynydd wedi datgan yr un farn yn ystod 2016-17: bod gweithredu'r cynnig rhagweithiol yn golygu llawer mwy na darparu gwybodaeth am fodolaeth gwasanaethau. Mae'n golygu creu amgylchedd lle bydd y dinesydd yn hyderus fod y dewis iaith sy'n cael ei gynnig yn un go iawn ac y caiff ei anghenion eu diwallu petai'n dewis defnyddio'r Gymraeg.

Mae angen normaleiddio defnyddio'r Gymraeg - mae'r Cyngor Sir wedi cael eu canmol tipyn bach heddiw ond y broblem yw, tu ôl i'r llenni, so nhw'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar ddiwedd y dydd rhaid cael y diwylliant iawn. Ar ôl gweithio i gyngor sir yr holl flynyddoedd, erbyn hyn lle mae'r Gymraeg yn y cwestiwn does 'na ddim rhwystrau o gwbl. Mae pawb jest yn ei dderbyn o. Mae eisiau creu'r diwylliant priodol - dyna'r unig beth sydd yn mynd i symud petha ymlaen.

Wrth ffonio'r ysbyty dwi'n deud 'Bore da'; mae'r derbynnydd yn dweud 'Bore da'. Ond wedyn wrth gario mlaen i siarad Cymraeg maen nhw'n ateb 'Dan ni wedi cal gorchymyn i ddeud 'Bore da' wrth gwsmeriaid er mwyn ein bod yn ffitio hefo'r rheolau'.



⁴⁸ Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Llywodraeth Cymru, 2017 (t.53).

It is of the view that this customer-focused approach will require new and different methods, and a change in mindset, in order to attract and nurture a growing customer base for Welsh-language services.⁴⁸

- 9.4 Members of the Commissioner's discussion groups have voiced the same views during 2016-17: that implementing the active offer means much more than providing information on the existence of services. It means creating an environment where the citizen is confident that the language choice offered is a real one, and that their needs will be met if they choose to use the Welsh language.

We need to normalise the use of Welsh - the County Council has been praised a little today, but the problem is behind the scenes, they don't work through the medium of Welsh.

At the end of the day, we must get the culture right. After working for the county council for many years, where Welsh is in the question there are no barriers at all. Everyone just accepts it. We need to create the proper culture - that's the only thing that will take things forward.

When phoning the hospital, I say 'Bore da'; the receptionist says, 'Bore da'. But then when I go on to speak Welsh they say, 'We've been told to say 'Bore da' to customers so that we comply with the rules'.



⁴⁸ Cymraeg 2050: A million Welsh speakers, Welsh Government, 2017 (p.53).

Dwi'n meddwl ar ddiwedd y dydd bod angen normaleiddio, hwnna sydd ddim yn bodoli mewn ffordd, a ma hwnna'n dibynnu lot ar ddiwylliant.

Mae angen i'r arweinyddiaeth fod yn iawn fel bod diwylliant y sefydliad yn galluogi gwasanaethau Cymraeg i gael eu cynnig.

Ffynhonnell: Grwpiau trafod Comisiynydd y Gymraeg 2016

- 9.5 Cynhaliwyd arolwg gan y Comisiynydd o weithgareddau'r 26 sefydliad cyhoeddus sy'n gweithredu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 i godi ymwybyddiaeth o'u gwasanaethau Cymraeg. Ni lwyddodd cyfran helaeth o'r sefydliadau a arolygwyd, 77% ohonynt, i gynnig enghraifft o weithgareddau a dulliau rhagweithiol o hybu a hysbysebu gwasanaethau Cymraeg.⁴⁹

⁴⁹ Safon 82, sefydliadau sy'n gweithredu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1 2015)

I think at the end of the day we need to normalise, this doesn't happen really, this depends a lot on culture.

The leadership must be right so that the organisational culture can enable Welsh language services to be offered.


Source: The Welsh Language Commissioner's discussion groups 2016

- 9.5 The Commissioner conducted a survey of the activities of the 26 public organisations implementing the Welsh Language Standards (No.1) Regulations 2015 in raising awareness of their Welsh language services. A large proportion of the organisations reviewed, 77%, could not provide examples of activities and proactive methods of promoting and advertising Welsh language services.⁴⁹

⁴⁹ Standard 82, organisations implementing the Welsh Language Standards (No.1) Regulations 2015

- 9.6 Gwnaed sylw gan aelod o grŵp trafod bod angen i sefydliadau ystyried beth sy'n mynd i ysgogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith ac y dylent ragosod dewis iaith fel Cymraeg er mwyn dwyn perswâd ar ragor o siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r gwasanaethau.:

Cymraeg ddylai'r 'default' fod, nes mae rhywun yn dewis fel arall.




- 9.7 Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu defnydd o'r iaith erbyn 2050 hefyd yn cydnabod pa mor allweddol yw'r cynnig rhagweithiol. Nodir ei bod yn hollbwysig nad oes unrhyw beth yn rhwystro pobl rhag derbyn gwasanaethau yn Gymraeg. Nodir bod angen i ddarparwyr gwasanaethau fynd ati'n rhagweithiol i gynnig y Gymraeg a bod gwasanaethau Cymraeg ar gael yn eang ac o ansawdd cyfatebol i'r hyn a gynnigir yn Saesneg:

Yn ogystal â buddsoddi mewn gwasanaethau Cymraeg a bod yn barod i'w cynnig, mae angen i ddarparwyr wybod sut i helpu i gynyddu'r defnydd a wneir ohonynt. Mae gofyn cael marchnata deallus i wneud hyn, a rhoi'r cyfrifoldeb ar y darparwyr i gynllunio gwasanaethau mewn ffordd sy'n diwallu anghenion y cwsmer. Bydd y dull gweithredu hwn sy'n canolbwyntio ar y cwsmer yn gofyn am ffyrdd newydd a gwahanol o weithio ynghyd â newid mewn agwedd, er mwyn denu a meithrin sylfaen gynyddol o gwsmeriaid ar gyfer gwasanaethau Cymraeg.⁵⁰

⁵⁰ Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Llywodraeth Cymru, 2017

- 9.6 One discussion group member commented that organisations needed to consider what would encourage Welsh speakers to use the language and that they should set Welsh as the default in order to persuade more Welsh speakers to use Welsh language services:

Welsh should be the default, until someone chooses differently



- 9.7 The Welsh Government's strategy for increasing the use of Welsh by 2050 also acknowledges the importance of the active offer. It notes that it is essential that there are no barriers to receiving services in Welsh. It also notes that service providers must ensure that Welsh language services are offered proactively, are widespread and of an equal quality to those offered in English:

As well as investing in and proactively offering Welsh-language services, providers also need to know how to facilitate their increased use. This demands intelligent marketing, with the onus on the provider to design services in a way which is geared to the needs of the customer. This customer-focused approach will require new and different methods, and a change in mindset, in order to attract and nurture a growing customer base for Welsh-language services.⁵⁰

⁵⁰ Cymraeg 2050: A million Welsh speakers, Welsh Government, 2017.

Mae'n allweddol fod strategaethau hybu'n cael eu paratoi a'u gweithredu er mwyn sicrhau y caiff nifer y siaradwyr Cymraeg ei gynnal neu ei gynyddu

- 10.1 Pennwyd gofynion pellach i hybu'r Gymraeg ar gynghorau sir ac awdurdodau parciau cenedlaethol a hynny drwy bennu dosbarth ychwanegol o safonau ar eu cyfer. Mae'r 'safonau hybu' yn gosod dyletswydd ar sefydliadau i lunio a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut maent yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eu hardaloedd.⁵¹
- 10.2 Rhaid i'r strategaethau hybu gynnwys targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw a chynnwys datganiad sy'n esbonio sut mae'r sefydliad yn bwriadu cyrraedd y targed.⁵²
- 10.3 Cynhaliwyd arolwg gan y Comisiynydd yn ystod Chwefror a Mawrth 2017 er mwyn casglu gwybodaeth ynghylch y graddau y mae'r cynghorau sir ac awdurdodau parciau cenedlaethol cyhoeddus yn llwyddo i gyflawni'r hyn sy'n ofynnol. Mae'r safonau perthnasol wedi eu gosod ar 25 o sefydliadau cyhoeddus, ond gan fod pedwar sefydliad wedi unai herio'r safon neu nad oedd yn ofynnol iddynt gyhoeddi strategaeth erbyn dyddiad cynnal yr arolwg, 21 o sefydliadau gafodd eu cynnwys yn yr arolwg.⁵³
- 10.4 Cyhoeddwyd strategaeth hybu ar wefan 15 o'r 21 sefydliad, er bod statws drafft yn perthyn i bedair ohonynt yn ystod cyfnod yr arolwg. Roedd tri chynghor sir wedi cyhoeddi strategaeth cyn diwrnod gosod y safonau gan eu bod eisoes yn cynllunio'n strategol. Adroddwyd gan y sefydliadau eraill mai prosesau cymeradwyo yn bennaf oedd yn gyfrifol am y ffaith na chyhoeddwyd eu strategaeth mewn pryd.
- 10.5 O'r 15 strategaeth a gyhoeddwyd, naw ohonynt oedd yn pennu targed ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal ac roeddent yn amrywio o bennu cynnydd o 0.5% i fwy na 5%. O'r strategaethau nad oedd wedi cynnwys targed ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal, roedd dwy yn pennu targedau ar gyfer carfannau penodol o'r boblogaeth megis plant oed ysgol a gweithlu'r cynghor sir. Bwriad i gynyddu, yn hytrach na chynnal, nifer y siaradwyr Cymraeg sydd felly i'w cael ymhob un o'r 11 strategaeth lle ceir targed.

⁵¹ Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 sy'n pennu safonau ar gyfer Gweinidogion Cymru, cynghorau sirol ac awdurdodau parciau cenedlaethol.

⁵² Safon 145, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

⁵³ Mae rhestr o'r sefydliadau cyhoeddus a gafodd eu cynnwys yn yr arolwg yn Atodiad 2. Er bod safon 145 a 146 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 wedi eu cynnwys yn hysbysiadau cydymffurfio pob cynghor sir ni chafodd pedwar cynghor eu cynnwys oherwydd eu bod unai wedi herio'r safon neu bod y diwrnod gosod heb basio ar adeg cynnal yr arolwg.

It is vital that effective language promotion strategies are prepared and implemented in order to ensure that the number of Welsh speakers is maintained or increased

- 10.1 Further requirements to promote the Welsh language were specified for county councils and national park authorities by means of an additional set of standards. 'Promotion standards' require organisations to prepare and publish a 5-year strategy explaining how they intend to promote the Welsh language and facilitate the use of Welsh more widely in their areas.⁵¹
- 10.2 The promotion strategies must include a target to increase or maintain the number of Welsh speakers in the area by the end of the 5-year period and include a statement explaining how the organisation intends to meet the target.⁵²
- 10.3 During February and March 2017, the Commissioner conducted a survey in order to gather information on the degree to which the county councils and the national park authorities had succeeded in achieving these requirements. The relevant standards have been imposed on 25 public organisations, but due to the fact that four had either challenged the standard or they were not required to publish the strategy by the date of the survey, only 21 were included.⁵³
- 10.4 A promotion strategy was published on the website of 15 of the 21 organisations, with draft status attached to four of them at the time of the survey. Three county councils had published a strategy before the standards' imposition day as they had already undertaken their own process of strategic planning. The other organisations reported that the main reason for the delay in publishing their strategies was their approval procedures.
- 10.5 Of the 15 strategies published, nine of them included a target for the number of Welsh speakers in the area. These targets varied from specifying an increase of 0.5%, to more than 5%. Of those strategies that did not include a target for the number of Welsh speakers in the area, two strategies set targets for specific groups within the population, such as school age children and the county council's workforce. In the 11 strategies that include a target, the intention is to increase, rather than maintain, the number of Welsh speakers.

⁵¹ The Welsh Language Standards (No.1) Regulations 2015 specify standards for Welsh Ministers, county councils and national park authorities.

⁵² Standard 145 of the Welsh Language Standards (No. 1) Regulations 2015

⁵³ A list of the public bodies included in the survey is provided in Appendix 2. Although standards 145 and 146 of the Welsh Language Standards Regulations (No.1) 2015 were included in every county council's compliance notice, four councils were omitted from the survey due to the fact that they had either challenged the standard or the imposition day had not passed at the time of the survey.

-
- 10.6 Roedd dwy strategaeth a luniwyd i ymateb i heriau penodol Cyfrifiad 2011 yn ardaloedd y cynghorau sir yn cydnabod yr angen i gynyddu defnydd, trosglwyddiad, a chaffael iaith. Er nad ydynt wedi pennu targed meintiol penodol, maent yn cynnwys rhaglen waith fanwl er mwyn hybu a hwyluso defnydd yn ehangach. Mae ynddynt hefyd waelodlin fanwl o ddemograffeg a defnydd y Gymraeg ac felly mae gallu gan y sefydliadau hyn i bennu targed meintiol ystyrllon ar sail cynnwys eu strategaethau.
- 10.7 O'r ddwy strategaeth arall mae'r naill yn cydnabod yr angen 'i gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol', ond nid yw'n ymhelaethu, a'r llall yn ddogfen sy'n nodi'r angen am waith mapio cyn y gellir sefydlu gwaelodlin.
- 10.8 Roedd pob un o'r 15 strategaeth yn cynnwys esboniad o'r modd yr oedd y sefydliadau'n bwriadu hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, ond roeddent yn amrywio o ran trylwyredd.
- 10.9 Wrth ystyried sut mae'r sefydliadau yn egluro sut y bydd modd iddynt asesu graddau llwyddiant ymhen pum mlynedd, 11 sefydliad sydd wedi cynnwys gwaelodlin yn sylfaen i fesur cynnydd yn ei erbyn. Er mai ffigyrau Cyfrifiad 2011 ddefnyddir gan fwyaf, mae sawl corff yn cydnabod na fydd ffigyrau Cyfrifiad 2021 ar gael fel ffon fesur ar ddiwedd y cyfnod 5 mlynedd ac y bydd angen adnabod dangosyddion gwahanol a ffynonellau data eraill. Nid oedd tair strategaeth wedi pennu unrhyw ddangosyddion meintiol neu fethodoleg i fonitro cynnydd.
- 10.10 Canfu'r arolwg fod y strategaethau'n amrywio o ran eu huchelgais i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Cynnydd yn nifer y disgyblion ysgol sy'n derbyn addysg Gymraeg yw'r prif fodd o gyflawni'r targedau ymhob strategaeth, er bod sefydliadau hefyd yn pennu cynnydd yn nifer y rhai sy'n dysgu Cymraeg yn y gymuned ac yn y gweithlu, cynnydd o ran trosglwyddo'r iaith yn y cartref, a thwf naturiol y boblogaeth mewn rhai ardaloedd.
- 10.11 Mae 14 o'r 15 strategaeth a gyhoeddwyd yn cynnwys amcanion strategol, targedau neu gynlluniau gweithredu sy'n amlinellu gweithgaredd hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach. Maent yn amrywio'n fawr o ran manylder ac felly rhagwelir ar ddiwedd cyfnod y strategaeth y bydd ansawdd y dystiolaeth i alluogi asesu cydymffurfedd y sefydliadau â'r safonau yn amrywio'n fawr hefyd.

-
- 10.6 Two strategies had been produced by county councils in response to the particular challenges highlighted by the 2011 Census within their areas, acknowledging the need to increase use, language transmission and acquisition. Although they have not set specific quantitative targets, they include a detailed action plan to promote and facilitate the language more widely. They also include a detailed baseline of language demographics and language use, and therefore these organisations have the ability to set meaningful quantitative targets based on the contents of their strategies.
- 10.7 In terms of the other two strategies, one acknowledges the need to 'maintain the number of Welsh speakers in the county borough', but does not expand further, and the other is a document outlining the need for further mapping work before establishing a baseline.
- 10.8 Each one of the 15 strategies included an explanation of the way in which the organisations intended to promote and facilitate the use of Welsh, but differed in terms of how detailed and thorough they were.
- 10.9 In terms of considering the way in which the organisations explain how they will be able to assess the degree to which they have been successful within five years, 11 organisations have included a baseline against which they will be able to measure progress. Although most organisations have made use of the 2011 Census figures, a number of bodies acknowledge that the 2021 Census figures will not be available as a measurement at the end of the five year period and that they will need to identify other indicators and sources of data. Three strategies had not included any quantitative indicators or methodologies to monitor progress.
- 10.10 The survey found that the strategies differed in terms of their ambitions to increase the number of Welsh speakers. In every strategy, the main method for achieving the target of increasing Welsh speakers is the growth in the number of school pupils receiving Welsh medium education. However, some organisations have also set out targets to increase the number of Welsh learners in the community and the workplace, an increase in terms of language transmission within families, and in some areas, the natural growth within the population itself.
- 10.11 14 of the 15 strategies published include strategic aims, targets or action plans that outline activities to promote and facilitate the use of Welsh more widely. They vary a great deal in terms of detail and therefore at the end of the five year strategy the quality of the evidence that will enable organisations to assess their compliance with the standards will also vary greatly.

10.12 Tuedd gyffredinol oedd gan fwyafrif y strategaethau i fonitro ac adolygu cynnydd, yn gyfnodol ac ar ddiwedd pum mlynedd ac mae'n debygol y bydd ansawdd y dystiolaeth ar ddiwedd cyfnod y strategaeth yn amrywio llawer, ynghyd â gallu'r sefydliadau i hunanasesu eu llwyddiant.

10.13 **Nodweddion da strategaethau hybu**

Mae'r gwaith arolygu wedi adnabod bod y nodweddion isod yn cryfhau'r strategaethau ac yn ennyn hyder ynddynt fel dogfennau awdurdodol.

Perchenogaeth ac atebolrwydd

Mae rhai strategaethau yn dangos perchenogaeth amlwg gan y sefydliad cyfan e.e. rhagair gan y Prif Weithredwr, Cadeirydd, a strwythur atebolrwydd clir ar gyfer gweithredu ac asesu cynnydd.

Gwaelodlin

Mae'r strategaethau mwyaf cynhwysfawr yn seilio'u targedau a'u cynlluniau gweithredu ar gyfer hybu a hwyluso ar dystiolaeth feintiol ac ansoddol o ran siaradwyr Cymraeg a charfannau o siaradwyr Cymraeg yr ardal (gan ddefnyddio'r Cyfrifiad, Arolwg Defnydd Iaith, ymchwil perthnasol ar ran y cyrff eu hunain ac eraill yn genedlaethol); data addysg; data trosglwyddo iaith; gwybodaeth am y ddarpariaeth gymunedol gyfredol; ffigurau dysgu Cymraeg.

Gweledigaeth glir

Mewn strategaeth disgwylir gweld datganiad o weledigaeth glir gyda blaenoriaethau strategol perthnasol ac mae hyn i'w weld mewn sawl un. Ond mae tudalennau agoriadol rhai o'r strategaethau yn aneglur o ran yr hyn y mae'r corff yn gobeithio'i gyflawni gan gyfleu naws o orfod cydymffurfio â gofyniad cyfreithiol. Gydag eraill mae nod a tharged yn bodoli ond maent yn gudd yng nghorff y strategaeth ac nid oes safle amlwg iddynt fel gweledigaeth sefydliadol neu bartneriaethol glir. Mae datganiad clir o weledigaeth yn gymorth nid yn unig i'r cyhoedd ddeall trywydd y corff ond mae'n gymorth hefyd i holl staff y sefydliad sy'n gorfod gweithredu'r camau perthnasol.

10.12 Most strategies referred in general terms to monitoring and reviewing progress, which would be conducted periodically and at the end of the five years. It is likely therefore that the quality of the evidence at the end of the strategy's five year cycle will vary, together with the ability of the organisations themselves to conduct a self-assessment of their success.

10.13 **Good features evident in promotion strategies**

The following features serve to strengthen the strategies and underline their credibility as authoritative documents.

Ownership and accountability

Some strategies demonstrate clear ownership by the whole organisation, eg. foreword by the Chief Executive, the Chair, and a clear accountability structure for implementation and assessment of progress.

Baseline

The most comprehensive strategies have based their targets and action plans for the promotion and facilitation of the language on qualitative and quantitative evidence of the area's Welsh language speakers and groups of Welsh speakers (using the Census, the Welsh Language Use Survey, relevant research conducted by the bodies themselves and others nationally); education data; language transmission data; information on current community provision; Welsh learner figures.

Clear vision

In any strategy one would expect to see a statement outlining a clear vision with relevant strategic priorities, and this is present in a number of these strategies. However, the opening pages of some strategies are unclear in terms of what the organisation hopes to achieve, and convey a sense of an obligation to conform to legal requirements. Others do set out their aim and target, but these are lost within the body of the strategy and there is no prominent position for them as an organisational or partnership vision. A clear statement of vision serves not only to enable the public to understand the aims of the organisation, but also helps the staff of the organisation, who have to implement the relevant actions.

Partneriaid

Mae rhai o'r strategaethau yn rhai partneriaethol yn eu hanfod, wrth i rai o'r Fforymau laith gymryd rhan ganolog yn y gwaith o'u llunio. Er bod cyfeiriad at bartneriaid / rhanddeiliaid ym mhob un o'r strategaethau a arolygwyd, maent yn amrywiol iawn o ran lefel y cyfranogiad a chydweithio a arfaethir. Mae'r strategaethau hynny sy'n rhoi pwyslais ar gydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid yn ennyn hyder bod perchenogaeth iddynt ar sawl lefel yn lleol, ac nid ar lefel y sefydliad yn unig. Mae'r cynlluniau gweithredu mwyaf cynhwysfawr yn cyffwrdd â phob maes perthnasol ac yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, ac wrth gwrs y bobl leol.

Cyd-destun ehangach

Mae'r strategaethau mwyaf cynhwysfawr yn ymdrin â chyd-destun ehangach o ran ffyniant y Gymraeg, er enghraifft, y cyd-destun cymdeithasol / economaidd lleol; croesgyfeirio â chynllun strategol Cymraeg mewn addysg a strategaethau eraill sy'n gorgyffwrdd yn lleol ac yn genedlaethol (iechyd a llesiant, er enghraifft).

Mesur cynnydd

Mae'r strategaethau mwyaf cynhwysfawr yn pennu targedau clir, blaenoriaethau strategol, dangosyddion meintiol, a chynllun gweithredu manwl gyda chyswllt clir rhwng y gweithgareddau a'r blaenoriaethau strategol. Mae'r cynlluniau gweithredu mwyaf cynhwysfawr yn pennu targedau ac amserlen glir, ynghyd â chofnodi cyfrifoldebau.

Partners

Some of the strategies are partnership in nature, as some of the Language Forums have taken a central part in their formulation. Although every strategy that was part of this survey makes reference to partners / stakeholders, they vary greatly in terms of the proposed level of participation and collaboration. The strategies that place an emphasis on collaboration with partners and stakeholders strongly indicate that there is local ownership at a number of levels and not just at the level of the organisation alone. The most comprehensive action plans extend to every relevant area and demonstrate a commitment to work in partnership with organisations in the public and private sector together with the third sector, and of course local people.

The wider context

The most comprehensive strategies deal with the wider context of the growth and vitality of the Welsh language, the local social / economic context; cross references with WESPS and other strategies that overlap locally and nationally (health and wellbeing, for instance).

Measuring progress

The most comprehensive strategies set clear targets, strategic priorities, quantitative indicators, and a detailed action plan with clear links between activities and strategic priorities. The most comprehensive action plans set out targets with clear timescales and responsibilities.

Atodiad 1

Methodolegau arolygon

Appendix 1

Survey methodologies

Mae pob sefydliad cyhoeddus a gafodd ei gynnwys yn arolygon y Comisiynydd yn darparu gwasanaethau i bobl yng Nghymru. Roedd pob un a arolygwyd unai wedi derbyn hysbysiad cydymffurfio gan y Comisiynydd yn cynnwys y safonau oedd yn berthnasol i'r arolwg penodol, neu'n gweithredu cynllun iaith Gymraeg statudol. Cafodd rhai sefydliadau eu cynnwys er nad oeddent dan ddyletswydd i ddarparu rhai o'r gwasanaethau yn ystod y cyfnod arolygu - naill ai oherwydd bod diwrnod gosod y safon heb basio neu oherwydd bod y sefydliad wedi herio'r ddyletswydd i gydymffurfio.

Arolwg cyfryngau cymdeithasol

Prif nod yr arolwg oedd casglu gwybodaeth am y profiad o ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol sefydliadau cyhoeddus. Mae'r canfyddiadau'n cynorthwyo'r Comisiynydd i ddod i gasgliad ar gydymffurfedd sefydliadau â safonau'r Gymraeg.⁵⁴ Ymgwymerwyd â'r gwaith gan swyddogion y Comisiynydd.

Yn ystod misoedd Ebrill a Mai 2016 ymwelwyd â chyfrifon cymdeithasol 70 o sefydliadau cyhoeddus sy'n gweithredu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, (Rhif 2) 2016 a (Rhif 5) 2016.⁵⁵ Ymwelwyd unwaith â chyfrifon Twitter a Facebook pob sefydliad.

Cofnodwyd a oedd cyfrifon yn cael eu cynnal ar wahân yn Gymraeg a Saesneg neu'n ddwyieithog, nifer y dilynwyr a nifer y negeseuon. Cofnodwyd ym mha iaith yr oedd y sefydliad yn cyhoeddi negeseuon, a'r iaith a ddefnyddiwyd i ymateb.

Cofnodwyd sylwadau yn ogystal am ansawdd y gwasanaeth gan ystyried materion megis a oedd bywgraffiad y cyfrifon ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, amllder y defnydd o'r cyfrifon; cysondeb y cynnwys ac a oedd dewis iaith yn cael ei gydnabod wrth ymateb i negeseuon.

Arolwg gwasanaethau ffôn

Prif nod yr arolwg oedd casglu gwybodaeth am y profiad o ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau ffôn sefydliadau cyhoeddus. Mae'r canfyddiadau'n cynorthwyo'r Comisiynydd i ddod i gasgliad ar gydymffurfedd sefydliadau â safonau'r Gymraeg.⁵⁶ Ymgwymerwyd â'r gwaith gan swyddogion y Comisiynydd.

⁵⁴ Safonau 58, 59 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015; 54, 55 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016; 55, 56 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016

⁵⁵ Mae rhestr o'r sefydliadau cyhoeddus gafodd eu cynnwys yn yr arolwg yn Atodiad 2. Nid oedd gan Gyngor Sir y Fflint gyfrif Facebook. Nid oedd gan Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig gyfrifon Facebook a Twitter.

⁵⁶ Safonau 8,9,10,11,13,16,17 a 22 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015; (Rhif 2) 2016, (Rhif 4) 2016 a (Rhif 5) 2016

Every public organisation included in the Commissioner's surveys provides services to people in Wales. Each one that was subject to review had either received a compliance notice from the Commissioner including the standards relevant to the specific survey, or were implementing a statutory Welsh language scheme. Some organisations were included despite the fact that they were not required to provide some of the services at the time of review - either because the standard's imposition day had not passed or because the organisation had challenged the duty to comply.

Social media survey

The main aim of the survey was to gather information on the experience of using Welsh when using public organisations' social media account. The findings serve to assist to the Commissioner in drawing her conclusions on the compliance of organisations with the Welsh language standards.⁵⁴ The work was undertaken by the Commissioner's officers.

During April and May 2016, officers visited the social media accounts of 70 public organisations that implement the Welsh Language Standards (No.1) Regulations 2015, (No. 2) 2016 and (No. 5) 2016.⁵⁵ The Twitter and Facebook accounts of every organisation was visited once.

Officers recorded whether the accounts were maintained as separate Welsh and English accounts or bilingually, the number of followers and the number of messages. The language in which the organisation posted messages and the language used in reply was recorded.

Comments were also recorded regarding the quality of the service, regarding matters such as whether the accounts' biographies were available in Welsh or bilingually, how frequently the accounts were used; the consistency of the content, and whether language choice was acknowledged when replying to messages.

Telephone services survey

The main aim of the survey was to gather information on the experience of using Welsh when using public bodies' telephone services. The findings provide assistance to the Commissioner in drawing her conclusions on the compliance of organisations with the Welsh language standards.⁵⁶ The work was undertaken by the Commissioner's officers.

⁵⁴ Standards 58, 59 Welsh Language Standards (No.1) Regulations 2015; 54, 55 Welsh Language Standards (No. 2) Regulations 2016; 55, 56 Welsh Language Standards (No. 5) Regulations 2016.

⁵⁵ A list of the public bodies included in the survey is provided in Appendix 2. Flintshire County Council did not have a Facebook account. The British Transport Police Authority did not have a Facebook or Twitter account.

⁵⁶ Standards 8, 9, 10, 11, 13, 16, 17 and 22 Welsh Language Standards (No.1) Regulations 2015; (No. 2) 2016, (No.4) 2016 and (No. 5) 2016.

Rhwng misoedd Rhagfyr 2016 a Mawrth 2017 gwnaed 219 o alwadau i brif rif ffôn 73 o sefydliadau cyhoeddus sy'n gweithredu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, (Rhif 2) 2016, (Rhif 4) 2016 a (Rhif 5) 2016.⁵⁷ Galwyd rhif y llinell Gymraeg os oedd un yn cael ei hysbysebu gan y sefydliad ar ei wefan. Gwnaed tair galwad i bob sefydliad, i'r un prif rif ffôn, gan gyflwyno ymholiad gwahanol bob mis ar ddyddiau ac amserau gwahanol.

Cyflwynwyd yr ymholiad yn Gymraeg a cheisiwyd siarad Cymraeg yn unig yn ystod yr alwad. Ceisiwyd cyfyngu unrhyw ddefnydd o'r Saesneg i ofyn am wasanaeth Cymraeg.

Cofnodwyd os oedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio i gyfarch y galwr gan beiriant neu gan berson a pha iaith a ddefnyddiwyd gan y sefydliad o ddechrau i ddiwedd yr alwad: a lwyddodd y derbynydd i gynnal sgwrs yn Gymraeg er mwyn llwyddo i ddeall natur yr ymholiad ac yna drosglwyddo i aelod arall o staff i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol? Cofnodwyd a lwyddwyd i ymdrin â'r ymholiad yn ei gyfanrwydd yn Gymraeg. Cofnodwyd sylwadau yn ogystal am ansawdd y gwasanaeth gan ystyried materion megis a oedd gwasanaeth Cymraeg yn cael ei gynnig yn rhagweithiol neu a oedd angen i'r ymchwilydd ofyn am gael defnyddio'r Gymraeg ac a oedd hynny yn creu ymdeimlad o fod yn achosi trafferth ac a oedd rhif ffôn y gwasanaeth Cymraeg yr un fath â rhif y gwasanaeth Saesneg.

Arolwg gwasanaethau gohebiaeth

Prif nod yr arolwg oedd casglu gwybodaeth am y profiad o ddefnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn ymateb i ohebiaeth a anfonwyd at sefydliadau cyhoeddus. Mae'r canfyddiadau'n cynorthwyo'r Comisiynydd i ddod i gasgliad ar gydymffurfedd sefydliadau â'u dyletswyddau, boed hynny'n safonau'r Gymraeg neu gynllun iaith Gymraeg.⁵⁸ Comisiynwyd cwmni Trywydd i ymgymryd â'r gwaith ar ran y Comisiynydd.

Rhwng misoedd Tachwedd 2016 a Mawrth 2017 anfonwyd cyfanswm o 12 darn o ohebiaeth yr un at 86 o sefydliadau cyhoeddus sy'n gweithredu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, (Rhif 2) 2016, (Rhif 4) 2016, (Rhif 5) 2016 a Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru. Anfonwyd cyfanswm o 1,032 darn o ohebiaeth: llythyrau, e-byst, negeseuon testun a negeseuon i gyfrifon Facebook.⁵⁹ Anfonwyd nifer gyfartal o ohebiaeth Gymraeg a Saesneg er mwyn gallu cymharu amserau ymateb a gweld os oedd oedi oherwydd i'r ymholydd ddewis defnyddio'r Gymraeg.

⁵⁷ Mae rhestr o'r sefydliadau cyhoeddus gafodd eu cynnwys yn yr arolwg yn Atodiad 2. Nid yw'r safonau gwasanaethau ffôn perthnasol wedi eu gosod ar y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr na'r Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Ni wiriwyd gwasanaethau ffôn Archwilydd Cyffredinol Cymru oherwydd bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi ei gynnwys yn yr arolwg.
⁵⁸ Safonau 1, 7, 58, 59 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015; 1, 7, 54, 55 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016; 1, 7, 58, 59 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016; 1, 7, 55, 56 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016.
⁵⁹ Mae rhestr o'r sefydliadau cyhoeddus gafodd eu cynnwys yn yr arolwg yn Atodiad 2.

Between December 2016 and March 2017, 219 calls were made to the main telephone numbers of 73 public bodies implementing Welsh Language Standards (No.1) Regulations 2015; (No. 2) 2016, (No. 4) 2016 and (No. 5) 2016.⁵⁷ The Welsh language line was contacted if one was advertised by the organisation on its website. Three calls were made to each organisation, to the same main telephone number, with a different enquiry made each month at different dates and times.

The enquiry was made in Welsh and officers sought to only use Welsh during the call. Officers also sought to limit the use of English to ask for a service in Welsh.

Officers recorded whether the Welsh language was used to greet the caller and what language was used by the organisation to handle the call, from start to finish: did the operator succeed in conducting a conversation in Welsh and succeed in understanding the nature of the enquiry, transferring the call to another member of staff to provide a service with regard to the particular subject? Officers recorded whether the enquiry was handled entirely in Welsh. Observations were also recorded on the quality of service, with consideration given to issues such as whether a Welsh language service was offered proactively or did the researcher have to ask to use Welsh and whether that created a feeling of being a nuisance, and whether the number for the Welsh language service was the same as the number for the English language service.

Correspondence services survey

The main aim of the survey was to gather information on the experience of using Welsh when receiving a response to correspondence sent to public bodies. The findings serve to assist to the Commissioner in drawing her conclusions on the compliance of organisations with their duties under Welsh language standards or Welsh language schemes.⁵⁸ Trywydd was commissioned to undertake the work on behalf of the Commissioner.

Between November 2016 and March 2017 a total of 12 pieces of correspondence was sent to each one of 86 public organisations implementing Welsh Language Standards (No.1) Regulations 2015; (No. 2) 2016, (No.4) 2016 and (No. 5) 2016 together with Health Boards and NHS Wales Trusts. A total of 1, 032 pieces of correspondence was sent: letters, e-mails, text messages and messages to Facebook accounts.⁵⁹ The same number of correspondence was sent in both Welsh and English in order to compare response times and assess whether there was any delay due to the enquirer choosing to use Welsh.

⁵⁷ A list of the public bodies included in the survey is provided in Appendix 2. The relevant telephone services standards have not been imposed on the Student Loans Company nor the British Transport Police Authority. The telephone services of the Auditor General for Wales was not reviewed as the Wales Audit Office was included in the survey.
⁵⁸ Standards 1, 7, 58, 59 Welsh Language Standards (No.1) Regulations 2015; 1, 7, 54, 55 Welsh Language Standards (No. 2) Regulations 2016; 1, 7, 58, 59 Welsh Language Standards (No. 4) Regulations 2016; 1, 7, 55, 56 Welsh Language Standards (No. 5) Regulations 2016
⁵⁹ A list of the public bodies included in the survey is provided in Appendix 2.

Cofnodwyd ym mha iaith yr oedd y sefydliad yn ymateb i'r ohebiaeth ac yn darparu unrhyw wybodaeth bellach. Cofnodwyd hefyd sawl diwrnod gwaith a gymerwyd i ymateb. Cofnodwyd sylwadau yn ogystal am ansawdd y gwasanaeth gan ystyried materion megis cywirdeb a safon yr iaith, diwyg yr ohebiaeth a ddefnyddiwyd ac a oedd wedi ei lofnodi.⁶⁰

Arolwg gwefannau

Prif nod yr arolwg oedd casglu gwybodaeth am y profiad o ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio gwefannau sefydliadau cyhoeddus. Mae'r canfyddiadau'n cynorthwyo'r Comisiynydd i ddod i gasgliad ar gydymffurfedd sefydliadau â'u dyletswyddau, boed hynny'n safonau'r Gymraeg neu gynllun iaith Gymraeg.⁶¹ Ymgwymerwyd â'r gwaith gan swyddogion y Comisiynydd.

Rhwng misoedd Mehefin a Medi 2016 ymwelwyd â gwefannau 104 o sefydliadau cyhoeddus sy'n gweithredu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, (Rhif 2) 2016, (Rhif 4) 2016, (Rhif 5) 2016, (Rhif 6) 2017 a Byrddau Iechyd GIG Cymru. Edrychwyd ar gyfanswm o 3,285 o dudalennau gan anelu at ymweld â 30 tudalen o dair adran benodol o bob gwefan.⁶²

Cofnodwyd a oedd dewis iaith yn cael ei gynnig i'r defnyddiwr ar dudalen sblash; a oedd pob tudalen yr ymwelwyd â hi ar gael yn Gymraeg ac yn cyfateb â'r dudalen Saesneg; ac a oedd modd gwelywio o un iaith i'r llall. Pan oedd y tudalennau Cymraeg a Saesneg yn cyfateb o ran cynnwys a thestun, ond nid o reidrwydd y diwyg, cofnodwyd eu bod yn cyfateb oni bai bod y diwyg yn amharu ar yr ystyr, â'r Gymraeg o'r herwydd yn cael ei thrin yn llai ffafriol. Os oedd rhywfaint o'r cynnwys ar goll neu wybodaeth wedi dyddio, at bwrpas yr arolwg penodol hwn cofnodwyd bod y dudalen ar gael yn Gymraeg.

Cofnodwyd sylwadau yn ogystal am ansawdd y gwasanaeth: diwyg y tudalennau, safon yr iaith a ddefnyddiwyd a pha mor hwylus oedd ei ddefnyddio.

⁶⁰ Defnyddiwyd y diffiniadau canlynol ar gyfer cofnodi safon iaith yr ohebiaeth: cywir - testun sydd o safon ramadegol gywir ac yn darllen yn naturiol; rhannol gywir - testun oedd yn darllen yn gywir ar y cyfan ond yn cynnwys gwallau treiglo, sillafu neu Gymraeg ansafonol; gwallus - testun lle mae gormod o wallau difrifol yn tynnu sylw

⁶¹ Safonau 52, 55, 56 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015; 48, 49, 50, 51, 52 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016; 52, 55, 56 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016; 49, 50, 51, 52, 53 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016; 55, 56, 57, 58, 59 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017

⁶² Edrychwyd ar adrannau cyfatebol gwefannau sefydliadau sy'n darparu'r un math o wasanaethau.

The language in which the organisation responded to the correspondence and provided any further information was recorded. The number of working days the organisation took to respond was also recorded. Observations were also recorded on the quality of service, with consideration given to issues such as language quality and accuracy, style of correspondence and whether it was signed.⁶⁰

Websites survey

The main aim of the survey was to gather information on the experience of using Welsh when using public bodies' websites. The findings serve to assist the Commissioner in drawing her conclusions on the compliance of organisations with their duties under Welsh language standards or Welsh language schemes.⁶¹ The work was undertaken by the Commissioner's officers.

Between June and September 2016, officers visited the websites of 104 public organisations implementing Welsh Language Standards (No.1) Regulations 2015; (No. 2) 2016, (No. 5) 2016 and (No. 6) 2017 together with NHS Health Boards. A total of 3,285 pages were visited, around 30 pages from three specific areas of each website were examined.⁶²

Officers recorded whether a language choice was offered on a splash page; whether every page visited was available in Welsh and corresponded to the English page; and whether it was possible to navigate from one language to another. When Welsh and English pages corresponded in terms of content and text, but did not correspond necessarily in terms of design, it was recorded that they did correspond unless the design had a negative impact on the meaning, and the Welsh language as a result was treated less favourably. If some of the content was missing, or if information was outdated, the page was recorded as being available in Welsh for the purposes of this specific survey.

Galwad am dystiolaeth: crynodeb o'r ymatebion

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2017

Paratoi ar gyfer Bil y Gymraeg Galwad am dystiolaeth: crynodeb o'r ymatebion

Cynulleidfa

Cyrff cyhoeddus yng Nghymru; cyrff y trydydd sector yng Nghymru; cwmnïau y sector preifat yng Nghymru;; sefydliadau sy'n gweithio i hybu'r defnydd o'r Gymraeg; Comisiynydd y Gymraeg; partiön eraill â diddordeb a'r cyhoedd.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi profiad a barn rhai o'r cyrff sydd eisoes yn gweithredu o dan safonau y Gymraeg, cyrff sy'n paratoi i ddod o dan y safonau, a rhai rhanddeiliaid eraill.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr ymatebion fel rhan o'r dystiolaeth i gynhyrchu cynigion polisi mewn Papur Gwyn i'w gyhoeddi dros yr haf. Nid yw'n fwriad gan Lywodraeth Cymru, wrth gyhoeddi'r ymatebion a dderbyniwyd, i ymyrryd na dylanwadu ar unrhyw benderfyniadau a wneir gan Gomisiynydd y Gymraeg na Thribiwnlys y Gymraeg.

Camau i'w cymryd

Dim – er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Tîm Bil y Gymraeg
Is-Adran y Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 6052

e-bost: UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru

Copiau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn <http://gov.wales/topics/welshlanguage/legislation-for-the-welsh-language/preparing-for-a-welsh-language-bill/?lang=cy>



ISBN digidol 978 1 78859 186 7
© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2017
WG31951

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Cefndir	2
Dulliau ymgysylltu	2
Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig	3
Y gyfundrefn Safonau	5
Gwerth ac effaith Safonau	5
Cyrff sy'n dod o dan y Safonau	8
Nifer a natur y safonau	8
Gwneud, gosod a gweithredu'r Safonau	10
Dehongli'r safonau a chodau ymarfer	13
Rhwystrau ymarferol	17
Costau cydymffurfio	19
Cwynion ac ymchwiliadau ymchwiliadau i dor-safon	20
Cosbau	23
Adolygu'r Mesur	24
Swyddogaethau rheoleiddio a hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg	25
Cyfrifoldebau Comisiynydd y Gymraeg	25
Pwy ddylai hybu a hyrwyddo'r Gymraeg?	32
Camau nesaf	40

Cyflwyniad

Cefndir

1. Yn ystod Cyfarfod Llawn yn y Cynulliad ar 18 Mai 2016 fe wnaeth y Prif Weinidog ymrwymo i geisio diwygio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (“y Mesur”) yn ystod y Cynulliad hwn.
2. Y Mesur yw'r fframwaith deddfwriaethol cyfredol ar gyfer y Gymraeg. Mae'r Mesur yn sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg ac yn gosod y fframwaith ar gyfer Safonau'r Gymraeg.
3. Mewn datganiad datganiad llafar yn y Senedd ar 12 Gorffennaf 2016, nododd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes :
“rwy'n awyddus i edrych eto ar y Mesur er mwyn sicrhau fod y sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer y dyfodol yn addas, yn gyfredol a hefyd yn sicrhau bod y broses o wneud a gosod safonau yn llai biwrocraidd.”
4. Cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ddatganiad ysgrifenedig ar 31 Ionawr 2017 yn dechrau cyfnod o ymgysylltu anffurfiol gyda phartneriaid a rhanddeiliad. Roedd y datganiad yn gofyn am dystiolaeth am brofiadau o weithio o dan y drefn Safonau a sefydlwyd gan y Mesur, rôl Comisiynydd y Gymraeg, a threfniadau i hybu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg. Daeth y cyfnod o ymgysylltu i ben ar 31 Mawrth 2017.
5. Gofynnodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes dri chwestiwn penodol:
 - Beth yw eich profiad neu farn o'r gyfundrefn Safonau? Hoffwn glywed yn arbennig am y prosesau o osod a gorfodi'r Safonau, a'ch profiad o weithredu neu baratoi i weithredu'r Safonau o fewn eich corff.
 - Mae rôl Comisiynydd y Gymraeg yn cynnwys swyddogaethau rheoleiddio a chyfrifoldebau am hybu a hyrwyddo defnydd yr iaith. Ydi'r balans yn gywir?
 - Beth yw eich profiad neu farn am y trefniadau presennol am hybu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg. Hoffwn glywed yn arbennig eich barn am bwy ddylai fod yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg, tra'n cadw mewn cof y dryswch all godi ble mae nifer o gyrrff yn gweithredu yn yr un maes.

Dulliau ymgysylltu

6. Defnyddiwyd tri dull gwahanol i gasglu dystiolaeth oddi wrth rhanddeiliaid a phartneriaid, sef:
 - galwad i rhanddeiliaid a phartneriaid gynnig dystiolaeth ysgrifenedig (35 o ymatebion);
 - cynhaliwyd tri gweithdy gyda chynrychiolwyr cyrff sydd yn dod o dan Safonau neu ar fin dod o dan Safonau a fynychwyd gan 49 o swyddogion;
 - cyfarfodydd unigol gyda dau gorff.
7. Adroddiad ar y dystiolaeth ysgrifenedig a gafwyd drwy'r alwad am dystiolaeth sydd yn y ddogfen hon.

Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig

8. Derbyniwyd 35 ymateb ysgrifenedig i'r alwad am dystiolaeth. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion hynny ac yn nodi'r prif themâu a amlygwyd. Cafwyd ymatebion gan y cyrff canlynol:

Sefydliad	Nifer
Awdurdodau Lleol	10
Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent	
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	
Cyngor Caerdydd	
Cyngor Dinas a Sir Abertawe	
Cyngor Gwynedd	
Cyngor Sir Ynys Môn	
3 Awdurdod Lleol am aros yn ddiennw	
Cyrff cyhoeddus yn y sector Addysg	4
Colegau Cymru	
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	
Estyn	
Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd	
Cyrff cyhoeddus yn y sector Cyfiawnder	4
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys	
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Heddlu De Cymru	
Heddlu Gogledd Cymru	
Cyrff cyhoeddus yn y sector Iechyd	2
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	
1 corff am aros yn ddiennw	
Cyrff cyhoeddus eraill	2
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru	
1 corff am aros yn ddiennw	
Eraill	13
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	
Mentrau Iaith Cymru	
Mentrau Iaith Bro Dinefwr, Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Sir y Fflint & Maelor	
Mudiad Meithrin	
Ateb	
Cymdeithas yr Iaith	
Dyfodol i'r Iaith	
Opera Cenedlaethol Cymru	
1 corff am aros yn ddiennw	

9. Nid yw'r ymatebion o anghenrhaidd yn cynrychioli profiad pob un corff sydd yn syrthio o fewn y categorïau uchod a rhaid cofio mai nid barn y cyhoedd a gasglwyd.

10. Roedd mwyafrif yr ymatebion wedi ymateb i'r tri chwestiwn yn eu trefn, ond roedd eraill wedi dewis ateb y cwestiwn cyntaf am brofiad neu farn am y gyfundrefn safonau yn unig.

11. Cafwyd cryn gorgyffwrdd rhwng y sylwadau ar gwestiynau dau a thri felly mae'r crynodeb hwn yn trin y themâu sydd yn codi o dan y ddau gwestiwn ar y cyd. Roedd y cwestiynau yn gofyn yn benodol am brofiad a barn sefydliadau, felly nid oes data meintiol wedi'i gasglu.
12. Cyhoeddir unrhyw ddyfyniadau yn yr iaith y cawsant eu cyflwyno gan ymatebwyr.

Y gyfundrefn Safonau

Cwestiwn 1 - Beth yw eich profiad neu farn o'r gyfundrefn Safonau? Hoffwn glywed yn arbennig am y prosesau o osod a gorfodi'r Safonau, a'ch profiad o weithredu neu baratoi i weithredu'r Safonau o fewn eich corff.

Gwerth ac effaith Safonau

13. Mae nifer o'r ymatebion yn dangos cefnogaeth i weledigaeth y Llywodraeth i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg ac i'r egwyddor y dylai cyrff cyhoeddus yng Nghymru gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg. O blith yr ymatebwyr sy'n gwneud sylwadau cyffredinol am y Safonau, mae'r mwyafrif helaeth yn cytuno gyda'r egwyddor o Safonau:

Mae'r Cyngor Sir yn croesawu'r egwyddorion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cyngor Sir Ynys Môn

The Council fully supports the principle behind the standards.

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Most of the Standards have been implemented smoothly, building on the Welsh Language Scheme.

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent

Mae Cyngor Gwynedd a hunaniaith¹ fel ei gilydd yn croesawu ymrwymiad a gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, sef uchelgais i greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Cyngor Gwynedd

We agree with the principle of the Standards.

Awurdod Lleol am aros yn ddiennw

Mae'r newid i drefn y safonau wedi achosi newid gyda adrannau ac unigolion

Cyngor Caerdydd

Yn sicr mae'r safonau newydd wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn argaeledd gwasanaethau Cymraeg mewn rhai awdurdodau lleol ac mae hyn yn rhywbeth i'w groesawi.

Cyngor Caerdydd

¹ Menter Iaith Gwynedd

The ethos of the Standards has meant promoting the language within the organisation has been positive.

Awdurdod Lleol am aros yn ddiennw

Bu'r safonau'n sbardun cryf ar gyfer hyrwyddo gwelliannau i'n gwasanaethau Cymraeg. Maent wedi darparu set ddefnyddiol o gyfarwydddebau er mwyn i ni allu arfarnu ystod ac effeithiolrwydd ein gwasanaethau Cymraeg. Maent wedi ein helpu i nodi meysydd penodol lle mae angen i ni wella cyfleoedd i staff ddefnyddio eu medrau Cymraeg. Hefyd, maent wedi darparu symbyliad ychwanegol i staff ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg.

Estyn

Cefnogaf yr iaith Gymraeg ac unrhyw fodd i wella'r defnydd ohoni drwy Gymru, i'r eithaf. I'r diben hwn 'r wyf yn sicr bod y broses o sicrhau bod gofyn i wasanaethau i gydymffurfio'n llwyr a'r gofynion a amlinellir gan Safonau'r Gymraeg a sicrhau cydraddoldeb wrth ddarparu wedi bod, yn gyffredinol, o fudd i'r cyhoedd.

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys

Mae angen hefyd gydnabod bod paratoi ar gyfer y gofynion newydd wedi rhoi cyfle i ail osod y Gymraeg a'i rôl mewn darparu gwasanaethau o safon yn ôl ar radar y sefydliad a chyfle i atgyfnerthu arferion da.

Heddlu Gogledd Cymru

The renewed commitment and thoroughness required by the standards has 'raised our game' and the level of prescription has got us to a good place.

Opera Cenedlaethol Cymru

Roedd y broses o fynd trwy'r Safonau yn gyfle i ni edych ar ein holl allbwn Cymraeg o'r newydd. Er ein bod wedi gweithredu Cynllun Iaith ers 1998, roedd yn gyfle i wirio ein bod yn dilyn ein Cynllun ac roedd yn gyfle i ni edrych ar y bylchau, os oedd rhai.

Am aros yn ddiennw

Mae profiadau ein cleientiaid sydd wedi bod trwy'r broses gosod a thu hwnt wedi bod yn un positif – gan gynyddu hyder staff sy'n siarad Cymraeg a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, a phwysigrwydd o ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Am aros yn ddiennw

14. Mae tri chorff yn nodi rhai amgylchiadau nad yw'r Safonau yn ymdrin â nhw ar hyn o bryd:

Nid yw'r safonau a osodwyd ar awdurdodau lleol yn unol a Mesur y Gymraeg 2011 yn cyfeirio yn benodol at ddarparu cymorth dysgu ychwanegol. Ni fu ymdrechion chwaith i osod safonau ar gyrrff llywodraethau ysgolion.

Mudiad Meithrin

Cymerer, er enghraifft, sefyllfa lle mae rhywun yn gofyn am wasanaeth Cymraeg gan gorff dros gownter nad yw'n dderbynfa ... Ymhellach, yn achos yr heddlu, dim ond pan fo rhywun yn "cynorthwyo gydag ymholiad" neu "os yw un neu ragor o'r personau hynny wedi ei arestio" y mae gofyniad i ddarparu gwasanaethau wyneb yn wyneb yn Gymraeg.

Nid yw'r gyfraith bresennol yn gwarantu'n ddiamod hawl cyrrff i weithio'n fewnol ac yn allanol yn y Gymraeg yn unig.

...nid oes hawl gan weithwyr cwmnïau, megis rhai bws, trên ac ynni, i ddysgu Cymraeg, na gorfodaeth ar y cyrrff i roi polisïau yn eu lle er mwyn cynllunio'r gweithlu'n iawn.

Cymdeithas yr Iaith

Ystyriwn fod lle i gryfhau'r cyswllt rhwng gweithrediad y safonau a'r targed o filiwn o siaradwyr ac i'r perwyl hwnnw, byddai'n dda o beth ychwanegu cymalau i fonitro defnydd o'r gwasanaethau hynny sydd ar gael yn y Gymraeg fel rhan o ofynion y safonau.

Am aros yn ddiennw

15. Mae un sefydliad yn credu bod y Safonau yn wanach na'r trefniadau blaenorol:

Yr hyn a wna'r safonau yw gosod isafswm ar gyfer darpariaeth Gymraeg, a'r gwirionedd yw fod yr isafswm a osodir yn rhy isel i gyfarch ymrwymiad ac uchelgais cyffredinol Cyngor Gwynedd ar gyfer yr iaith Gymraeg.

Yn achos Cyngor Gwynedd, ble ystyriwyd y safonau fel isafswm, ac nad oeddent yn adlewyrchiad digonol o ymrwymiad y Cyngor tuag at y Gymraeg, er mwyn diogelu'r ymrwymiad hwnnw, bu'n ofynnol i'r Cyngor lunio a mabwysiadu Polisi Iaith o'r newydd er mwyn gwarchod uchelgais y Cyngor ar gyfer y Gymraeg, ynghyd â'r ymrwymiad i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg.

Cyngor Gwynedd

16. Mae un corff yn gofyn beth yw mesur llwyddiant y safonau:

Nid yw'n glir beth a olygir wrth llwyddiant – ai mwy o siaradwyr neu lai o gwynion? Beth yn union ddylem ni fod yn ei fonitro i ddangos sut yr ydym yn gwella?

Gwasnaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cyrff sy'n dod o dan y Safonau

17. Dim ond un ymatebydd sy'n gwneud sylw ar y cyrff sy'n dod o dan y safonau:

Nid oes un banc nac archfarchnad yn darparu gwasanaeth Cymraeg cyflawn, ac nid yw datblygu gwasanaethau Cymraeg yn flaenoriaeth i'r un ohonynt. Nid yw cwmnïau'r sector breifat yn ymateb i'r ddyletswydd foesol sydd arnynt, felly mae'n rhaid rhoi dyletswydd gyfreithiol arnynt.

Cymdeithas yr Iaith

18. Mae'r ymatebydd hwn hefyd yn tynnu sylw at Faes Awyr Caerdydd a chwmnïau ar-lein megis Gumtree, Twitter a Trip Advisor.

Nifer a natur y Safonau

19. O blith y rhai sy'n cynnig sylwadau ar y mater hwn, mae nifer yn gwneud sylwadau ar nifer a manylder y Safonau, a'u hieithwedd:

Some of Standards relate to the same requirement and on this basis we feel there is scope for rationalisation.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

The standards are very prescriptive in part but not in others. The language used is unclear. Should there be so many standards relating to a single area of work – e.g. meetings?

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot

Compliance Notice – 172 Standards, repetitive in nature. Can be summarised to a 40 point action plan.

Awdurdod Lleol am aros yn ddi-enw

Mae dros 170 o safonau wedi eu gosod ... gellir crynhoi'r gofynion yma i mewn i lawer llai o safonau fyddai'n gwneud y rheoliadau'n llawer cliriach i'r cyhoedd ac i'r staff sy'n gweithredu'r safonau. Er enghraifft, nid oes angen 12 safon ar ateb y ffôn yn unig na chwaith 6 ar gyfer creu 1 adroddiad blynyddol er enghraifft.

Cyngor Caerdydd

A smaller set of more achievable standards would have a far bigger impact on the health board's ability to improve Welsh language service provision and will also encourage more staff engagement and overall compliance.

Bwrdd Iechyd am aros yn ddi-enw

Mae lle i wella ieithwedd y rheoliadau, er mwyn sicrhau fod nhw'n glir ac yn eglur i'r defnyddiwr.

Colegau Cymru

20. Mae nifer o'r ymatebion yn nodi ei fod yn anodd iawn i'r cyhoedd ddeall pa wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg ac o'r herwydd nid yw eu hawliau yn glir:

Mae'n anodd iawn i'r dinesydd unigol yng Nghymru wybod pa rai yw ei hawliau iaith o ran y Gymraeg mewn ffordd y gellir ei deall yn rhwydd ac yn eglur.

Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

We believe, that from a service user's perspective, the introduction of the Standards have meant uncertainty with who, what, where and when they can expect a Welsh language service. A simplified and clearer set of standards would have meant more organisations implementing the Standards sooner.

Awdurdod Lleol am aros yn ddi-enw

Nid ydynt yn hawdd i'r cyhoedd eu deall – sydd yn mynd yn groes i'r bwriad, nid yw'r safonau'n symleiddio'r broses i'r cyhoedd.

Gwasnaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae'n annhebygol y bydd y siaradwr Cymraeg cyffredin yn gwybod eu manylion [yr hysbysiadau cydymffurfio], ac yn sgil hyn mae'n annhebygol fod y siaradwr Cymraeg cyffredin yn gwybod beth yn union yw ei hawliau.

Dyfodol i'r iaith

21. Mae un ymatebydd yn galw am fframwaith fyddai'n cynnig mwy o hyblygrwydd i gyrff i gytuno'r Safonau sy'n gymwys iddynt:

Byddai'n well gosod rhai Safonau Iaith Gymraeg drwy broses o ddeialog leol rhwng sefydliadau unigol a Chomisiynydd y Gymraeg. Mewn geiriau eraill, yn hytrach na'u gosod fel rheoliadau, hynny yw fel is-ddeddfwriaeth a phopeth ynghlwm wrth hynny o ran anhyblygrwydd a baich biwrocraidd, byddai modd cytuno ar ymrwymadau o'r fath i'r Gymraeg, yn debyg i lawer o'r ymrwymadau a wnaed o dan Gynlluniau Iaith Gymraeg, drwy eu negodi gyda Chomisiynydd y Gymraeg ac yna byddent yn ddarostyngedig i'w cymderadwyo gan y Gweinidog.

Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

22. Mae dau gorff yn credu y dylid mabwysiadu egwyddor neu egwyddorion yn sail i'r gyfundrefn safonau:

Er nad fyddem ni am fynd yn ôl at gyfundrefn cynlluniau iaith, un o gryfderau'r gyfundrefn honno oedd y cymal safonol ynddyn nhw sef 'trin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal'. Roedd hyn yn creu disgwyliaid y byddai gan bob corff gynllun iaith statudol i wella eu darpariaeth Gymraeg dros amser.

Cymdeithas yr Iaith

We would welcome future legislation that affords organisations a degree of flexibility in their Welsh language provisions through a principle based-approach which recognises the different purposes and client groups of public authorities and, in particular, ones such as the ICO which operates in all four parts of the UK.

To illustrate this approach, one can look at the Data Protection Act 1998 (DPA), which is primarily based on eight principles but applies throughout all sectors of public administration and the wider economy. The DPA is no less complex in its application than the Welsh Language Act, and failure to comply can still result in legally-enforceable and effective regulatory action, but there is much greater scope for interpretation amongst practitioners. In addition, it successfully promotes the rights of individuals whilst balancing the practicality of service delivery, a balance that we feel the existing Welsh language legislation fails to achieve.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru

23. Mae un corff o'r farn y dylid ysgogi cyrff i gyrraedd safon uchel:

Dylid creu marc safon y Gymraeg o fewn y sector gyhoeddus gydag ysgogiad i gyrraedd y marc safon gorau. Buasai hyn yn caniatáu Cynghorau i ddatblygu yn ôl eu gallu eu hunain gan roi neges gadarnhaol yn hytrach na beirniadol i ddatblygiadau'r Gymraeg.

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

Gwneud, gosod a gweithredu'r Safonau

24. Mae mwyafrif yr ymatebion yn cynnig sylwadau ar y mater hwn. O blith y rheiny, mae sawl yn nodi hyd y broses ac mae'r rhan fwyaf o'r farn bod y gyfundrefn yn un fiwrocraidd:

The whole process itself has been a protracted and unnecessarily arduous one; bureaucratic and time consuming, for officers, members as well as the Commissioner and her staff.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot

Bu'r gwaith paratoadol ar gyfer safonau'r Gymraeg ar Gyngor Gwynedd (yn yr un modd a sefydliadau cyhoeddus eraill) yn feichus hefyd, gyda'r angen am:

- *hunan-asesiad*
- *ymateb i ymgynghoriad ar y safonau drafft*
- *Ymchwiliad Safonau (holiadur 136 cwestiwn)*
- *ymateb i'r ymgynghoriad ar y Polisi Gorfodi Comisiynydd y Gymraeg*
- *ymateb i'r ymgynghoriad ar yr hysbysiad cydymffurfio drafft*
- *derbyn 151 Safon yn yr hysbysiad terfynol*

Mae'r broses o sefydlu'r safonau yn y llu wedi bod yn hir ofnadwy. Ionawr 2015 cawson ni'r holiadur cychwynnol, ac mae e wedi cymryd dros 2 flynedd i'r safonau dod i'w grym.

Corff cyhoeddus am aros yn ddiennw

Roedd y broses o osod a gorfodi'r safonau yn orfiwrocraidd, yn enwedig yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ar ben hynny, roedd natur yr iaith a ddefnyddiwyd yn y dogfennau ymgynghori yn golygu nad oedd y cyfarwyddbau'n hygyrch ac yn hawdd i'w deall bob tro.

Estyn

WNO found the initial investigation by WLC into their current Welsh language provisions to be cumbersome and prescriptive. WNO was presented with a questionnaire of some 30 pages, with a covering letter from the WLC informing them that a response was invited by a certain deadline. The letter also informed WNO that WLC would in any case be conducting its 'own investigation into WNO's current Welsh language provision and practices'. This statement appeared rather overbearing, and was somewhat disheartening as management contemplated filling the 30 page questionnaire.

Opera Cenedlaethol Cymru

25. Mae un ymatebydd o'r farn bod datblygu'r Safonau yn y modd hwn, er yn llafurus, wedi bod yn bositif:

Mae proses Swyddfa'r Comisiynydd wrth ddatblygu'r Safonau wedi bod yn drwyadl iawn. Mae'n cynnwys cyfleoedd i sefydliadau gyflwyno sylwadau ar y Safonau drafft ac ar eu Hysbysiad Cydymffurfio drafft. Mae cyfleoedd o'r fath yn hanfodol ac i'w croesawu, ond mae nifer a chymhlethdod y Safonau'n golygu bod y broses o ymateb yn eithaf llafurus ac yn cymryd llawer iawn o amser. Mae'r broses hefyd yn cynnwys rhai cyfleoedd am drafod uniongyrchol gyda Swyddfa'r Comisiynydd ac mae hyn yn cael ei groesawu'n fawr.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

26. Yn ôl rhai ymatebwyr, mae'r gyfundrefn Safonau yn golygu bod cyrff yn canolbwyntio ar gydymffurfio â phroses yn hytrach na gwella gwasanaethau:

Baich arall yn sgil y safonau yw'r angen i brofi a chofnodi'r modd yr ydym yn cydymffurfio gyda'r safonau, mewn cyfnod lle bo adnoddau yn brin. Mae hyn yn codi'r cwestiwn pa werth gwirioneddol y mae'n ychwanegu o safbwynt gwella ansawdd, arlwy ac argaeledd gwasanaethau Cymraeg i'r dinesydd?

Enghraifft o hynny yw fod nifer o'r safonau yn y maes polisi yn disgwyl i gorff fedru tystiolaethu y modd yr ydym yn prif-ffrydio'r Gymraeg. Gallai hynny arwain at yr angen i Gyngor Gwynedd ddogfennu pethau mewn ffyrdd nad

ydym wedi arfer a gwneud hynny er mwyn dangos ein bod yn cydymffurfio â'r safonau polisi. Mae creu cyfundrefn er mwyn bodoloni'r rheoleiddiwr sydd ddim, mewn gwirionedd, yn ychwanegu gwerth i ddinasyddion, yn groes i egwyddorion Cyngor Gwynedd.

Cyngor Gwynedd

We have become more focussed on process rather than being focussed on implementation, promotion and facilitation.

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent

Y perygl o ganolbwyntio ar yr ochr rheoleiddio yn unig yw bod modd cynnig llawer llai o weithgareddau a gwasanaethau Cymraeg heb dorri safon benodol... Gan fod y Comisiynydd ond yn edrych ar ba safonau sydd wedi cael eu torri mae'n ddealladwy efallai fod rhai swyddogion a sefydliadau ond yn edrych ar gydymffurfiaeth yn hytrach na pha wasanaethau Cymraeg dylid eu cynnig.

Cyngor Caerdydd

Mae perygl o golli ffocws ar y darlun mwy, sef darparu dewis iaith go iawn a cheisio hybu mwy o ddefnydd o'r iaith o fewn bywyd beunyddiol oherwydd yr angen i gadw cofnodion 'manwl i fodloni gofynion adrodd yn unig.

Heddlu Gogledd Cymru

Efallai bod rhai sefydliadau wedi gorfod gweithio'n galetach yn sgil cyflwyniad y Safonau ond i'r sefydliadau hynny sydd wedi bod yn gydwybodol a chyson wrth gyflwyno gwelliannau mae cyflwyniad y safonau wedi golygu colli momentwm gan eu bod wedi golygu defnyddio llawer o egni ac adnoddau i'w mabwysiadu – mae'n teimlo fel ein bod yn dod allan o dwnnel hir a bod ychydig o oleuni i'w weld ac y gallwn ddechrau meddwl yn bositif eto a pharhau gyda'r momentwm ond does dim cefnogaeth ar gael i'n galluogi i wneud hyn yn effeithiol.

Gwasnaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

27. Mae dau gorff yn gwneud sylw ar y rhannu cyfrifoldebau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd wrth wneud a gosod Safonau:

The fact that the regulations were written and agreed by Welsh Ministers and regulated by the Commissioner has added to the frustration experienced by Councils.

Awdurdod Lleol am aros yn ddiennw

Yn wir, yn hytrach na dilyn casgliadau annibynnol Comisiynydd y Gymraeg, mae gweision sifil wedi cyfyngu hawliau iaith oherwydd lobbio unigol gan gyrff sy'n dod o dan y Safonau. Mewn nifer o achosion, ymddengys bod y gweision

sifil a'r cyfreithwyr yn anghofio bod modd amrywio'r Safonau drwy hysbysiad cydymffurfio'r Comisiynydd os oes angen, yn hytrach nag yn y rheoliadau eu hunain.

Cymdeithas yr Iaith

28. Ffactor arall y cyfeirir ato gan rai o'r cyrff sy'n dod o dan y Safonau yw bod herio Safonau yn yr hysbysiad cydymffurfio wedi arwain at wahaniaethau rhwng cyrff mewn ardaloedd daearyddol tebyg:

The Standards, in their naming were seen as a way of building on the Council's Welsh Language Schemes and moving towards a common standard of Welsh language services delivered throughout Wales, albeit taking some authorities more time to reach the desired level, again due to demographics and workforce skills.

We are now at a stage where, in South East Wales, each Council's Compliance Notice varies greatly due to individual challenges put forward.

Awdurdod Lleol am aros yn ddiennw

At the present moment, 7 of the 22 LAs (over 30%) have not yet had their compliance notice finalised. As a result, those LAs which have agreed their notices – in general those who are doing their utmost to comply – are in more of a position to be criticised. This is hardly a level playing field!

Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Mae trefn y safonau hefyd yn golygu fod rhaid 'herio' safonau er mwyn derbyn eithriadau penodol neu ychydig o eglurdeb pellach ynglŷn â'r gofynion, ac mae hyn wedi arwain at ddiffyg 'safon' ar draws sectorau a rhanbarthau. Mae'r system wedi gwobrwyo'r sefydliadau sydd wedi herio fwyaf. Dylai'r drefn ganiatáu hyblygrwydd i'r Comisiynydd ddyrannu diwygiadau i'r safonau i bob sefydliad wrth adnabod materion/problemau systematig ar draws sectorau cyfan.

Cyngor Caerdydd

Mae'r term Safon yn golygu bod safon, fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol wedi herio geiriad / dehongliad rhai Safonau ac wedi cael eithriadau. Mae'n ymddangos bod y Safonau yn cael eu gweithredu yn anghyson ar draws Cymru oherwydd yr eithriadau hyn rhwng sefydliadau.

Awdurdod Lleol am aros yn ddiennw

Dehongli'r Safonau a chodau ymarfer

29. Mae mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo bod y Safonau yn gallu bod yn anodd i'w dehongli ac mae beirniadaeth o'r diffyg cyhoeddi codau ymarfer, rhannu arfer dda, a rhannu gwybodaeth ac esboniadau am benderfyniadau gan y Comisiynydd:

There was little forthcoming advice, guidance and detail in relation to the interpretation of the Standards and the expectation of WLCO... Whilst the Policy Team has made every effort to interpret the Standards and advise accordingly, the implementation is the responsibility of all 3,500 staff overseen by the management. This is a challenge given that the service areas will interpret the relevant standards differently.

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent

It has been difficult to obtain effective guidance throughout the process, any request has been met with a referral to the legislation/Welsh Government or that help cannot be provided due to the regulatory nature of the Commissioner's role.

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Castell-Nedd Port Talbot

The reluctance of the Commissioner to issue Codes of Practice, statutory under the Welsh Language (Wales) Measure 2011 has meant the interpretation of the requirements varies from Council to Council, and more so down to officer level.

Although the Commissioner has offered general guides on specific service delivery aspects, the interpretation of each standard is what all authorities have been seeking.

Awdurdod Lleol am aros yn ddiennw

Where we have requested clarification or an explanation of a detail within a standard, we have received excerpts from the Legislation.

Awdurdod Lleol am aros yn ddiennw

In order to increase consistency and transparency, the council would like to see the Commissioner publish more information on the website to promote shared understanding. For example, when clarity is given on a particular standard, this should be published on the website so that all organisations adhering to the same standard are party to the same level of detail at the same time. The council would like to see this extended to the outcome of investigations – together with any advice/resolutions – to prevent the same or similar complaints from being received elsewhere and to improve practice across Wales.

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

The Register of Complaints which the OWLC publishes in line with the legislation does not really contain enough detail for it to be of any use either for members of the public to review what has happened or for other WLOs to compare with their own experience.

Cyngor Dinas a Sir Abertawe

It is clear that there is ambiguity in the Standards with each Force interpreting some Standards differently. This leads to a lack of consistency across the policing service and therefore has the potential to cause confusion to the public. It would have therefore been beneficial to each force if they had been issued with guidance notes outlining the Commissioner's expectations for each Standard. Such guidance would also have reduced the demand on the Commissioner's Team in dealing with a myriad of queries from each force.

Heddlu De Cymru

Basai sefydlu'r gofynion newydd yn llawer haws pe bai mwy o ganllawiau, nodiadau cyngor a thempledi generig ar gael i sefydliadau er mwyn cynorthwyo'r broses o ymateb i anghenion y Safonau. Er enghraifft basai'n ddefnyddiol i sefydliadau dderbyn templed ar gyfer cynhyrchu adroddiad monitro.

Heddlu Gogledd Cymru

Mae sefydliadau unigol wedi cael eu gadael i geisio bod yn rhagweithiol wrth rannu arferion da sydd mewn perygl o fod yn achlysurol ac ad hoc – roedd Bwrdd yr Iaith yn gwneud hyn yn effeithiol ond rydym wedi colli hyn ac o ganlyniad nid yw'r broses o rannu arferion sy'n gweithio'n dda wedi bod yr un mor llwyddiannus.

Gwasnaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Byddai'n cam cadarnhaol pe byddai'r Comisiynydd yn gallu nodi a rhannu arfer dda yn well ar draws sefydliadau sy'n wynebu heriau tebyg. Byddai hyn yn helpu i feithrin mwy o ewyllys da ac agweddau cadarnhaol at y Gymraeg hefyd.

Estyn

Mae angen cynghori cyrff drwy'r broses, enwedig rhai sy'n newydd i ddwyieithrwydd. Mae peidio gelyniaethu ar y broses o weithredu'r safonau yn hanfodol i lwyddiant yr iaith yn y dyfodol.

Colegau Cymru

30. Mae rhai ymatebion yn cynnig enghreifftiau penodol ble mae dehongli'r Safonau yn creu amwyster:

One small example – our extensive use of social media, video content and other downloads became an area of focus: what would we need to do about 'archive' content that was not available bilingually? There was simply not enough time or money to 'retro-fit' some of this content bilingually, but removing it seemed perverse as it made our available content less 'rich'.

Opera Cenedlaethol Cymru

Our Wales office does not have a reception service as we are not an open office in the traditional sense of being open to the public. However, standards relating to a reception service have been imposed on the ICO, along with other standards that suggest some form of publicly-available office. This has understandably led to confusion within the ICO Wales office as to how we are to comply.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru

For example, standard 69 relates to official notices. The definition of an "official notice" at paragraph 41 of Part 3 is circular. It states that an "official notice" means any notice that a body publishes to inform persons about service delivery activities or changes to service delivery activities, but does not include official notices prescribed by an enactment. Should this be revised to state any notices prescribed by an enactment?

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Castell-nedd Port Talbot

31. Mae rhai ymatebwyr yn nodi nad yw hi'n glir sut mae'r Safonau yn ymdrin gydag allanoli gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau eraill i ddarparu gwasanaethau:

Ar lefel cydweithio, mae ar brydiau'n anodd ar lefel ymarferol pan fo cyrff cyhoeddus cyfagos wedi'u heithrio o rai Safonau neu sydd ddim eto wedi derbyn Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol. Gall hyn greu diffyg cytundeb am yr angen i ddarparu rhai dogfennaeth yn ddwyieithog neu gynnal cyfarfodydd llesiant trwy'r Gymraeg heb wasanaeth cyfieithydd.

Cyngor Sir Ynys Môn

There is much confusion as to the status of partnerships (formal and informal), joint initiatives and arm's-length bodies... It seems that decisions made by these groupings are not necessarily subject to any set of standards – but implementation by their constituent bodies would be subject to each one's individual set of standards (where they exist) – potentially requiring 4 or more slightly different interpretations (including possibly none).

Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Mae gwasanaethau cyhoeddus bellach yn fwy ymwybodol o fuddion cydweithio – ond nid yw'r safonau'n manteisio ar hyn. Dylai fod mwy o synergedd rhyngddynt (h.y. yr un safonau yn hytrach na rhai gwahanol) i hwyluso cydweithio a chynnig mwy o gyfarwyddyd (rhannu arferion gorau).

Gwasnaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae'r elfen gynyddol o sefydliadau yn dod ynghyd i ddarparu gwasanaethau, neu'n allanoli gwasanaethau cyhoeddus, yn gofyn am arweiniad a chefnogaeth arbenigol gan Gomisiynydd y Gymraeg i arfogi sefydliadau cyhoeddus i wneud penderfyniadau ystyrlon am y modelau amgen o ddarparu

gwasanaethau cyhoeddus fyddai hefyd yn gyfrwng i ddiogelu'r Gymraeg, a pha fodlau amgen (os o gwbl) fyddai'n gynwysiedig o dan Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae risg amlwg i'r Gymraeg os nad yw consortia, a modelau eraill a sefydlir i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn ddarostyngedig i'r Safonau Iaith.

Menter Iaith Sir y Fflint a Maelor

32. Mae dau gorff yn nodi nad yw'n glir beth yw'r gofynion o ran cyrff sy'n gweithredu y tu hwnt i ffiniau Cymru:

Pryderwn fod geirio hysbysiadau cydymffurfio asiantaethau sy'n gweithio ar draws y DU i nodi bod angen sicrhau darparu 'gwybodaeth ar gyfer Cymru yn unig' yn Gymraeg yn golygu na fydd sicrwydd y bydd yr holl ddogfennau a gwybodaeth sydd yn berthnasol i Gymru, a ddarperir gan asiantaethau megis Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ar gael yn Gymraeg gan ei fod hefyd yn berthnasol i wledydd eraill y DU.

Mudiad Ysgolion Meithrin

Rhwystrau ymarferol

33. Yn ôl nifer o'r cyrff sy'n dod o dan Safonau neu ar fin dod o dan Safonau, mae problemau ymarferol wrth geisio cydymffurfio â'r Safonau:

There are some areas of recognised shortfall of Welsh speakers where dealing with the public is a requirement to some degree or other. There is little or no external Recruitment taking place at the moment into LAs. As a result, the option is not available to recruiting into new positions to redress this. The main source for fulfilling vacant positions is as a result of redeployment of existing staff whose current roles are going and their Welsh language skills may not be a perfect match for the available posts. It is not an option to make these members of staff redundant and then to recruit someone specifically because of their Welsh language skills.

Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Staff profile is a challenge for us i.e. with only around 40 fluent Welsh speakers and a lack of staff with language ability in the areas most needed i.e. receptions etc... Equally 'confidence' to develop language skills is also a significant challenge. We are encouraging staff to take up the language, however the 'mystery shopper' approach and the punitive sanction and threat of fines for non-compliance, leaves many officers too scared to say something in Welsh, in case they say it wrong.

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent

The council employs 3,257 members of staff and only 2.7% speak, read or write in Welsh. The council conducted a survey of these employees to ascertain whether they would be prepared to assist non-Welsh speaking

colleagues. Only 41 were prepared to assist. The feedback was that Welsh speakers did not feel confident enough to provide translation support or to converse in Welsh in a business context.

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae hefyd yn gadael bwlch o ran sut mae cyrff cyhoeddus yn gallu dylanwadu ar sefydliadau eraill, ac yn enwedig felly drwy gytundebau trydydd parti. At hyn, mae eithriadau sydd wedi eu caniatáu i rai safonau, neu'r ffaith bod rhai Cynghorau wedi eu heithrio o rai safonau sylfaenol, yn golygu na ellir ar brydiau cael cytundeb ar rai materion allweddol.

Cyngor Gwynedd

The level of work required to comply with the Standards has resulted in little or no time to promote the use of the language, within our organisation. We now rely on the work of external organisations, such as Mentrau Iaith, to promote the use of the language socially on our behalf.

Awdurdod Lleol am aros yn ddiennw

There are 24 solicitors and barristers employed within the Authority's Legal Services, one of whom feels competent enough to use their Welsh language skills for business purposes but only in their own areas of specialism. There is only one Welsh speaker in the Authority's Licensing Section and that person is not a licensing officer. There are no staff within the Procurement Team who have Welsh language skills... In terms of availability in the general market of solicitors who are Welsh spoken or sufficiently skilled in Welsh, it is only recently that the Welsh language has been used for legal education and then only in limited form. Welsh speaking lawyers are not available in sufficient numbers or in sufficient areas in order to provide a full range of services through the medium of Welsh.

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Un maes sydd yn peri pryder mawr i fy sefydliad i yw gweithredu'r gwasanaethau a gyflwynir ar ein rhan (gwasanaethau wedi'u comisiynu). Gan fod nifer o'r gwasanaethau y byddaf yn eu comisiynu yn arbenigol iawn o ran natur, yn perthyn i faes gweinyddu cyfiawnder neu ddarparu cefnogaeth i ddiodefwyr troseddau, a chan fod y pwll o gyflawnwyr sydd ar gael eisoes yn eithaf cyfyng, y mae hi'n bosib y byddai mynnu iddynt fedru rhoi gwasanaeth llwyr ddwyieithog yn lleihau'r pwll yn fwy fyth yn ogystal ag effeithio'n negyddol ar broses dendro gystadleuol a'n gallu i ddarparu rhai o'r gwasanaethau unigryw hyn.

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys

Whilst preparatory work had been undertaken in advance of the final compliance notice, this short timescale for implementation has placed a great deal of pressure on the Force to ensure it is fully compliant with the standards.

Heddlu De Cymru

Mae gennym bryderon y bydd rhai o'r Safonau newydd yn anodd i ni eu cyrraedd, naill ai am nad ydynt wir yn berthnasol i'n gweithgareddau penodol, neu oherwydd y byddant yn rhy feichus i sefydliad cymharol fach fel CCAUC.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

We simply do not have, and nor are we likely to be able to recruit, the number of Welsh speakers required for us to provide Welsh language support continuously for Welsh speaking service users.

Bwrdd Iechyd am aros yn ddiennw

The health board cannot monitor the implementation of the standards across such a large, diverse, multidisciplinary organisation. Thousands of interactions between staff and service users takes place each day, across a wide variety of healthcare settings. This would require another level of bureaucracy to police and monitor, therefore, the health board cannot measure and guarantee compliance with the standards at all times. The only way the health board would know if a standard has been breached would be as a result of a complaint or feedback stating so.

Bwrdd Iechyd am aros yn ddiennw

Mae'n annhebygol fod gan bob un o awdurdodau lleol Cymru, neu gyrff cyhoeddus eraill, arbenigwyr ym maes sosioieithyddiaeth a fyddai'n gallu llunio cynllun hyrwyddo effeithiol.

Dyfodol i'r Iaith

Costau cydymffurfio

34. Mae sawl ymateb yn nodi costau cydymffurfio:

It has been a real challenge for elected members who are making difficult decisions to cut services and reduce budgets, whilst having to agree budgets to implement the Welsh Language standards.

Further the timing around the introduction of the Standards has been unfortunate given the significant changes in legal frameworks that affect how the council delivers services. The timing of the introduction of the Standards has been unhelpful as they came when the Local Authority was making every effort to understand and respond to the new legislative and policy framework requirements in relation to Future Generations Act, Social Services and Wellbeing Act, Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual

Violence Act etc. Thus the Local Authority like every other in Wales has been under a significant and enduring bureaucratic burden.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

In the case of in-house developments, there is no real problem in designing systems which are compliant with our standards... In such cases, providing for a Welsh language processing option may need a work-around or some expensive customisation, neither of which are an easy option. It would help if some further leverage were available at a national level to try to ensure that fully bilingual software is available.

Cyngor Sir a Dinas Abertawe

O ran cyfieithu a dogfennau, hoffem weld sefyllfa lle mae pob dogfen gyhoeddus ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar draws pob sefydliad yng Nghymru, ond rhaid blaenoriaethu adnoddau cyfieithu. Mae gofynion safon 41 yn benodol yn golygu ein bod yn cyfieithu hyd at 60 mil o eiriau pob mis ar gyfer cofnodion is-bwyllgorau.

Cyngor Caerdydd

Dyhead yr Heddlu ydy cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg yn llawn. Ond, mae amseriad cyflwyno'r Safonau wedi bod yn hynod anffodus gan feddwl am yr heriau ariannol sydd wedi wynebu'r Heddlu a'r angen i wneud arbedion sylweddol.

Heddlu Gogledd Cymru

Rhaid cofio mae lleiafrif yw'r siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ac felly mae angen ystyried y ffordd o integreiddio a chyfathrebu neges bositif am y datblygiad gyda rheini sydd ddim yn siarad Cymraeg. Enwedig gan fod cost ychwanegol o weithredu'r safonau ynghlwm.

Colegau Cymru

The standards have hugely increased our expenditure on translation services and we are reviewing how best this can be managed in future... We currently expect the cost of reaching compliance in the current financial year to be up to £40,000. We have budgeted £20,000 for next year too. This does not include the considerable internal staff time involved. These are large sums of money for a charitable organisation (such as WNO) to find.

Opera Cenedlaethol Cymru

Cwynion ac ymchwiliadau i dor-safon

35. Mae bron pob ymateb yn cynnig sylwadau ar y broses gwynion, gyda barn gref gyffredinol bod y broses yn rhy hir a chymleth.

Yn achos cŵyn iaith, os aiff achwynydd yn uniongyrchol at Gomisiynydd y Gymraeg, nid yw'r sefydliad yn cael cyfle o gwbl i ymateb i'r gŵyn na'r achwynydd, gan fod y Comisiynydd naill ai'n ymchwilio i'r gŵyn yn uniongyrchol ei hun, neu os tybia nad yw'r gŵyn yn un ddilys ond bod tystiolaeth ddigonol o ddiffyg ar sail y sefydliad, gall y Comisiynydd ddefnyddio hynny fel sail i gynnal ymchwiliad beth bynnag... Mae arafwch y broses o gynnal ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg hefyd yn dibrisio gwerth y broses a'r gyfundrefn i'r sefyliad, ond yn bwysicach fyth i'r achwynydd.

Cyngor Gwynedd

Mae angen diwygio'r broses gwyno a gorfodi a symud i drefn tebyg i'r ombwdsman lle caiff cwynion eu cyfeirio i'r rheoleiddiwr dim ond pan nad yw'r sefydliad wedi delio â'r mater yn ddigonol. Hyd y gwyddwn, nid yw'r ombwdsman yn ymgymryd ag ymchwiliad sy'n para 4 mis neu'n fwy ar sail 1 twît... Y drefn ymchwilio yw

- 1. Sefydliad yn dilysu*
- 2. Sefydliad yn rhoi sylwadau ar y cylch gorchwyl*
- 3. Sefydliad yn darparu tystiolaeth*
- 4. Derbyn ac ymateb i'r penderfyniad arfaethedig*
- 5. Derbyn y pernderfyniad terfynol*

Mae'r broses yn cymryd o leiaf 3-4 mis, waeth pa mor syml yw'r gŵyn / ymchwiliad, ac mae angen i'r sefydliad ddarparu 5 ymateb i bob cwyn. Nid yw'r weithdrefn hon yn gynaliadwy.

Cyngor Caerdydd

The complaints process is extremely long-winded and involved. It is recognised that this is in many ways a result of the regulations governing the process, and the fact that there are opportunities for resolution at various points – but it would be preferable if complainants could be referred in the first instance to the body involved to allow a resolution/explanation.

Cyngor Dinas a Sir Abertawe

This current heavy handed approach slows down a resolution to the complaint and impacts negatively on the goodwill within the organisation.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot

Mae'r broses yn fiwrocraidd iawn ac mewn rhai achosion rydym wedi gallu datrys y mater yn gyflym iawn, ond yn parhau i fod yn rhan o broses ymchwiliad am yr hyn sydd wedi dod yn ôl-weithredol am fisoedd lawer.

Awdurdod Lleol am aros yn ddiennw

The Commissioner continued to investigate what she deemed an invalid complaint, without opening dialogue with us, and providing an opportunity for us to consider the 'complaint' internally using our well-established complaints procedure rather than embark on a lengthy and time-consuming investigation.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Mae'r broses o ddatrys camgymeriadau bach ar y cyfan i weld yn hirfaith ac yn cymryd gormod o amser i'w ddatrys. Mae prosesau hir a chostus yn ffordd arall o droi'r cyhoedd a sefydliadau yn erbyn yr iaith.

Colegau Cymru

Rhaid cwestiynu hefyd a yw amserlen a phroses mor fiwrocraidd (sydd wedi ei gosod yn y Mesur) yn annog pobl i gwyno am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg, ac argyhoeddi'r achwynydd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael yn sgil gweithredu'r ymchwiliad? O wybod am rai sydd wedi cyflwyno cwynion fel unigolion, roedd y broses yn un hir, cymhleth, anodd a diflas, heb ganlyniad, er eu bod 'dan ystyriaeth' ers amser.

Menter Bro Dinefwr

36. Mae'r mwyafrif helaeth o'r ymatebion o'r farn y dylai cwynion fynd at y corff ei hun yn y lle cyntaf.

The council would like to see this focus on local resolution of complaints being adopted in relation to implementation of the Welsh language standards. We strongly believe that all complaints should be investigated locally in the first instance though the use of corporate complaints procedures and only if this is not possible should they be escalated to the Commissioner.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae proses y Comisiynydd o ymdrin â chwynion hefyd yn peri anhawster ac yn annheg i'r sefydliad ac i'r achwynydd. Y mae proses cwynion Comisiynydd y Gymraeg yn sylfaenol wahanol i drefniadau'r Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus, gan nad yw'r sefydliad yn cael y cyfle cyntaf i ymateb i'r achwynydd ac unioni'r cam a wnaethpwyd, gan alluogi'r sefydliad i roi trefniadau amgen mewn lle i sicrhau na ddigwydd eto.

Cyngor Gwynedd

Byddai'n haws i feithrin neges gadarnhaol am yr iaith ar draws y sefydliad os oedd y broses fewnol yn ein galluogi i ddatrys materion ar y cyfle cyntaf. Gall llawer o faterion fel camgymeriadau sillafu syml gael eu cywiro yn gyflym iawn.

Awdurdod Lleol am aros yn ddienw

The investigation into complaints is both unnecessary and lengthy, and could easily be rectified by treating Welsh language complaints in the same manner as any other complaint, through the Corporate Complaints procedure where the intervention of the Commissioner as the Ombudsman would better deliver the positive and often instant results for customers.

Awdurdod Lleol am aros yn ddiennw

Byddai'n adeiladol ystyried sut byddai modd sicrhau fod corff yn cael y cyfle i ddatrys cwyn yn y lle cyntaf, cyn i'r Comisiynydd ymyrryd. Byddai gofyn i'r corff ymchwilio a chynnig datrysiad trwy eu trefn gwyno fel cam cyntaf yn dilyn trefn debyg gan sefydliadau eraill megis Swyddfa'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

Am aros yn ddiennw

37. Mae un ymatebydd yn nodi'r budd allai ddeillio o newid y drefn gwynion:

Mae'n debyg byddai newid i'r broses o ymdrin â chwynion yn gallu rhyddhau adnodd y Comisiynydd i rannu arfer da a llwyddiannau o weithredu'r safonau, sydd yn faes a allai fod yn ddefnyddiol.

Am aros yn ddiennw

38. Mae un corff yn lleisio barn gwahanol:

Mae'r broses fel y'i gweithredir gan y Comisiynydd yn golygu bod angen i'r unigolyn dderbyn cam (yn ei olwg/golwg), cwyno i sefydliad am y cam, aros nes cael ateb, yna, os yw'r ateb yn anfoddhaol, mae disgwyl i'r unigolyn anfon cwyn at y Comisiynydd. Gall hyn ynddo'i hun ddigalonnii llawer rhag mynegi barn. Byddwn yn galw am system fwy hyblyg ac effeithiol, gyda chosbau pendant a grymus. Byddwn yn cytuno wrth gwrs, y bod lle i gyfundrefn gwyno, ond credwn fod y system bresennol yn rhoi gormod o faich ar unigolyn i ddatgan anfodlonrwydd, a dim digon ar y sefydliadau i wella eu darpariaeth.

Dyfodol i'r laith

Cosbau

39. Dim ond un ymatebydd sy'n gwneud sylw am rôl y Comisiynydd yn gosod dirwyon a chosbau eraill. Ar ôl rhestru'r camau gorfodi sydd ar gael i'r Comisiynydd, noda'r ymatebydd:

It is the council's view that it would make for better compliance with the standards and an improvement in service delivery if the Commissioner's office were to work with the council rather than impose sanctions, as outlined above.

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Adolygu'r Mesur

40. Mae un ymatebydd yn gwneud sylwadau ar amseru adolygiad o'r Mesur:

Yn gyffredinol, rydym yn croesawu'r adolygiad yma ac yn credu fod cyfle i wella a symleiddio rhai o elfennau craidd y broses o osod a gorfodi'r safonau. Hoffwn hefyd nodi ei bod yn parhau yn nyddiau cynnar ac mae'n hanfodol fod unrhyw newidiadau arfaethedig yn ystyried hynny – mae'n teimlo'n fuan i gyflwyno newidiadau radical ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn teimlo nad oes digon o amser wedi pasio i fesur effaith y safonau ar y Gymraeg.

Am aros yn ddiennw

Swyddogaethau rheoleiddio a hybu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg

Cwestiwn 2 – Mae rôl Comisiynydd y Gymraeg yn cynnwys swyddogaethau rheoleiddio a chyfrifoldebau am hybu a hyrwyddo defnydd yr iaith. Ydi'r balans yn gywir?

Cwestiwn 3 – Beth yw eich profiad neu farn am y trefniadau presennol am hybu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg. Hoffwn glywed yn arbennig eich barn am bwy ddylai fod yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg, tra'n cadw mewn cof y dryswch all godi ble mae nifer o gyrff yn gweithredu yn yr un maes.

41. Mae'r sylwadau a ddaeth i law o dan y cwestiynau hyn yn gorgyffwrdd yn helaeth, felly mae'r crynodeb hwn yn trin y themâu sydd yn codi o dan y ddau gwestiwn ar y cyd.
42. Mae'n bwysig nodi hefyd bod llai o ymatebwyr wedi dewis ateb y cwestiynau hyn.
43. Wrth ddarllen yr ymatebion hyn, mae'n ymddangos bod rhai ymatebwyr yn dehongli 'hybu a hyrwyddo' yng nghyd-destun penodol y gyfundrefn Safonau, hynny yw, heb o bosib ystyried y cwrpas ehangach o weithgareddau y gellid eu disgrifio fel 'hybu a hyrwyddo'. Rhaid cadw hwn mewn cof wrth nodi'r sylwadau canlynol.

Cyfrifoldebau Comisiynydd y Gymraeg

44. O blith yr ymatebion a dderbyniwyd ar y mater hwn, un ymatebydd yn unig sydd o'r farn bod y cydbwysedd yn iawn:

The Health Board believes that the balance of the Welsh Language Commissioner's role is right, although initially the Health Board had concerns that the Commissioner would be acting solely as a regulator.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

45. Mae'r mwyafrif o ymatebwyr o'r farn nad oes cydbwysedd rhwng swyddogaethau rheoleiddio a swyddogaethau hybu a hyrwyddo'r Comisiynydd:

Yn sicr, mae rôl Comisiynydd y Gymraeg ers ei sefydlu wedi gogwyddo mwy tuag at reoleiddio yn hytrach na hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg, ac nid yw'r Comisiynydd wedi gallu uno'r ddwy swyddogaeth yma yn yr un modd ac y llwyddwyd i wneud hynny gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg gynt.

Cyngor Gwynedd

There is no balance between promotion and regulation.

Awdurdod Lleol am aros yn ddiennw

It would be more useful if the WLC became more like the EHRC – there seems to be more of a balance between the role of regulator and that of providing support and guidance.

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Mae gwaith hyrwyddo'r Comisiynydd yn canolbwyntio gan fwyaf ar sefydliadau nad ydynt yn dod o dan ddyletswyddau statudol (3ydd sector ayyb). Byddem yn croesawi mwy o waith hybu a hwyluso gyda sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r safonau megis awdurdodau lleol. Mae'n anodd i'r Comisiynydd gynnig unrhyw 'gyngor' adeiladol i sefydliadau ar gydymffurfio â'r safonau oherwydd ei rôl fel rheoleiddiwr.

Cyngor Caerdydd

Rydym yn gwerthfawrogi'n llawn bod rhaid i Lywodraeth Cymru a'r Comisiynydd sicrhau bod trefniadau cadarn yn eu lle i wneud yn siŵr bod cyrff y sector cyhoeddus yn ymwneud yn briodol â'u cyfrifoldebau mewn perthynas â defnyddio a hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Er hynny, rydym yn credu bod y cydbwysedd wedi symud yn rhy bell i ryw raddau, i gyfeiriad rheoleiddio cyrff cyhoeddus.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Dylai'r pwyslais felly fod mwy ar hyrwyddo yn hytrach na rheoleiddio ymdrechion sefydliadau ac unigolion.

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys

Mae'n ymddangos bod rôl y Comisiynydd yn cael ei symbylu'n bennaf gan ei swyddogaethau rheoleiddio ac yn llai gan ei gwaith hybu a hwyluso. Efallai y byddai'n ddefnyddiol pe byddai cydbwysedd gwell rhwng y ddwy rôl.

Estyn

Our view is that during the implementation process, the Commissioner has weighted the balance too far in favour of regulatory functions. As a regulating body ourselves, we fully understand the importance of getting this balance correct, and over 30 years experience as a regulator has taught us that there is far greater value in helping organisations improve their practices and taking a pragmatic view as opposed to taking enforcement action.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru

Nid ydym yn meddwl bod rôl hybu a hyrwyddo defnydd cyffredinol/cymdeithasol o'r iaith Gymraeg gan y Comisiynydd yn amlwg i

ddysgwyr Cymru, y tu hwnt i'r gwelliannau a ddaw maes o law gobeithio o ganlyniad i'r safonau.

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Nid yw gwaith hybu a hyrwyddo uniongyrchol Comisiynydd y Gymraeg yn amlwg i'r cyhoedd, a phryderwn fod yna peryg ei weld fel corff rheoleiddio, gyda Thribiwnlys y Gymraeg yn ganolog a'r gwaith hybu a hyrwyddo yn atodol ymylol. Gwelwn le i ddatblygu'r gwaith hyn drwy gynnal fforwm partneriaid Comisiynydd y Gymraeg er mwyn adeiladu ar a datblygu ymgyrchoedd hybu a hyrwyddo mewn meysydd penodol e.e. defnydd cymunedol, addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, gwaith plant er mwyn sicrhau cysondeb a rhannu profiadau arfer da.

Mudiad Meithrin

Efallai y dylai rôl y Comisiynydd fel hyrwyddwr gael ei farchnata mwy, gan taw'r rôl rheoleiddio sy'n dod i'r amlwg.

Am aros yn ddi-enw

O ganlyniad toriadau mewn cyllid swyddfeydd y Comisiynydd, mae'n edrych fel bod dim modd i'r Comisiynydd treulio amser ar yr elfen hybu a hyrwyddo. Mae'r elfen yma wedi cael ei hesgeuluso ers diddymu Bwrdd yr Iaith. Er bod angen bod yn gadarn wrth reoleiddio mae'n edrych fel mae llawer gormod o bwyslais ar weithdrefnau reoleiddio.

Menter Merthyr Tudful

O'r cychwyn cyntaf mae diffyg eglurder wedi bod ynghlwm wrth hunaniaeth swyddogol swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Mae a wnelo hyn yn rhannol â'r ddeddfwriaeth ond hefyd â'r ffordd mae'r rôl wedi'i disgrifio mewn disgwrs gyhoeddus. Felly, mae Comisiynydd y Gymraeg yn cael ei ystyried, yn eu plith, yn rheoleiddiwr, yn ombwdsmon, yn gorff polisi ymgynghorol, yn bencampwr sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ac yn eiriolwr dros siaradwyr Cymraeg. Mae llawer o'r rolau hyn yn anghydnaws â'i gilydd ac yn gwrthdaro â'i gilydd. O ganlyniad, mae Comisiynydd y Gymraeg mewn sefyllfa led anodd o arfer nifer o rolau sy'n anghyson â'i gilydd oherwydd lefel disgwyliad y cyhoedd ac yn sgil y Mesur ei hun. Mae'r dull rheoleiddiol y mae Comisiynydd y Gymraeg wedi'i fabwysiadu hefyd wedi cyfrannu at y ffordd y mae eraill yn canfod hunaniaeth swyddogol y swyddfa.

Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

Dros y pum mlynedd diwethaf, rhoddwyd y pwyslais ar sefydlu'r safonau, a chreu strwythur rheoleiddio i'w cefnogi; bu'r broses hon yn un llafurus a hirfaith, a chredwn yn ogystal bod y system bresennol yn rhy glogyrnaidd... Byddwn yn derbyn bod angen gwarchod hawliau'r Gymraeg, ond rhaid

cydnabod mai twf yn ogystal a gwarchod yw'r her a'r flaenoriaeth bellach os yw'r Gymraeg am ffynnu.

Dyfodol i'r laith

46. Mae nifer o ymatebwyr yn nodi fod y cydbwysedd rhwng gwahanol swyddogaethau'r Comisiynydd wedi newid dros amser:

Dialogue with the Commissioner has been notable by its absence throughout the process ... However, over recent months this has improved with meaningful dialogue taking place in relation to the challenge.

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Castell-Nedd Port Talbot

When we did eventually receive a visit from the WLCO's office, this proved a positive and constructive engagement opportunity to raise concerns and clarify some burning points at the time. It was also the first time we were told we were doing well in a particular area of implementation and that the practice was possibly good practice.

Awdurdod Lleol am fod yn ddiennw

The Health Board has found the Commissioner's publications, guidance documents and workshops very informative and useful. Staff who attended the workshops have been able to use the content of the workshop to promote and facilitate the use of Welsh in the workplace for staff and service users... The Commissioner has promoted good initiatives and encourages organisations to replicate good practice.

Bwrdd Iechyd am fod yn ddiennw

Wrth ddechrau'r perthynas gyda Swyddfa'r Comisiynydd, roedd yna fwy o bleidlais ar gydymffurfiaeth, ond yn ddiweddar, rydyn ni wedi derbyn fwy o gymorth wrth y swyddfa. Er enghraifft, wrth gwrdd â swyddogion yn fwy aml ac wrth i swyddfa'r Comisiynydd cynnal digwyddiadau gwybodaeth.

Corff cyhoeddus am fod yn ddi-enw

Whilst our initial relationship with the Welsh Language Commissioner's Office was focused on compliance, over the past 6 months, we have seen this relationship develop to more of an advisory role in aiding our understanding of the Standards and also providing advice on the challenge process.

Heddlu De Cymru

Mae'r broses hefyd yn cynnwys rhai cyfleoedd am drafod uniongyrchol gyda Swyddfa'r Comisiynydd ac mae hyn yn cael ei groesawi'n fawr. Roedd y Sesiwn Briffio diweddar a drefnwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, gan gynnwys CCAUC, o gymorth mawr i esbonio elfennau ymarferol y broses. Bydd aelodau staff y

Comisiynydd yn cael cyfarfod unigol yn awr gyda phob un o'r sefydliadau sy'n cael eu heffeithio gan y ddeddfwriaeth newydd. Mae hwn yn gam pwysig iawn i ni oherwydd bydd yn galluogi i ni godi cwestiynau a phryderon am y Safonau sy'n peri anawsterau penodol i ni, neu nad ydym yn credu eu bod yn berthnasol i ni. Gobeithio y bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn ymateb i'r pryderon hyn ac yn fodlon bod yn hyblyg a chymesur.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

47. Mae dau ymatebydd yn nodi effaith digwyddiadau penodol yng nghyfnod sefydlu'r Comisiynydd:

Mae'n anffodus fod swyddogaeth Comisiynydd y Gymraeg wedi ei thanseilio reit ar y cychwyn pan wrthodwyd safonau'r Gymraeg.

Cyngor Gwynedd

Yn ein barn ni roedd yn arbennig o anffodus fod swyddogaeth Comisiynydd y Gymraeg wedi ei thanseilio ar y cychwyn pan wrthodwyd y Safonau Iaith, ac mae hynny wedi cael effaith negyddol iawn ar ddelwedd a hygrededd y Comisiynydd, ac wedi gosod ei gwaith yn ôl. Mae hyn hefyd wedi creu sefyllfa ble nad oedd rhaid neu fodd i'r Cynghorau ddechrau symud ymlaen am gyfnod hir ac mae'n mynd i fod yn anodd iawn i adennill y momentwm a gollwyd oherwydd hynny.

Menter Iath Sir y Fflint a Maelor

48. Mae rhai ymatebwyr yn pryderu am effaith negyddol iaith reoleiddio:

Mae'r pwyslais ar reoleiddio hefyd yn golygu fod yr holl ddisgwrs o gwmpas safonau'r Gymraeg (ers iddynt gael eu sefydlu) yn negyddol, ac adlewyrchir hynny ar ei waethaf ymysg Swyddogion Iaith sefydliadau cyhoeddus, sef yr union fudd-ddeiliaid y dylai fod yn ladmeryddion ar ran Comisiynydd y Gymraeg! Sgil effaith arall y pwyslais ar reoleiddio yw fod perygl i holl adnoddau'r Gymraeg (Swyddogion Iaith) gan sefydliadau cyhoeddus gael eu meddiannu'n llwyr gan gyfundrefn a gofynion y rheoleiddiwr.

Cyngor Gwynedd

*There is an over use of negative vocabulary which does little to foster good relations. Instances of this include: the contact email for commissioner's office is '**investigationandenforcement**@welshlanguagecommissioner.wales'*

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Bear in mind there is no actual distinction between individuals living and working in Wales, and individuals working within organisations striving to achieve the standards: they are the same people and their main experience is of the language of compliance, imposition and enforcement... We have found the language involved in the process to be negative and intimidating: 'imposition' and 'enforcement' in particular are not helpful when in fact the

changes being made are positive and for the right reasons. It has very definitely felt like it's all 'stick' and no 'carrot'.

Opera Cenedlaethol Cymru

Dylai'r Safonau fod yn arf cadarnhaol ar gyfer newid, ond negyddol yw'r sgwrs o'u cylch ers y dechrau, ac mae'r pwyslais a'r anogaeth a roddir i 'gwyno' am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg yn ychwanegu at y negyddiaeth yma. Angen cyfle a llwyfan i gofnodi, dathlu a rhannu arfer dda.

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

49. Mae nifer bach o'r ymatebion yn tynnu sylw at ymgyrchoedd cyhoeddus y Comisiynydd am y Safonau:

The current campaign, encouraging individuals to complain to the commissioner in the first instance, does not promote and facilitate Welsh speakers to use and expect their service in Welsh. A more positive campaign would be to encourage users to use their Welsh when visiting Councils.

Awdurdod Lleol am aros yn ddiennw

We understand that the public campaign has actively encouraged people to test organisations and lodge complaints with the Commissioner. Again, this is a negative focus – where is the positive PR campaign? It shouldn't just be about naming and shaming.

Opera Cenedlaethol Cymru

Mae'r Comisiynydd wedi mynd ati i gyhoeddi a hyrwyddo ar y teledu ac yn y cyfryngau, os yw siaradwyr Cymraeg yn anhapus gyda darpariaeth gwasanaeth y gallant gwyno'n uniongyrchol i'r Comisiynydd.

Awdurdod Lleol am aros yn ddiennw

50. Thema arall sy'n codi yn yr ymatebion yw cydnabyddiaeth o'r hyn sy'n cael ei gollu yn sgil y ffocws ar reoleiddio:

Credir y byddai ail gychwyn y gweithgareddau a gynhaliwyd yn y gorffennol gan Fwrdd yr Iaith a/neu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer swyddogion iaith y sector gyhoeddus i drafod datblygiadau a rhannu arfer da mewn perthynas â hybu a hyrwyddo'r Gymraeg o gymorth sylweddol.

Cyngor Sir Ynys Môn

Meetings of Rhwydiaith and, to a lesser degree, Equality Officers Network allowed for a fairly free exchange of information, ideas and good practice – particularly regarding initiatives which an individual LA may have tried out

Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Mae angen cymorth ac arweiniad ar swyddogion iaith a sefydliadau er mwyn eu cynorthwyo I gyflawni gofynion y dyletswyddau iaith. Pan mae cymorth wedi cael ei ddarparu'n dilyn cais am wybodaeth neu arweiniad mae wedi bod yn ddefnyddiol.

Heddlu Gogledd Cymru

Hefyd mae angen hyrwyddo a hwyluso'r iaith yng nghymdeithas Cymru yn ehangach, y tu hwnt i sefydliadau'r sector cyhoeddus eu hunain. Yn ein profiad ni, mae'r nifer sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg, yn ymarferol, yn isel. Mae hyn yn awgrymu bod angen mwy o fesurau meithrin hyder, gweithgareddau hyrwyddo a chyrsgiau i annog siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith mewn amrywiaeth ehangach o gyd-destunau, a chydabod eu hunain fel siaradwyr Cymraeg. Rydym yn awgrymu y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i'r mathau hyn o weithgareddau yn y dyfodol, yn hytrach na datblygu rhagor o reoliadau.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Gan fod rôl bresennol Comisiynydd y Gymraeg yn gogwyddo fwy tuag at reoleiddio yn hytrach na hybu a hyrwyddo, mae bwlch o safbwynt cynnig arweiniad, cymorth a chefnogaeth ymarferol i sefydliadau wneud mwy i hybu a hyrwyddo, yn ogystal â darparu mwy o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen felly i'r Comisiynydd edrych eto ar y gefnogaeth y mae modd ei gynnig i'r cyrff sy'n ddarostyngedig i'r Safonau.

Mae'r bwlch hwn hefyd yn amlwg yng nghyd-destun y sector preifat, ac i raddau llai, y trydydd sector, ac mae diffyg rhannu gwybodaeth am waith y Comisiynydd yn y meysydd hyn, a'r berthynas gyda gwaith y Mentrau Iaith, neu gyfleoedd i gydweithio eto'n cadarnhau nad yw rhai agweddau o'r trefniadau presennol yn hwyluso gweithredu a chydweithio, gan felly sicrhau'r canlyniadau gorau i'r iaith Gymraeg.

Menter Bro Dinefwr

Amlygir y bwlch hwn yn niffyg unrhyw weithgareddau sydd yn dod â Swyddogion Iaith sefydliadau cyhoeddus ynghyd i drafod y Gymraeg, y Safonau, cyhoeddiadau a dogfennau arweiniol ayb, elfen yr oedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac WLGA (drwy'r rhwydwaith 'Rhwydiaith') arfer ei chyflawni yn y gorffennol.

Menter Iaith Sir y Fflint a Maelor

Yr adborth gan nifer o Swyddogion y Cyngorau yw eu bod yn gweld eisiau'r arweiniad, cymorth a chefnogaeth oedd ar gael iddynt gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg gynt.

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

51. Dywedodd sawl ymatebydd bod angen cyfuniad o ddeddfwriaeth a gweithgareddau hybu a hyrwyddo er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr a defnydd y Gymraeg.

Yn sicr, nid drwy ddeddfwriaeth a rheoleiddio yn unig y llwyddir i gynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg a'r nifer sydd yn dewis ac yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd – mae angen deddf a greddf i sicrhau hynny. Yn sicr, fe ddylai'r safonau fod yn arf cadarnhaol ar gyfer newid, ochr yn ochr gydag ymdrechion pellgyrhaeddol i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg, ynghyd â chyfleoedd a llwyfan i gofnodi, dathlu a rhannu arfer dda.

Cyngor Gwynedd

Mae angen deddf a dyletswyddau iaith. Ond mae angen hyrwyddo'r defnydd a darparu cefnogaeth hefyd.

Heddlu Gogledd Cymru

Beth sydd yn allweddol yw bod pawb yn teimlo balchder dros gael dwy iaith yng Nghymru a bod ni'n cefnogi pobl Cymru i ddeall y datblygiadau. Mae'r deddfu wedi digwydd sy'n dda ond nawr mae angen ennyn diddordeb y cyhoedd er mwyn sicrhau cynaladwyedd a ffyniant i'r iaith Gymraeg.

Colegau Cymru

Rhaid cofio mai pwrpas rheoleiddio yw sicrhau cydymffurfiaeth ac anelu at gynydd yn erbyn cyfres o ddangosyddion penodol, ond yn bwysicach na hynny, dylai gefnogi'r weledigaeth fwy heriol a phellgyrhaeddol o greu mwy o siaradwyr yr iaith, a pharatoi ystod o gyfleoedd i bawb gael ei defnyddio ym mhob agwedd o'u bywydau.

Dyfodol i'r iaith

52. Prin oedd y sylwadau a dderbyniwyd am drefniadau presennol hybu a hyrwyddo'r Gymraeg y tu hwnt i sylwadau yn ymwneud â'r gyfundrefn Safonau a rôl y Comisiynydd. Er hynny, fel y gwelir drwyddi draw yn yr adroddiad hwn, mae thema cyson bod angen cryfhau gwethgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg:

Yn anffodus, mae dryswch eisoes yn bodoli ers diddymu Bwrdd yr Iaith mae'r Gymraeg wedi'u wanedu, gyda chyfrifoldeb diogelu, hyrwyddo a thyfiant iaith wedi rhannu i ormod o gyrff. Bellach does dim un man i gael y gwasanaeth cyflawn. Does dim ots pwy sy'n gyfrifol, eglurder ac esmwythder proses sydd angen.

Colegau Cymru

Pwy ddylai hybu a hyrwyddo 'r Gymraeg?

53. Mae dau ymatebydd yn rhestru rhai pethau penodol y dylid eu hystyried wrth gysudro trefniadau priodol:

1. *Pa gorff bynnag fydd yn gyfrifol am reoleiddio, mae angen newid yr arddull rheoleiddio fel bod y rheoleiddiwr yn un sy'n galluogi.*
2. *Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch amlygrwydd gweithgarwch polisi cyhoeddus ym maes hybu'r Gymraeg ac annog y defnydd ohoni yn wan ac mae'n rhaid ei chryfhau.*
3. *Bod angen sefydlu ymagwedd mwy strwythuredig tuag at reoli tranwsnewidiadau sefydliadol yn yr ystyr y byddai unrhyw gorff, swyddi neu ddeiliaid swyddi cyhoeddus arwyddocaol newydd yn elwa'n sylweddol o frifio pwrpasol ac ymgynefino sefydliadol.*
4. *Bod angen mwy o eglurder o du sefydliadau ac hefyd o ran dealltwriaeth ac amlygrwydd y cyhoedd, ynghylch y ffordd mae swyddogaethau yn cael eu dosrannu, ni waeth a wnelo'r swyddogaethau hynny â rheoleiddio, rhoi cyngor ar bolisi, hyrwyddo'r iaith ac annog y defnydd ohoni, neu ymyrraeth gyfreithiol a phenderfyniadau cyfreithiol.*
5. *Bod angen mwy o eglurder o du sefydliadau ynghylch annibyniaeth gymharol a llinellau atebolrwydd rhwng actorion sefydliadol wrth iddynt weithredu eu swyddogaethau.*

Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

(i) Yr angen am strategaeth gydlynol wedi'i seilio ar ddealltwriaeth drwyadl o Ddwyieitheg ac egwyddorion Cynllunio leithyddol cydnabyddedig.

(ii) Yr angen am barhad a chysondeb dros gyfnod estynedig o amser. O dan y drefn bresennol gall newid gwleidyddol (ee newid gweinidog) a newid ymysg gweision sifil beryglu'r parhad hwnnw.

(iii) Yr angen i gynyddu'r pwyslais ar hyrwyddo'r Gymraeg, nid dim ond ar sicrhau hawliau. [...]

(iv) Yr angen i ffiniau cyfrifoldeb rhwng y gwahanol endidau sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg fod yn glir a diamwys.

(v) Yr angen am gydlynu ymdrechion y gwahanol endidau i fod yn flaenoriaeth, yn hytrach na chaniatáu sefyllfa o gystadleuaeth am yr un adnoddau.

Dyfodol i'r Iaith

54. Yn gyffredinol, mae cytundeb mai Llywodraeth Cymru ddylai feddu ar bolisi cenedlaethol:

Mae'n rôl i Lywodraeth Cymru i osod cyfeiriad strategol a pholisi ar gyfer yr Iaith Gymraeg ac amlygir y weledigaeth hir dymor yn y ddogfen 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050'.

Cyngor Sir Ynys Môn

Mae Menter Iaith Sir Ddinbych yn croesawu ymrwymiad a gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, sef uchelgais o greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050, ac yn credu mai cyfrifoldeb y Llywodraeth yw gosod y fframwaith a'r cyfeiriad polisi ar gyfer yr iaith Gymraeg. Yn yr un modd, credir mai cyfrifoldeb y Llywodraeth yw'r fframwaith fonitro a sicrhau atebolrwydd am weithredu yn unol â'r cyfeiriad polisi a nodir ym Miliwn o Siaradwyr erbyn 2050.

Menter Iaith Sir Ddinbych

Pe bai Llywodraeth Cymru yn dewis creu corff hyd braich [o hyn allan, CHB] gyda'r bwriad o ymgymryd â swyddogaethau penodol i hyrwyddo'r Gymraeg ac i hybu ei defnydd, mae'n parhau i fod yn wir ei bod yn gwbl briodol, ac yn wir yn angenrheidiol, bod Llywodraeth Cymru yn meddu ar bolisi cyhoeddus a'i bod yn atebol am hynny i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

Llywodraeth Cymru fydd yn pennu ac yn dosbarthu cyllidebau ... Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru fydd penderfynu polisi sylfaenol (ee y dylid hyrwyddo'r Gymraeg ac mai'r nod yw creu Cymru ddwyieithog) ac yn pennu amcanion penodol o dro i dro (ee miliwn o siaradwyr erbyn 2050).

Dyfodol i'r iaith

55. Mae un ymatebydd yn disgrifio'r opsiynau ar gyfer corff hyd braich i hybu'r iaith:

... yn unol â graddau'r hyd braich oddi wrth Llywodraeth Cymru:

- *Asiantaeth Weithredol – yr hyd braich byrraf;*
- *Corff Adrannol a noddir – yr hyd braich canolig;*
- *Corff annibynnol er budd y cyhoedd – yr hyd braich hwyaf.*

Dylid nodi bod hyn yn cau allan y posibilrwydd o greu CHB fel corff cyfansoddiadol sy'n gyfan gwbl annibynnol o Lywodraeth Cymru, ei fod yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud penodiadau iddo a bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gosod ei gyllideb. Y rheswm dros hyn yw mai dim ond ar gyrff sydd â swyddogaeth Seneddol neu gyfansoddiadol y mae angen annibyniaeth o'r math hwn arnynt [e.e. Yr Archwilydd Cyffredinol, yr Ombwdsmon]. Mae'r llenyddiaeth ysgolheigaidd a phroffesiynol yn dangos yn ddigamsyniol, o roi swyddogaethau polisi cyhoeddus i CHB, bod y math hwnnw o annibyniaeth yn golygu risg dra sylweddol o ran atebolrwydd a pherfformiad yn benodol... Felly yr her yw sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng annibyniaeth y CHB ac atebolrwydd y Gweinidog.

Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

56. Mae sawl ymatebydd o'r farn y gall un corff gyflawni'r gwahanol swyddogaethau, gyda rhai yn cyfeirio at Fwrdd yr Iaith Gymraeg:

O ran hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ar lefel genedlaethol, credir y gellir edrych ar fodel Bwrdd yr Iaith fel un o arfer da. Llwyddwyd yma i gynnal y cydbwysedd rhwng rheoleiddio a hyrwyddo a hybu'r Gymraeg. Credir felly, y gall un corff gyflawni'r ddwy swyddogaeth yn llwyddiannus ac adeiladu perthynas o gyd-weithio gyda chyrff unigol er mwyn cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg.

Cyngor Sir Ynys Môn

Yn sicr, yn yr hinsawdd ariannol presennol, byddai'n anodd iawn cyfiawnhau sefydlu corff newydd hyd braich o Lywodraeth Cymru i fod yn gyfrifol am hybu a hyrwyddo'r Gymraeg, a byddai sefydlu corff hyrwyddo ar wahân i Gomisiynydd y Gymraeg i raddau yn cadarnhau'r dehongliad o rôl reoleiddio'n unig, ac yn creu haen arall o gymhlethdod a biwrocratiaeth. Yn sicr, mae colled a bwlch yn sgil diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ond beirniadaeth mwyaf y Bwrdd pan oedd yn weithredol oedd ei fod yn 'gwango'! Yr hyn sydd ei angen nawr yw priodi'r rôl rhwng rheoleiddio a hybu a hyrwyddo yn llawer gwell, ac er mwyn hwyluso hynny, awgrymir y byddai'n dda gweld y Llywodraeth yn trosglwyddo'r gyfundrefn grantiau ar gyfer hybu a hyrwyddo'r Gymraeg i'r Comisiynydd (fel ac yr oedd ym Mwrdd yr Iaith Gymraeg gynt). Byddai hynny'n ddull o annog creadigrwydd ac arloesedd, nodweddiad sydd yn anodd i'w cyfarch o fewn cyfundrefn o weision sifil.

Cyngor Gwynedd

The continued promotion of the Welsh Language should be the role of the Welsh Language Commissioner.

Heddlu De Cymru

Our view is that having a single independent body is an effective method for regulating legislation and promoting good practice. We are aware of the confusion surrounding this area of responsibility, and note the establishment of the Welsh Language Commissioner.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru

Mae'n ymddangos bod manteision dysgu a defnyddio'r Gymraeg yn cael eu hyrwyddo mewn ffordd dameidiog, ar hyn o bryd. Mae angen dull mwy cydlynol a strategol ar gyfer y dasg hon. Mae'r Comisiynydd mewn sefyllfa dda i wneud y gwaith hyrwyddo hwn, a byddai yn debygol o sicrhau mwy o synergedd rhwng ymgyrchoedd hyrwyddo a gwaith deddfwriaethol.

Estyn

O ran hybu a hyrwyddo'r iaith, mae'n bosib i'r Comisiynydd wneud hyn os ydynt yn sefydlu is-frand ac yn cael arian sylweddol i allu cynnal ymgyrchoedd marchnata i'w gefnogi.

Colegau Cymru

Gwelwn le i ddatblygu'r gwaith hyn [sef gwaith hybu a hyrwyddo] drwy gynnal fforwm partneriaid Comisiynydd y Gymraeg er mwyn adeiladu ar a datblygu ymgyrchoedd hybu a hyrwyddo mewn meysydd penodol e.e. defnydd cymunedol, addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, gwaith plant er mwyn sicrhau cysondeb a rhannu profiadau arfer da.

Mudiad Meithrin

Mae'n eitha posibl creu trefniant sefydliadol sy'n rhoi mwy o eglurder ac amlygrwydd i swyddogaethau hyrwyddo ac annog y defnydd o'r Gymraeg heb greu CHB newydd. Gellid gwneud hyn drwy weddnewid swyddfa Comisiynydd y Gymraeg fel mai hyrwyddo fyddai ei swyddogaeth graidd.

Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

57. Mae eraill yn nodi y dylai corff penodol fod yn gyfrifol am swyddogaethau hybu a hyrwyddo. Nid yw'n glir bob amser ai corff newydd yw hwn:

Mae absenoldeb corff lled braich o'r llywodraeth i hybu'r Gymraeg yn amlwg, ac nid rheoleidiwr fel y Comisiynydd na chwaith Llywodraeth Cymru ddylai fod yn gyfrifol am hyn... byddai o fudd mawr cael corff newydd sy'n gyfrifol am yr agweddau yma yn ogystal â dyrannu grantiau, gweithio gyda sefydliadau preifat a chraffu ar weithdrefnau sefydliadau er mwyn cynnig cymorth a chynghor adeiladaol. Mae'r Llywodraeth wedi bod yn ymgymryd ag elfennau o'r gwaith yma ond byddai cael corff lled braich â dyletswyddau penodol dros hybu a defnydd y Gymraeg a chynyddu dwyieithrwydd yn gyffrous iawn a fyddai'n ysgogi'r neiwd sydd ei angen er mwyn sicrhau fod Cymru yn dod yn wlad gwbl ddwyieithog.

Cyngor Caerdydd

We believe that either the Welsh Government or the Commissioner (subject to a rebalance of their functions) should be responsible for promoting the Welsh Language. When consulting on our Welsh Language Promotion Strategy it was evident that there was a clear lack of strategic planning, commissioning and co-ordination and delivery of Welsh Language services in Blaenau Gwent.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Basai o fudd i gael corff canolog sydd â chyfrifoldeb strategol am gynllunio ieithyddol yng Nghymru a fyddai'n gyfrifol am hybu'r iaith / Cymraeg i Oedolion / Cymraeg mewn addysg ayyb.

Gallai un 'corff'/tîm cenedlaethol gydlynu'r holl weithgareddau ar draws amryw o sefydliadau, gan greu ymgyrchoedd integredig ar sawl llwyfan i hybu'r iaith.

Dylai hwn fod yn gorff/tîm bychan, ystwyth sy'n gallu cynnal rhaglen ymgysylltu gyda'r rhanddeiliaid, sydd â gallu creadigol, a dealltwriaeth o'r holl lwyfannau. Byddai angen i bob mudiad cysylltiedig 'brynu i fewn' i'r weledigaeth hon a chytuno i gynllunio'n strategol ar y cyd. Mae angen naratif ystyrlon gydol y flwyddyn, nid comisiynu ymgyrchoedd ad-hoc.

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol

Mae'n anodd i gorff fod yn rheoleiddiwr ac yn hyrwyddwr ar yr un pryd.

Am aros yn ddiennw

... mae'n bosibl nid y Llywodraeth yw'r corff gorau i weithredu'r rôl o hybu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg ledled Cymru. Gofyn hynny am rinweddau megis hyblygrwydd a chreadigrwydd, ymateb i angen lleol, cefnogaeth ymarferol, treialu, ymddiriedaeth ayb. Oni fyddai corff hyd braich o Lywodraeth Cymru yn cyflawni'r rolau hyn yn fwy effeithiol?

Menter Sir Ddinbych

Corff hyd braich fyddai'n gweithredu i gyd-lynu, codi ymwybyddiaeth, datblygu a monitro mentrau a pholisïau i hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y gwahanol feysydd perthnasol.

Dyfodol i'r iaith

Rydym yn parhau i ddadlau dros sefydlu corff ar wahân i'r Comisiynydd a'r Llywodraeth i gymryd cyfrifoldeb am hyrwyddo'r Gymraeg, sef Cyngor y Gymraeg fyddai'n gallu defnyddio cyllid a strategaeth i hyrwyddo defnydd yr iaith.

Cymdeithas yr Iaith

58. Mae un corff o'r farn y gallai Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am arwain gwaith hybu a hyrwyddo:

Fel Menter Iaith rydym yn derbyn galwadau gan y Llywodraeth i hyrwyddo prosiectau marchnata'r Llywodraeth. Mae'r prosiectau yn ad hoc a heb gynllunio'n drylwyr. Y Mentrau Iaith ar draws Cymru sydd yn hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gymuned yn gyffredinol hyd yn oed os ydynt yn hyrwyddo cynlluniau marchnata partneriaid eraill, e.e. Cymraeg i Blant, Cymraeg i Oedolion ac ati. Buasai'n well bod mwy o adnoddau gyda'r Llywodraeth efallai i arwain ar hybu a hyrwyddo'n genedlaethol trwy'r partneriaid Cymraeg mewn ffordd strwythuredig gyda chyngor arbenigwyr marchnata a chynllunio iaith.

Menter Iaith Merthyr Tudful

59. Mae nifer fawr o blith yr ymatebion sy'n cynnig sylwadau am hybu a hyrwyddo yn nodi mai rôl i nifer o gyrff ydyw. O blith y rhain, mae rhai yn cyfeirio at y safon sydd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gael strategaeth i hybu'r Gymraeg, ac eraill am yr angen am arweiniad a chydlynu:

Under the Standards, each Council has a responsibility to increase the number of Welsh speakers by promoting the use of Welsh (Standard 145), this is only achievable with clear direction from Welsh Government on Welsh Education Policy, training and appropriate funding of organisations, such as the Urdd and Mentrau Iaith if it is to realise the target of a million Welsh speakers by 2050.

Awdurdod Lleol am aros yn ddiennw

We have recently produced our Welsh Language Promotion Strategy. We are proud of the efforts we made in developing this important document, which will set out how we will work in partnership to promote and facilitate engagement with and use of the Welsh Language... We would welcome support from the Commissioner as a 'critical friend' as we strive to effectively deliver against our commitments in the Strategy.

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent

...mae safon 145 wedi arwain at greu Strategaeth Caerdydd Ddwieithog ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg... Nid oes gofyniad i gyflwyno'r strategaeth i'r Comisiynydd neu'r Llywodraeth felly mae cynnwys y strategaethau hyn yn gyfrifoldeb llwyr i'r awdurdodau lleol. Gan fod Llywodraeth Cymru ar fin cyhoeddi strategaeth miliwn o siaradwyr Cymraeg byddai wedi bod yn ddefnyddiol derbyn mwy o gyngor ar sut y gall awdurdodau lleol gyfrannu at gyrraedd y nod yma neu hyd yn oed sicrhau fod y dyddiadau cydymffurfio yn cyd-fynd. Mae gan y Comisiynydd swyddogion sy'n gyfrifol am hybu a hwyluso'r Gymraeg i sefydliadau preifat ond mae angen pwyslais ar rannu arfer da a hwyluso'r Gymraeg mewn sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r safonau hefyd.

Cyngor Caerdydd

The promotion of the Welsh language lies primarily with the Welsh Government with its strategic role e.g. education, grant funding, planning etc. However, there is also a role for other organisations, including local government, but only in so far as their remit extends. The specific promotion standard places an expectation on local government which it is not able to fulfil – targets are required that only set us up to fail! ... A more realistic approach would be to have nationally set targets to which every organisation can contribute. This would help alleviate concerns due to potential issues with changing demographics, etc.

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Castell-Nedd Port Talbot

The responsibility for promoting the Welsh language belongs to everyone. The Commissioner, Welsh Government, public sector organisations, private sector and the public have a duty to promote the Welsh language and its use within Wales. The Welsh Language Commissioner, along with Welsh Government, should monitor how organisations are promoting and facilitating the use of Welsh.

Bwrdd Iechyd am Aros yn Ddiennw

Everyone has a responsibility for promoting the Welsh language. The Commissioner, Welsh Government, public sector organisations, private sector and the public all have a duty to promote the Welsh language and its use within Wales.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Beth sy'n glir yw bod pob sefydliad o dan y drefn safonau â chyfrifoldeb o hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r gwasanaethau.

Colegau Cymru

Mae llawer o'r cyrff hyn [y trydydd sector] yn hanfodol i oroesiad a thwf y Gymraeg fel iaith gymunedol gan eu bod yn cynnig cyfle i bobl wirfoddoli drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn galluogi pobl i gael gwasanaethau yn eu mamiaith, yn ogystal â dathlu'r iaith a'r traddodiadau a gysylltir â hi.

Am Aros yn Ddiennw

Nodwn yr angen i sicrhau arweiniad cadarn yn y maes, gan sicrhau cydlynu'r cyrff hyrwyddo sydd eisoes yn weithredol ar lawr gwlad. Mae nifer o fudiadau a sefydliadau eisoes yn weithredol, gan gynnwys y Mentrau Iaith, Cymraeg i Blant, Aelodau Mudiadau Dathlu'r Gymraeg, Cymraeg i Oedolion, Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Mudiad Meithrin. Er cytunwn fod cynifer o gyrff yn medru arwain at ddryswch, nodwn y byddai mapio a chydlynu'r gwaith sydd eisoes yn digwydd ar lawr gwlad er mwyn medru datblygu, rhannu a chydabod yr hyn sydd eisoes yn digwydd.

Mudiad Meithrin

60. Mae rhai – y Mentrau Iaith a rhai awdurdodau lleol – yn credu y dylid rhoi mwy o gyfrifoldeb ac adnoddau i weithgaredd ar lefel gymunedol:

Byddai sicrhau mwy o gyfrifoldeb i bartneriaid y Gymraeg weithredu yn eu meysydd yn golygu bod modd parhau i gynnig hyblygrwydd a chreadigrwydd, ymateb i anghenion lleol, cefnogaeth ymarferol, arloesi a threialu prosiectau newydd, datblygu perchnogaeth leol, etc. Credwn felly y dylid rhoi rhagor o gyfrifoldeb i'r Mentrau Iaith a phartneriaid y Gymraeg i weithredu, ond bod angen sicrhau buddsoddiad pellach yn y gwaith er mwyn datblygu'r rôl honno i'w llawn botensial.

Menter Bro Dinefwr

Camau nesaf

61. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb sydd wedi ymateb i'r alwad am dystiolaeth ac sydd wedi mynychu un o'r gweithdai. Mae'r holl ymatebion yn cyfrannu at y dystiolaeth yr ydym yn ystyried wrth ddatblygu cynigion polisi ar gyfer diwygio'r ddeddfwriaeth sy'n cefnogi'r iaith Gymraeg.
62. Bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi'r cynigion hynny mewn Papur Gwyn. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar y Papur Gwyn.